| Governance Readiness | Supporting the ongoing development of the Board and Governance processes for Digital Health and Care Wales, this includes consultancy costs as well as staffing costs for the transition project manager, Board Secretary and Chair and Independent Members (following their appointment by Welsh Government). | £312,200 |
| Legal Preparation | Legal advice to support the commercial activities relating to the transition such as the novation of contracts from Velindre to the SHA, Employment Law advice relating to the TUPE transfer and the setting up of employment licences and general legal advice relating to the creation of the Statutory Instruments to establish the SHA | £46,500 |
| | **Total:** | **£717,800** |

Tudalen y pecyn 23

Eitem 3.2

# SL(5)692 – Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020

## Cefndir a Diben

Mae Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020 ("y Gorchymyn") yn sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru ("IGDC") ac yn gwneud darpariaeth ynghylch ei gyfansoddiad a'i swyddogaethau cyffredin.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ategu'r Gorchymyn ac yn gwneud darpariaeth fanwl am aelodaeth a gweithdrefnau IGDC. Maent yn nodi materion gweithdrefnol a manylion mewn perthynas â'r aelodau amrywiol, gan gynnwys eu penodi, eu cymhwysedd, eu deiliadaeth, eu hamghymhwyso, eu hatal dros dro a'u diswyddo. Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i IGDC wneud rheolau sefydlog ynghylch ei gyfarfodydd a'i drafodion.

Gyda'i gilydd, mae'r Gorchymyn a'r Rheoliadau hyn yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefydlu IGDC.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 14(2) yn darparu, mewn rhai amgylchiadau, y caiff yr aelodau nad ydynt yn swyddogion ddiswyddo aelod cyswllt (a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(b)).

Yn wahanol i reoliadau 11(2) a 13(2) - sy'n darparu'n benodol bod yn rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig *i'r aelod* - nid yw'n amlwg o eiriad rheoliad 14(2) beth y mae'n rhaid i'r aelodau nad ydynt yn swyddogion ei wneud gyda'r rhybudd ysgrifenedig er mwyn cydymffurfio â'r ddarpariaeth.

Pan gaiff ei ystyried ochr yn ochr â geiriad rheoliad 14(3), gellid casglu bod yn rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o dan reoliad 14(2) i'r aelod (gan mai dyna'r hyn sy'n ofynnol er mwyn atal aelod dros dro o dan reoliad 14(3)). Fodd bynnag, ni fynegir hyn yn glir yng ngeiriad rheoliad 14(2) a chredwn y byddai'r amwysedd yn cael ei osgoi pe bai'r geiriad "i'r aelod" wedi ei gynnwys yn y lle perthnasol.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae dechrau rheoliad 14(5) yn darllen "person y mae ei benodiad wedi ei atal dros dro o dan baragraff (1)". Mae'n ymddangos bod y cyfeiriad at baragraff (1) yn anghywir, gan fod y pŵer perthnasol i atal dros dro wedi ei gynnwys ym mharagraff (3) o reoliad 14, nid paragraff (1).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliad 2 yn y fersiwn Saesneg o'r Rheoliadau hyn yn diffinio Deddf 1992, y Ddeddf a'r Gorchymyn yn gyntaf ac yna'n parhau i restru diffiniadau yn nhrefn yr wyddor. A all Llywodraeth Cymru gadarnhau pam na fabwysiadwyd yr un dull gweithredu yn y fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau hyn, lle y mae'r rhestr gyfan o ddiffiniadau yn nhrefn yr wyddor?

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

A all Llywodraeth Cymru gadarnhau pam mai dim ond yn Saesneg y mae'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi eu gosod?

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae troednodyn (5) ar dudalen 4 o'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) *2004 [pwyslais wedi'i ychwanegu],* ond mae "2004" wedi ei hepgor o'r cyfeiriad.

Derbynnir nad yw'r troednodyn yn rhan o'r gyfraith. Fodd bynnag, os mai diben ei gynnwys yw cynorthwyo darllenydd, byddai'n ddefnyddiol pe bai'r cyfeiriad cyfan yn cael ei ddefnyddio.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Rhagfyr 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1469 (Cy. 315)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch aelodaeth a gweithdrefn Iechyd a Gofal Digidol Cymru ("IGDC"). Mae IGDC yn Awdurdod Iechyd Arbennig sydd wedi ei sefydlu o dan adran 22 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 gan Orchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020.

Yn benodol, mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn darparu'r weithdrefn ar gyfer penodi swydd y cadeirydd, yr is-gadeirydd, y prif swyddog ac aelodau eraill o IGDC (rheoliadau 3, 4 a 5). Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch tymor swydd y penodiadau hynny (rheoliadau 6, 7 ac 8). Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chymhwystra aelodau a'u hanghymhwyso (rheoliadau 9 a 10) ac atal aelodau dros dro a'u diswyddo (rheoliadau 11, 12, 13 a 14).

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch gweithdrefnau IGDC, gan gynnwys pwerau is-gadeirydd yn absenoldeb y cadeirydd (rheoliad 15) a phenodi pwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau a chyd-is-bwyllgorau ac arfer swyddogaethau ganddynt (rheoliadau 16 a 17). Mae darpariaeth wedi ei gwneud hefyd mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd a thrafodion (rheoliad 18). Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i IGDC lunio a chadw cyfrifon a llunio adroddiadau a'u rhoi i Weinidogion Cymru (rheoliadau 19 ac 20).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1469 (Cy. 315)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Rhagfyr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *9 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym* | *30 Rhagfyr 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 25(1)(b), 25(2) a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraffau 3(3) a (4), 5 a 13 o Atodlen 5 iddi, ac ar ôl ymgynghori yn unol â pharagraff 4(1) o Atodlen 5 i'r Ddeddf honno.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Rhagfyr 2020.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "aelod cyswllt" ("*associate member*") yr ystyr a roddir yn erthygl 4(5) o'r Gorchymyn;

(**1**) 2006 p. 42.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae i "aelod nad yw'n swyddog" ("*non-officer member*") yr ystyr a roddir yn erthygl 4(3) o'r Gorchymyn;

mae i "aelod sy'n swyddog" ("*officer member*") yr ystyr a roddir yn erthygl 4(4) o'r Gorchymyn;

ystyr "corff gwasanaeth iechyd" ("*health service body*") yw—

(a) grŵp comisiynu clinigol a sefydlir o dan adran 14D o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**1**),

(b) yr Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yr Alban sydd wedi ei chyfansoddi o dan adran 10(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(**2**),

(c) Bwrdd Iechyd neu Fwrdd Iechyd Arbennig a gyfansoddir o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(**3**),

(d) y Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd wedi ei sefydlu o dan adran 252 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012(**4**),

(e) yr Awdurdod Ymchwil Iechyd sydd wedi ei sefydlu o dan adran 109 o Ddeddf Gofal 2014(**5**),

(f) Bwrdd Iechyd Lleol,

(g) Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol sydd wedi ei sefydlu o dan adran 1H o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006,

(h) ymddiriedolaeth sefydledig GIG a sefydlir o dan adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006,

(i) ymddiriedolaeth GIG a sefydlir o dan adran 18 o'r Ddeddf neu a sefydlir o dan adran 25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006,

---

(**1**) 2006 p. 41, mewnosodwyd adran 14D gan adran 25(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 p. 7.

(**2**) 1978 p. 29 ("Deddf 1978"), adran 10(1) a ddiwygiwyd gan adran 25(3) o Ddeddf y Gwasanaethau Iechyd 1980 p. 53 a pharagraff 2 o Atodlen 6 iddi.

(**3**) Gwnaed diwygiadau perthnasol i adran 2 o Ddeddf 1978 gan Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 p. 41, Atodlen 7, paragraff 1; Deddf Ysmygu, Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Yr Alban) 2005 dsa 13, Atodlen 2, paragraff 2(2); Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 p. 19, adran 28(a)(i) a (ii), adran 28(b), adran 28(c) ac adran 66(1) ac Atodlen 9, paragraff 19(1); Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) asp 7, Atodlen 1, paragraff 1(2)(a) a (b).

(**4**) 2012 p. 7.

(**5**) 2014 p. 23.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(j) y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal sydd wedi ei sefydlu o dan adran 232 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012,

(k) y Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol sydd wedi ei sefydlu o dan adran 7 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2009(**1**),

(l) Awdurdod Iechyd Arbennig a sefydlir o dan adran 22 o'r Ddeddf;

mae i "cydnabod", mewn perthynas ag undeb llafur, yr ystyr a roddir i "recognised" gan Ddeddf 1992;

ystyr "Deddf 1992" ("*the 1992 Act*") yw Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992(**2**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "y Gorchymyn" ("*the Order*") yw Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020(**3**);

mae i "swyddog clinigol" ("*clinical officer*") yr ystyr a roddir yn erthygl 1(3) o'r Gorchymyn;

ystyr "IGDC" ("*DHCW*") yw Iechyd a Gofal Digidol Cymru sydd wedi ei sefydlu gan y Gorchymyn;

mae i "undeb llafur" yr ystyr a roddir i "trade union" gan Ddeddf 1992.

## RHAN 2

### Penodi aelodau IGDC

**Penodi aelodau**

**3.**—(1) Penodir aelodau IGDC fel a ganlyn—

(a) penodir y cadeirydd, yr is-gadeirydd a hyd at 5 o aelodau eraill nad ydynt yn swyddogion gan Weinidogion Cymru;

(b) penodir y prif swyddog yn unol â pharagraff (3);

(c) penodir yr aelodau sy'n swyddogion yn unol â pharagraff (4);

(d) penodir yr aelodau cyswllt yn unol â pharagraff (6).

(2) Ni chaiff yr aelodau nad ydynt yn swyddogion fod yn gyflogeion IGDC.

---

(**1**) 2009 p. 1.
(**2**) 1992 p. 52.
(**3**) O.S. 2020/1451 (Cy. 313)

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Penodir y prif swyddog gan yr aelodau nad ydynt yn swyddogion, ar wahân i'r prif swyddog cyntaf a benodir gan Weinidogion Cymru.

(4) Penodir yr aelodau sy'n swyddogion fel a ganlyn:

(a) penodir y swyddog cyllid cyntaf a'r swyddog clinigol cyntaf gan yr aelodau nad ydynt yn swyddogion;

(b) penodir yr holl aelodau eraill sy'n swyddogion gan yr aelodau nad ydynt yn swyddogion a'r prif swyddog.

(5) Mae'r aelodau sy'n swyddogion i fod yn gyflogeion IGDC.

(6) Penodir yr aelodau cyswllt fel a ganlyn:

(a) caiff Gweinidogion Cymru, neu IGDC gan weithredu â chydsyniad Gweinidogion Cymru, benodi hyd at 2 aelod cyswllt, a

(b) pan fo un neu ragor o undebau llafur wedi eu cydnabod gan IGDC, caniateir penodi 1 aelod cyswllt yn unol â rheoliad 4.

**Penodi aelod cyswllt yr undebau llafur**

**4.**—(1) Pan fo un neu ragor o undebau llafur wedi eu cydnabod gan IGCD, rhaid i'r aelodau nad ydynt yn swyddogion wahodd pob un o'r undebau llafur a gydnabyddir gan IGCD i enwebu ymgeisydd cymwys i'w benodi'n aelod cyswllt.

(2) Rhaid i'r gwahoddiad bennu'r cyfnod y mae enwebiad i'w wneud ynddo a'r modd y mae enwebiad i'w wneud.

(3) Rhaid i'r aelodau nad ydynt yn swyddogion benodi person o blith yr ymgeiswyr cymwys, os enwebir rhai, yn aelod cyswllt.

(4) Nid yw person yn ymgeisydd cymwys i'w enwebu o dan baragraff (1) ond os yw'r person—

(a) yn aelod o staff IGDC,

(b) yn aelod o undeb llafur a gydnabyddir gan IGDC, ac

(c) wedi ei enwebu o fewn y cyfnod a bennir o dan baragraff (2).

**Aelodau nad ydynt yn swyddogion**

**5.** Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y trefniadau ar gyfer penodi personau yn aelodau nad ydynt yn swyddogion yn ystyried y cod a gyhoeddir gan y Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet sy'n nodi—

(a) yr egwyddorion ar gyfer penodiadau cyhoeddus, a

(b) y canllawiau ar yr arferion i'w dilyn mewn perthynas â gwneud penodiadau cyhoeddus.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 3

## Telerau swydd

**Aelodau nad ydynt yn swyddogion**

**6.**—(1) Mae aelod nad yw'n swyddog yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir gan Weinidogion Cymru yn nhelerau'r penodiad, ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (3), (4) a Rhan 4.

(2) Ni chaiff cyfnod y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod nad yw'n swyddog fod yn hwy na 4 blynedd.

(3) Caiff person sydd wedi dal swydd fel aelod nad yw'n swyddog fod yn gymwys i gael ei ailbenodi'n aelod nad yw'n swyddog ond ni chaiff person fod yn aelod nad yw'n swyddog am gyfnod cyfan sy'n hwy nag 8 mlynedd.

(4) Caiff aelod nad yw'n swyddog ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

**Aelodau sy'n swyddogion**

**7.** Mae aelod sy'n swyddog yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir yn nhelerau'r penodiad.

**Aelodau cyswllt**

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i Ran 4, mae aelod cyswllt a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(a) yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir yn nhelerau'r penodiad.

(2) Pan fo aelod cyswllt wedi ei benodi gan IGDC yn unol â rheoliad 3(6)(a), rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo telerau ac amodau'r penodiad.

(3) Caniateir i berson sydd wedi dal swydd fel aelod cyswllt a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(a) gael ei ailbenodi'n aelod cyswllt yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn nhelerau ei benodiad.

(4) Mae aelod cyswllt a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(b) yn dal swydd am unrhyw gyfnod, ac ar unrhyw delerau ac amodau, a bennir yn nhelerau'r penodiad, ond mae hyn yn ddarostyngedig i baragraff (5).

(5) Ni chaiff cyfnod y swydd a bennir yn nhelerau penodiad aelod cyswllt a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(b) fod yn hwy na 4 blynedd.

(6) Caiff person sydd wedi dal swydd fel aelod cyswllt a benodir yn unol â rheoliad 3(6)(b) fod yn gymwys i gael ei ailbenodi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 4

## Cymhwystra, anghymhwyso, atal dros dro a diswyddo

**Aelodau nad ydynt yn swyddogion – cymhwystra**

**9.**—(1) Nid yw berson yn gymwys i fod yn aelod nad yw'n swyddog os yw'r person hwnnw yn cael, neu wedi cael, yn y 12 mis cyn ei benodi, ei gyflogi am dâl gan—

(a) Bwrdd Iechyd Lleol,

(b) ymddiriedolaeth GIG a sefydlir o dan adran 18 o'r Ddeddf, neu

(c) Awdurdod Iechyd Arbennig o ran Cymru a sefydlir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o'r Ddeddf.

(2) At ddibenion paragraff (1), nid yw person i'w drin fel pe bai wedi ei gyflogi am dâl a hynny am ei fod wedi dal swydd cadeirydd, is-gadeirydd neu aelod nad yw'n swyddog o Fwrdd Iechyd Lleol; cadeirydd, is-gadeirydd neu gyfarwyddwr anweithredol o ymddiriedolaeth GIG; neu swydd cadeirydd, is-gadeirydd neu aelod nad yw'n swyddog o Awdurdod Iechyd Arbennig.

(3) Mae person yn peidio â bod yn gymwys i fod yn aelod nad yw'n swyddog os yw'r person hwnnw, yn dilyn ei benodi'n aelod nad yw'n swyddog, yn ymgymryd â chyflogaeth am dâl gydag unrhyw un neu ragor o'r cyrff a restrir ym mharagraff (1) ac eithrio o dan yr amgylchiadau a bennir ym mharagraff 9(2).

**Aelodau nad ydynt yn swyddogion ac aelodau cyswllt a benodir gan Weinidogion Cymru neu gan IGDC gan weithredu â chydsyniad Gweinidogion Cymru - anghymhwyso**

**10.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw berson a benodir—

(a) yn aelod nad yw'n swyddog;

(b) yn aelod cyswllt gan Weinidogion Cymru neu gan IGDC yn unol â rheoliad 3(6)(a).

(2) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag cael ei benodi'n aelod, neu rhag parhau i ddal swydd fel aelod, pan fo'r person hwnnw yn dod o fewn un neu ragor o baragraffau o'r Atodlen.

(3) Os yw person wedi cael ei benodi'n aelod ac yn dod yn anghymwys o dan y rheoliad hwn, rhaid i'r person hysbysu IGDC a Gweinidogion Cymru yn ysgrifenedig am yr anghymhwysiad.

**Aelodau nad ydynt yn swyddogion ac aelodau cyswllt a benodir gan Weinidogion Cymru neu gan**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**IGDC gan weithredu â chydsyniad Gweinidogion Cymru – diswyddo**

**11.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw berson a benodir—

(a) yn aelod nad yw'n swyddog;

(b) yn aelod cyswllt gan Weinidogion Cymru neu gan IGDC yn unol â rheoliad 3(6)(a).

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, neu IGDC os yw wedi gwneud y penodiad, drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod, ddiswyddo'r person hwnnw os ydynt wedi eu bodloni, neu os yw wedi ei fodloni—

(a) nad yw er budd IGDC neu'r gwasanaeth iechyd i'r person hwnnw barhau i ddal swydd,

(b) nad yw'r person yn addas i fod yn aelod o IGDC neu ei fod yn anfodlon arfer swyddogaethau aelod o IGDC neu nad yw'n gallu gwneud hynny,

(c) bod y person yn peidio â bod yn gymwys i fod yn aelod nad yw'n swyddog o dan reoliad 9(3), neu

(d) bod y person wedi ei anghymhwyso o dan reoliad 10 rhag dal swydd neu ei fod wedi ei anghymhwyso adeg ei benodi.

**Aelodau nad ydynt yn swyddogion ac aelodau cyswllt a benodir gan Weinidogion Cymru neu gan IGDC gan weithredu â chydsyniad Gweinidogion Cymru – atal dros dro**

**12.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru, neu IGDC os yw wedi gwneud y penodiad, atal person dros dro tra bo'n ystyried pa un ai i ddiswyddo'r person hwnnw o dan reoliad 11.

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru, neu IGDC os yw wedi gwneud y penodiad, roi hysbysiad o'r penderfyniad i atal person dros dro yn unol â thelerau'r penodiad.

(3) Ni chaiff person y mae ei benodiad wedi ei atal dros dro o dan baragraff (1) gyflawni swyddogaethau unrhyw aelod yn ystod y cyfnod atal dros dro.

**Aelod sy'n swyddog – diswyddo ac atal dros dro**

**13.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i unrhyw berson a benodir yn aelod sy'n swyddog.

(2) Caiff yr aelodau nad ydynt yn swyddogion ddiswyddo'r person hwnnw, drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod, os ydynt wedi eu bodloni nad yw er budd IGDC neu'r gwasanaeth iechyd i'r person hwnnw barhau i ddal swydd.

(3) Caiff yr aelodau nad ydynt yn swyddogion atal y person hwnnw dros dro, drwy hysbysiad ysgrifenedig

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

i'r aelod, os yw'n ymddangos iddynt y gall fod sail dros arfer y pŵer ym mharagraff (2).

(4) Ni chaiff person y mae ei benodiad wedi ei atal dros dro o dan baragraff (3) gyflawni swyddogaethau unrhyw aelod yn ystod y cyfnod atal dros dro.

**Aelod cyswllt yr undebau llafur – diswyddo ac atal dros dro**

**14.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i aelod cyswllt a benodir gan yr aelodau nad ydynt yn swyddogion yn unol â rheoliad 3(6)(b).

(2) Caiff yr aelodau nad ydynt yn swyddogion ddiswyddo'r person hwnnw, drwy hysbysiad ysgrifenedig, os ydynt wedi eu bodloni nad yw'r person yn addas i fod yn aelod o IGDC neu nad yw'n fodlon arfer swyddogaethau aelod o IGDC neu nad yw'n gallu gwneud hynny.

(3) Caiff yr aelodau nad ydynt yn swyddogion atal person dros dro, drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r person hwnnw, os yw'n ymddangos i'r aelodau nad ydynt yn swyddogion y gall fod sail dros arfer y pŵer ym mharagraff (2).

(4) Mae aelod cyswllt yn peidio â dal swydd os yw'r aelod yn peidio â bod yn ymgeisydd cymwys i'w benodi'n aelod cyswllt o dan reoliad 4(4).

(5) Ni chaiff person y mae ei benodiad wedi ei atal dros dro o dan baragraff (1) gyflawni swyddogaethau unrhyw aelod yn ystod y cyfnod atal dros dro.

## RHAN 5

## Y weithdrefn

**Pwerau'r is-gadeirydd yn absenoldeb y cadeirydd**

**15.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) os yw'r cadeirydd wedi ei atal dros dro o dan reoliad 12,

(b) os yw swydd y cadeirydd yn wag dros dro am unrhyw reswm, neu

(c) os nad yw'r cadeirydd yn gallu cyflawni dyletswyddau'r cadeirydd, neu os nad yw'n fodlon gwneud hynny, oherwydd salwch, absenoldeb neu unrhyw reswm arall.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, mae'r is-gadeirydd i weithredu fel cadeirydd hyd nes y caiff cadeirydd newydd ei benodi neu hyd nes bod y cadeirydd presennol yn ailafael yn nyletswyddau'r cadeirydd.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Penodi pwyllgorau ac is-bwyllgorau**

**16.**—(1) Yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru, caiff IGDC—

(a) sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau;

(b) ar y cyd ag un neu ragor o Awdurdodau Iechyd Arbennig, sefydlu cyd-bwyllgorau neu gyd-is-bwyllgorau;

sy'n cynnwys yn llawn neu'n rhannol bersonau nad ydynt yn aelodau o IGDC.

(2) Rhaid i IGDC sefydlu unrhyw bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau a chyd-is-bwyllgorau o'r fath y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) os ydynt yn cael eu cyfarwyddo i wneud hynny gan Weinidogion Cymru.

**Trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau**

**17.**—(1) Yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru, caiff IGDC wneud trefniadau ar gyfer arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau gan bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor a benodir o dan reoliad 16, neu gan swyddog IGDC, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a'r amodau hynny y mae IGDC yn meddwl eu bod yn addas.

(2) Nid yw trefniant o dan baragraff (1) yn effeithio ar gyfrifoldeb IGDC i arfer swyddogaeth ddirprwyedig neu ei allu i wneud hynny.

**Cyfarfodydd a thrafodion**

**18.**—(1) Yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru, rhaid i IGDC wneud rheolau sefydlog ar gyfer rheoli ei drafodion a'i fusnes.

(2) Pan fo pwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu is-gyd-bwyllgor wedi ei sefydlu yn unol â rheoliad 16, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru, rhaid i IGDC gymeradwyo unrhyw reolau sefydlog a wneir gan y pwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu is-gyd-bwyllgor hwnnw.

## RHAN 6

### Cyfrifon ac Adroddiadau

**Adroddiadau**

**19.**—(1) Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i IGDC—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) llunio adroddiad blynyddol ynghylch sut y mae wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn honno, a

(b) anfon copi o'r adroddiad hwnnw at Weinidogion Cymru cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol honno.

(2) Rhaid i IGDC—

(a) cyflwyno unrhyw adroddiadau eraill i Weinidogion Cymru yn y modd ac ar yr adeg a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru, a

(b) darparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn gofyn amdani o bryd i'w gilydd.

**Cyfrifon**

**20.** Ar gyfer pob blwyddyn ariannol, rhaid i IGDC—

(a) llunio cyfrifon a chadw cofnodion mewn perthynas â'r cyfrifon hynny, a

(b) llunio datganiad o gyfrifon;

yn unol ag unrhyw gyfarwyddydau a roddir gan Weinidogion Cymru.

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
7 Rhagfyr 2020

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN

Rheoliad 10

## ANGHYMHWYSO

**Euogfarnau troseddol**

**1.**—(1) Mae'r person wedi ei euogfarnu o fewn y cyfnod o 5 mlynedd yn union cyn dyddiad y penodiad arfaethedig, neu ar unrhyw adeg yn ystod ei gyfnod swydd yn cael ei euogfarnu—

(a) yn y Deyrnas Unedig o unrhyw drosedd, neu

(b) y tu allan i'r Deyrnas Unedig o drosedd a fyddai, pe bai wedi ei chyflawni yn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig, yn drosedd yn y rhan honno;

ac, yn y naill achos neu'r llall, canlyniad terfynol yr achos oedd dedfryd o garchar (pa un a yw'n ddedfryd ohiriedig ai peidio) am gyfnod o ddim llai na 3 mis heb yr opsiwn o dalu dirwy.

(2) At ddibenion y paragraff hwn, bernir mai'r dyddiad euogfarnu yw'r dyddiad y mae'r cyfnod a ganiateir yn gyffredinol ar gyfer gwneud apêl neu gais mewn cysylltiad â'r euogfarn yn dod i ben neu, os gwneir apêl neu gais o'r fath, y dyddiad y penderfynir yn derfynol ar yr apêl neu'r cais, neu'r dyddiad y rhoddir y gorau i'r apêl neu'r cais, neu'r dyddiad y mae'r apêl yn methu am na chafodd ei dwyn yn ei blaen neu'r dyddiad y mae'r cais yn methu am na chafodd ei ddwyn yn ei flaen.

**Methdaliad**

**2.**—(1) Mae'r person yn ddarostyngedig i orchymyn cyfyngu methdaliad neu orchymyn cyfyngu methdaliad interim neu wedi gwneud compównd neu drefniant â'i gredydwyr.

(2) Pan fo person wedi ei anghymhwyso o dan is-baragraff (1)—

(a) os diddymir y methdaliad ar y sail na ddylai'r person fod wedi cael ei ddyfarnu'n fethdalwr neu ar y sail bod dyledion y person wedi cael eu talu'n llawn, mae'r person hwnnw yn dod yn gymwys i gael ei benodi'n aelod ar ddyddiad y diddymiad,

(b) os caiff y person ei ryddhau o fethdaliad, mae'r person hwnnw yn dod yn gymwys i gael ei benodi'n aelod ar ddyddiad y rhyddhau,

(c) os telir dyledion y person yn llawn, ac yntau wedi gwneud compównd neu drefniant â'i gredydwyr, mae'r person hwnnw yn dod yn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

gymwys i gael ei benodi'n aelod ar y dyddiad y telir y dyledion hynny yn llawn, a

(d) os yw cyfnod o 5 mlynedd, ar ôl gwneud compównd neu drefniant â'i gredydwyr, wedi dod i ben o'r dyddiad y cyflawnwyd telerau'r compównd neu'r trefniant, mae'r person hwnnw yn dod yn gymwys i gael ei benodi'n aelod.

**Diswyddo o gorff gwasanaeth iechyd**

**3.**—(1) Mae'r person wedi ei ddiswyddo fel aelod, ac eithrio am fod y swydd wedi ei dileu, neu gontract tymor penodol heb ei adnewyddu, o gyflogaeth am dâl gyda chorff gwasanaeth iechyd.

(2) Caiff person sydd wedi ei anghymhwyso o dan is-baragraff (1), ar ôl i gyfnod o 2 flynedd ddod i ben o ddyddiad y diswyddiad, wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru i ddileu'r anghymhwysiad hwnnw.

(3) Pan fo Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i ddileu anghymhwysiad o dan is-baragraff (2), nid yw'r person wedi ei anghymwyso mwyach at ddiben yr Atodlen hon.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod cais person o dan is-baragraff (2), ni chaiff y person hwnnw wneud cais pellach cyn i'r cyfnod o 2 flynedd ddod i ben gan ddechrau â dyddiad cais diwethaf y person.

(5) At ddiben y paragraff hwn, nid yw person i'w drin fel pe bai wedi ei gyflogi am dâl a hynny dim ond oherwydd ei fod—

(a) yn achos corff gwasanaeth iechyd nad yw'n ymddiriedolaeth GIG neu'n ymddiriedolaeth sefydledig GIG (ac eithrio grŵp comisiynu clinigol), yn gadeirydd, yn is-gadeirydd neu'n aelod nad yw'n swyddog o'r corff,

(b) yn achos ymddiriedolaeth GIG, yn gadeirydd, yn is-gadeirydd neu'n gyfarwyddwr anweithredol i'r ymddiriedolaeth,

(c) yn achos ymddiriedolaeth sefydledig GIG, yn gadeirydd, yn llywodraethwr neu'n gyfarwyddwr anweithredol i'r ymddiriedolaeth, neu

(d) yn achos grŵp comisiynu clinigol, yn gadeirydd neu'n aelod o'r corff llywodraethu.

(6) Yn is-baragraff (5)(a), ystyr "aelod nad yw'n swyddog" yw aelod o gorff gwasanaeth iechyd nad yw'n cael ei gyflogi gan y corff.

**Terfynu aelodaeth o gorff gwasanaeth iechyd**

**4.**—(1) Mae—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) aelodaeth y person fel cadeirydd, is-gadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr corff gwasanaeth iechyd wedi ei therfynu, ac eithrio am fod y swydd wedi ei dileu, oherwydd ymddiswyddiad gwirfoddol neu ad-drefnu'r corff gwasanaeth iechyd, neu am fod cyfnod y swydd y penodwyd y person amdano wedi dod i ben, neu

(b) y person wedi ei ddiswyddo fel cadeirydd neu aelod o gorff llywodraethu grŵp comisiynu clinigol.

(2) Os yw person wedi ei anghymhwyso o dan is-baragraff (1), bydd yr anghymhwysiad yn peidio â chael effaith pan ddaw 2 flynedd i ben gan ddechrau ar y dyddiad y terfynir tymor y penodiad neu unrhyw gyfnod hwy a bennwyd gan y corff a derfynodd aelodaeth y person.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, pan wneir cais iddynt gan y person a anghymhwyswyd, leihau cyfnod yr anghymhwysiad a grybwyllir yn is-baragraff (2).

(4) Pan fo cyfnod yr anghymhwysiad o dan is-baragraff (2) yn dod i ben, nid yw'r person wedi ei anghymhwyso mwyach at ddiben yr Atodlen hon.

**Explanatory Memorandum** to

**The Digital Health and Care Wales (Establishment and Membership) Order 2020**

And

**The Digital Health and Care Wales (Membership and Procedure) Regulations 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Department for Health and Social Services and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

## Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the **Digital Health and Care Wales (Establishment and Membership) Order 2020** and **The Digital Health and Care Wales (Membership and Procedure) Regulations 2020**.

I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

**Vaughan Gething**

Minister for Health and Social Services

9 December 2020

## 1. Description

1.1 The Legislation summarised below will establish a new Special Health Authority called Digital health and Care Wales.

### a. The Digital Health and Care Wales (Establishment and Membership) Order 2020 (‘the Order’)

1.2 The order provides for the establishment of Digital Health and Care Wales (‘DHCW’) and makes provision about its constitution and overarching functions.

### b. The Digital Health and Care Wales (Membership and Procedure) Regulations 2020

1.3 The Regulations supplement the Order and make detailed provision about the membership and procedures of DHCW. They provide for the appointment, eligibility and disqualification of members and DHCW’s meetings, proceedings and committees.

## 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

2.1 The two statutory instruments being brought forward to establish DHCW are being made together, are inextricably linked, and would be difficult to understand if read in isolation. It is therefore considered beneficial to bring forward a single composite Explanatory Memorandum and Regulatory Impact Assessment.

## 3. Legislative background

3.1 The Welsh Ministers have powers in section 22 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (‘the 2006 Act’) to establish a Special Health Authority for the purpose of exercising any functions which may be conferred on them by or under the 2006 Act. The power is exercisable by order. Under section 24 of the 2006 Act the Welsh Ministers may direct a Special Health Authority to exercise functions of the Welsh Ministers relating to the health service. The Welsh Ministers may also, under section 23, give directions to a Special Health Authority about its exercise of any functions, save in respect the matters which are specifically reserved in section 23(2)[1].

3.2 Under powers conferred by Schedule 5 to the 2006 Act, the Welsh Ministers have the power to make regulations in respect of the members and officers of a Special Health Authority. They may also make provision in relation to matters such as the appointment and tenure of members,

[1] Section 23(2) provides that the Welsh Ministers may not give directions in respect of matters concerning xenotransplantation, surrogacy agreements, embryology or human genetics, which are not relevant here.

the appointment of committees, the procedures of the Authority and other matters.

## 4. Purpose & intended effect of the legislation

Background

4.1 The NHS Wales Informatics Service ('NWIS') is the organisation leading on the delivery of national digital health and care services for NHS Wales. Established on 1 April 2010 (as part of the NHS Wales Healthcare Reform Programme) it brought together:

- Informing Healthcare (IHC),
- Health Solutions Wales (HSW),
- Business Services Centre (Information Management and Technology element only),
- Corporate Health Information Programme (CHIP), and the
- Primary Care Informatics Programme (PCIP).

4.2 NWIS is a non-statutory organisation, hosted under the statutory framework of Velindre NHS Trust. It has its own Directors and Corporate Structure, with staff located across Wales.

Purpose

4.3 In 2019, Welsh Government commissioned two major reviews of digital delivery in Wales looking at how digital systems are designed to work together ('the Digital Architecture Review') and at delivery structures and decision-making arrangements ('the Digital Governance Review'). These two reviews provide the context to our approach and delivery.

4.4 Given the sensitivity of the recommendations raised by the 'Digital Governance Review', officials developed options based on the general engagement undertaken by both reviews, including the stakeholder task and finish groups, on consideration of existing governance and hosting models across NHS Wales (which provide several examples of different approaches), and discussions with the Minister.

4.5 In a written statement on 30 September 2019, the Minister for Health and Social Services announced:

> *"The NHS Wales Informatics Service (NWIS) will transition from its current structure, as part of Velindre Trust, to a new Special Health Authority. Establishing our national digital services organisation as a dedicated organisation reflects the importance of digital technology as a key enabler of change, as set out in A Healthier Wales. This change will strengthen governance and accountability, both in terms of relationships with other NHS Wales organisations and through stronger leadership and oversight, through an*

*independent chair and board members, with experience and understanding of digital change.”*

4.6 Bringing into force the legislation listed above is the first step towards achieving the commitment made by the Minister. The legislation will establish DHCW, make provision as to its membership to enable it to undertake the work necessary in advance of the body becoming operational later in 2021.

Intended effect of the legislation

*The Digital Health and Care Wales (Establishment and Membership) Order 2020*

4.7 The Order makes provision for the establishment of DHCW and provides for the membership of the new body. It also confirms that DHCW is to exercise functions as directed by the Welsh Ministers in connection with the matters set out within the Order, including in relation to the design, development and delivery of digital platforms, services and systems for the Health and Care Sector in Wales. The Welsh Ministers also have the power to direct DHCW as to the exercise of any functions.

4.8 DHCW will be a new organisation within NHS Wales, sitting alongside the current seven Health Boards, three NHS Trusts and a single Special Health Authority (Health Education Improvement Wales – HEIW); with the overarching responsibility for providing a source for Digital platforms, services and systems for the Health and Care Sector in Wales.

*The Digital Health and Care Wales (Membership and Procedure) Regulations 2020*

4.9 The Board will comprise of a minimum of six members and may be comprised of up to fifteen members in total, split between independent, officer members and ex-officio (associate) members. The number of officer members may not exceed the number of non-officer members. There will be at least three officer members, which will include within that number a Chief Officer.

4.10 The Membership Regulations will set out procedural matters and detail in relation to the various members, including their appointment, eligibility, tenure, disqualification, suspension and removal from office. In addition, the Regulations require DHCW to make standing orders regarding its meetings and proceedings. They also set out requirements in relation to the appointment of and exercise of functions by committees and provide powers to the vice-chair in the event of the Chair being unavailable, so that DHCW may continue to operate effectively. Lastly, the Regulations also set out duties in relation to reporting.

4.11 In relation to the Chief Officer, the Welsh Ministers will make the first appointment, with subsequent appointments being made by the independent (non-officer) members. Specific provision is also made in the Regulations as to how the other members are to be appointed.

4.12 The Order and Membership Regulations provide the legal framework for the establishment of Digital Health and Care Wales.

**5. Consultation and Regulatory Impact Assessment (RIA)**

5.1 Between 7 September 2020 and 30 November 2020, Welsh Government sought views from stakeholders on the proposed functions of a new Special Health Authority called Digital Health and Care Wales (DHCW).

5.2 The consultation described why Welsh Government are proposing the change; the proposed functions currently being undertaken by NHS Wales Informatics Service (NWIS) that will be taken forward by DHCW; and how these functions can facilitate the evolution of digital maturity across the health and care sector in Wales.

5.3 The consultation requested views on the following areas and stakeholders were asked to submit their comments via an online form, email or post.

- The proposed functions of DHCW.
- The proposed board structure for DHCW.
- Whether one or more of the proposed functions of DHCW overlaps with a function already being undertaken by a different organisation in Wales (that is not NWIS).
- Additional functions that should be included within the responsibility of DHCW.
- Any impacts the proposed functions may have on the Welsh language.

**6. General overview of the consultation responses.**

6.1 There were a total of seventy seven responses to the consultation. Some of the written responses reflected the consolidated views of organisations within NHS Wales.

6.2 In general, responses tended to elicit comments from respondents which were broadly supportive of the proposals. The open nature of the consultation form meant many provided additional information, added caveats or raised issues for further consideration. These were varied and, in many cases, were specific to the respondent and/or the organisation that they represented.

6.3 Some cross-cutting issues included the need to integrate any changes in the context of the current policy landscape and with regard to existing

structures, as well as to learn from and use the experience of existing bodies and programmes and the need to share best practice.

6.4 The consultation focussed on the proposed functions of DHCW, however, some respondents highlighted operational concerns for the new organisation which do not directly correlate to the functions Welsh Government propose to confer on DHCW. Where this is the case these concerns will be highlighted for consideration by the DHCW board once appointed.

**PART 2 – REGULATORY IMPACT ASSESSMENT**

## 7. Options

7.1 The Welsh Government considered a number of options in response to the recommendations made in the 'the Digital Architecture Review' and 'the Digital Governance Review'. These options were:

1. Do Nothing
2. No change of structure, but add a 'joint committee' governance wrapper around NWIS in Velindre
3. Move NWIS to another organisation such as Public Health Wales, HEIW or the NHS Executive
4. Transition NWIS to a new standalone Special Health Authority

7.2 An assessment was made of the extent to which each of these options delivers the recommendations made in the two commissioned reports.

### Option 1 – Do Nothing

7.3 This option would not address any of the recommendations from the Wales Audit Office (WAO) and Public Accounts Committee (PAC) reports or the Governance Review. Pursuing this option would further undermine confidence and engagement across NHS Wales and could have a detrimental impact on the reputation of Welsh Ministers and the ability to deliver/develop national digital systems and services.

7.4 This option was therefore rejected but is retained in the RIA to act as the baseline against which to assess the costs and benefits of the alternative options.

### Option 2 – No change of structure, but add a 'joint committee' governance wrapper around NWIS in Velindre

7.5 While this option would address some of the recommendations from the WAO and PAC reports around governance and accountability and would move towards a 'shared services' model as described in the governance review, it was felt this option would maintain the currently ambiguous hosting arrangements, lack financial accountability and would be seen as a largely 'cosmetic' change. For these reasons, this option was rejected.

### Option 3 – Move NWIS to another organisation such as Public Health Wales, HEIW or the NHS Executive

7.6 This option would go further than options 1 and 2 in addressing the recommendations by the WAO and PAC, showing 'significant' change. However, this approach stops short of addressing the key governance changes required. There would however be some disruption in transitioning from Velindre to a different organisation with different processes and requirements, even within the wider NHS Wales system.

Given the scale of NWIS there could also be an impact on the receiving organisation which could distract senior leadership from their existing priorities and focus. As a result, this option was rejected.

**Option 4: Transition NWIS to a new standalone Special Health Authority**

7.7 This option was felt to address the WAO and PAC recommendations to their fullest extent, and to maximise the direct and transparent accountability of NWIS as a national digital service. As such, this option was identified as the preferred option.

7.8 In September 2019, the Minister for Health and Social Services announced his intention to transition the NHS Wales Information Service (NWIS) into a Special Health Authority.

7.9 In light of the above, the following options have been taken forward for further consideration in the RIA:

- Option 1 – Do Nothing
- Option 4 - Transition NWIS to a new standalone Special Health Authority

## 8. Costs

**Option 1 – Do Nothing**

**Costs**

8.1 This is the baseline option and as such, there are no additional costs associated with this option.

**Benefits**

8.2 Given that current systems would continue, there would be no benefits to this option in terms of value for money against the investment made into this area of the system. However, there would be a benefit in that no additional establishment or transitional costs would be required. There would be no policy benefit in relation to digital services across the NHS in Wales. There could however, be an unquantifiable potential benefit for the staff involved, in that they would continue within their current roles, organisations and locations.

**Option 4 - Transition NWIS to a new standalone Special Health Authority**

**Costs**

8.3 This option is likely to require more resources than options 1, 2 and 3, although the task is relatively straightforward (compared for example to establishing HEIW) because NWIS is an established organisation with existing people, premises, processes and policies.

8.4 There would also be costs associated with transitioning NWIS into a 'clean' SHA and establishing a new Board. The costs for Board membership may decrease if less time is required per month.

8.5 The costs to "Transition NWIS to a new standalone Special Health Authority" will mainly be incurred in the 2020-21 financial year. However, some costs may flow into 2021-22 to support programme closure activity.

| **Resource** | **Description** | **Cost** |
|---|---|---|
| Programme Team | Costs for Programme Team<br><br>*Staff costs incurred by Welsh Government to deliver the programme.* | £160,000 |
| Legal | Costs for Legal Advice and Legislative Drafting<br><br>*Legal costs incurred by Welsh Government to provide legal advice and drafting of legislation.* | £20,000 |
| Communications and Engagement | Costs for Communications and Engagement Activities<br><br>*Wider communication and engagement activities to support the programme.* | £10,000 |
| People | Non-Officer Member costs.<br><br>*Remuneration and associated costs for a Chair, Vice Chair and Five independent members.* | £126,500 |
| Other Costs | Other Ad hoc programme costs (such as Gateway Reviews etc.). | £20,000 |
| Transition Costs | See **Appendix B** for details | £717,800 |
| | **Total** | **£1,054,300** |

**Benefits**

8.6 There are some short-term benefits linked to the governance and transparency of establishing the new SHA, which are set out below:

a. An independent organisation allows a dedicated chair and board exclusively focussed on digital delivery, and would help to emphasise the importance of digital services alongside other key enablers such as education.

b. By establishing a Special Health Authority, it will help improve the transparency, reporting and accountability of digital services within NHS Wales through a formalised governance framework.

c. This would move the national digital service in Wales to a similar status as other parts of the UK (for example England's NHS Digital is constituted as an arms-length public body), and would be seen as a 'significant' change.

8.7 The full benefits of the Programme will be realised in the long term and will continue over a sustained period. Benefits that relate to the functions of the new organisation will be captured Regulatory Impact Assessment that accompanies the associated legislation leading up to 1 April 2021.

8.8 Longer term benefits the new organisation will provide across the system in Wales will be identified and addressed by the Board of the new organisation as part of their business and IMTP plans.

## 9. Summary

9.1 Option 4 provides opportunities for a clean break, which allows addressing the recommendations of the Wales Audit Office and Public Accounts Committee to the fullest, without negatively affecting the digital services provided to professionals and patients.

9.2 Aligning the Special Health Authority to a new formalised governance framework will not just improve transparency, reporting and accountability of digital services within NWIS Wales but will also provide much needed confidence across the system that the changes undertaken are substantial in nature and not just cosmetic.

## 10. Consultation

Wales Audit Office Review - Informatics Systems in NHS Wales – 10 January 2018

10.1 Work to develop policy in this area started in 2018 when the Wales Audit Officer (now Audit Wales) commissioned a review into Informatics Systems in NHS Wales. Whilst compiling their report, the WAO interviewed a range of people including Welsh Government officials, NWIS Staff and a range of officers from Health Boards and Trusts.

The Parliamentary Review of Health and Social Care in Wales – January 2018

10.2 The Parliamentary Review of Health and Social Care in Wales was undertaken in January 2018. In formulating their views, the Parliamentary Review heard from a wide range of people including members of the public, service users, staff in health and social care, and the third sector, and considered evidence about national and international models of care.

Public Accounts Committee Report – November 2018

10.3 Based on the recommendations set out in the Wales Audit Officer and Parliamentary Review, the Public Accounts Committee agreed to undertake an inquiry into informatics systems in NHS Wales, covering a wide range of issues. The Committee received extensive written and oral evidence as part of their inquiry. There have been a number of Public Accounts Committee Evidence Sessions to date and the transcripts of all oral evidence sessions and written evidence received are openly available[2].

The NHS Wales Digital Architecture Review

10.4 Welsh Government and NHS Wales engaged Channel 3 Consulting to undertake a review of the NHS Wales Digital Architecture, recognising the ambition for digital transformation across Wales at pace.

10.5 The focus of this review was to assess the extent to which the current Digital Architecture of NHS Wales is ready to meet the ambition set out in "A Healthier Wales", and whether it is scalable to support digital transformation across Welsh health and social care.

10.6 The review involved technical reviews with NWIS and workshops and interviews with over one hundred key stakeholders from NWIS, all Health Boards, and the universities, augmented by three "deep dives" at Aneurin Bevan and Cwm Taf Heath Boards, and Public Health Wales Trust.

The NHS Wales Digital Governance Review

10.7 The review had a whole system scope, covering local and national services, all NHS services, and the Welsh Community Care Information System (WCCIS) and undertaken by independent consultants, who engaged very widely with all stakeholders across Wales, including NHS Wales Informatics Service (NWIS) and Velindre NHS Trust.

10.8 The Review engaged widely with stakeholders on an open and collaborative basis. The findings and recommendations from the Review have been widely shared with NHS Wales Stakeholders through an engagement programme.

10.9 The Digital Governance Review found that there was widespread support for change across NHS Wales.

The Ministerial Written Statement – 30 September 2019

[2] http://senedd.assembly.wales/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=20803

10.10 In his written statement, the Minister for Health and Social Services set out actions in response to the two reviews, which has been widely reported announcing that:

> *"The NHS Wales Informatics Service (NWIS) will transition from its current structure, as part of Velindre Trust, to a new Special Health Authority. Establishing our national digital services organisation as a dedicated organisation reflects the importance of digital technology as a key enabler of change, as set out in A Healthier Wales. This change will strengthen governance and accountability, both in terms of relationships with other NHS Wales organisations and through stronger leadership and oversight, through an independent chair and board members, with experience and understanding of digital change."*

10.11 The Minister for Health and Social Services also agreed there should be a new set of arrangements for Wales in regards to delivering informatics and Digital transformation. This will help underpin key commitments published by Welsh Government such as *A Healthier Wales* and Informed *Health and Care Strategy. Officials* therefore consider there is a mandate for this change

External Consultation

10.12 Welsh Government published a consultation on the functions of the Digital Special Health Authority for Wales on 7 September 2020 and ran for twelve weeks, closing on 30 November 2020.

10.13 The high level functions subject to consultation were as follows:

- Application Development and Support
- Digital Services design, commissioning, planning & delivery
- Information and Communications Technology
- Quality Management & Regulatory Compliance
- Information Management
- Information Governance
- Cyber Security
- Finance and Business Assurance
- Reporting Services
- Workforce Improvement

10.14 Overall, the consultation responses welcomed the establishment of DHCW and were very supportive of the proposals.

## 11. Competition Assessment

11.1 The competition assessment has been completed and is included at Appendix A.

## 12. Post implementation review

12.1 The RIA sets out the anticipated potential costs of this legislation, in addition to the benefits and opportunities and realising these benefits is how success will be measured.

12.2 It is anticipated that a review will take place within five years of the full implementation of this legislation; with a further review at the ten year point, whereby the longer term benefits will have had the opportunity to be realised.

12.3 The key factors in measuring whether those benefits have been realised are as follows:

- A reduction in vacancies across the digital workforce across NHS Wales.
- A reduction in skills gaps across digital professions.
- Improved satisfaction ratings from patients and health care professionals through the national survey.
- Improved staff survey results in relation to digital platforms, systems and services.
- Improved value for investment, measured by an increase in outputs and/or service provision for similar investment against that made under the current system.
- A reduction in consultancy and contractor spend on digital activity across the NHS in Wales.

## APPENDIX A –The Competition Assessment

| The competition filter test | |
|---|---|
| **Question** | **Answer yes or no** |
| **Q1**: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 10% market share? | No |
| **Q2**: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 20% market share? | No |
| **Q3**: In the market(s) affected by the new regulation, do the largest three firms together have at least 50% market share? | No |
| **Q4**: Would the costs of the regulation affect some firms substantially more than others? | No |
| **Q5**: Is the regulation likely to affect the market structure, changing the number or size of businesses/organisation? | No |
| **Q6**: Would the regulation lead to higher set-up costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet? | No |
| **Q7**: Would the regulation lead to higher ongoing costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet? | No |
| **Q8**: Is the sector characterised by rapid technological change? | No |
| **Q9**: Would the regulation restrict the ability of suppliers to choose the price, quality, range or location of their products? | No |

**APPENDIX B – Detailed Transitional Costs**

| Transition Costs | | |
|---|---|---|
| **Resource** | **Description** | **Option 4** |
| Communications and Engagement | Covering the branding and messaging for Digital Health and Care Wales as well as launch events and ancillary marketing activities. | £54.000 |
| Statutory Financial Services Readiness | Ensuring the appropriate financial controls, processes and reporting procedures are in place and tested prior to 1 April 2021 go-live date. This includes key staff costs as well as supplier costs associated with the building of the organisation's Financial ledger and purchase of capital asset register for the new organisation. | £247,700 |
| Workforce and Organisational Development Readiness | Supplier costs relating to the setting up of new ESR and expenses systems for the organisation in readiness for the go-live date. | £57,400 |
| Governance Readiness | Supporting the ongoing development of the Board and Governance processes for Digital Health and Care Wales, this includes consultancy costs as well as staffing costs for the transition project manager, Board Secretary and Chair and Independent Members (following their appointment by Welsh Government). | £312,200 |
| Legal Preparation | Legal advice to support the commercial activities relating to the transition such as the novation of contracts from Velindre to the SHA, Employment Law advice relating to the TUPE transfer and the setting up of employment licences and general legal advice relating to the creation of the Statutory Instruments to establish the SHA | £46,500 |
| | **Total:** | **£717,800** |

Eitem 3.3

# SL(5)693 - Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020

## Cefndir a Diben

Mae adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn sicrhau na chaniateir gorfodi ailfynediad neu fforffediad am beidio â thalu rhent mewn perthynas â thenantiaethau busnes perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ("relevant period"). Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio'r "cyfnod perthnasol" fel y cyfnod sy'n dechrau ar 26 Mawrth 2020, ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2020, neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol. (Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o ran Cymru).

Mae rheoliadau blaenorol wedi estyn y cyfnod perthnasol hyd 30 Medi ac, yn fwy diweddar, hyd 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o'r Ddeddf ymhellach, hyd 31 Mawrth 2021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg**

Mae Rheoliad 2 yn ymdrin â'r (estyniad i'r) cyfnod perthnasol. Mae'r fersiwn Saesneg yn nodi "with 31st March 2020" tra bo'r fersiwn Gymraeg yn nodi "ar 31 Mawrth" Yn unol â pharagraff 8.4 o ganllawiau drafftio Llywodraeth Cymru dylai'r testun Cymraeg nodi "yn gorffen â 31 Mawrth."

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**5 Ionawr 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1456 (Cy. 314)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn sicrhau na chaniateir gorfodi ailfynediad neu fforffediad am beidio â thalu rhent mewn perthynas â thenantiaethau busnes perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol ("relevant period"). Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio'r "relevant period" fel cyfnod sy'n dechrau ar 26 Mawrth 2020, ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2020, neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol.

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o ran Cymru.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020 (O.S. 2020/606 (Cy. 140)) y cyfnod perthnasol hyd 30 Medi 2020.

Estynnodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/960 (Cy. 214)) y cyfnod perthnasol ymhellach hyd 31 Rhagfyr 2020.

O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, mae'r moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o'r Ddeddf wedi ei estyn ymhellach hyd 31 Mawrth 2021.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn estyn y cyfnod perthnasol hyd 31 Mawrth 2021.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1456 (Cy. 314)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Rhagfyr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *9 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 82(12) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2020.

**Estyn y cyfnod perthnasol sy'n darparu gwarchodaeth rhag fforffediad etc.**

**2.** At ddibenion adran 82 (tenantiaethau busnes yng Nghymru a Lloegr: gwarchodaeth rhag fforffediad etc.) o Ddeddf y Coronafeirws 2020, mae'r "relevant period", fel y'i diffinnir yn is-adran (12) o'r adran honno yn dod i ben, o ran Cymru, ar 31 Mawrth 2021.

(**1**) 2020 p. 7.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Dirymu**

**3.** Mae Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020(**2**) wedi eu dirymu.

*Ken Skates*
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru
7 Rhagfyr 2020

(**2**) O.S. 2020/960 (Cy. 214).

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r isddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 3) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Ken Skates AS
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
9 Rhagfyr 2020

**RHAN 1**

1. **Disgrifiad**

Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i ymestyn hyd y moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws (2020) (“y Ddeddf”), lle na chaniateir gorfodi, drwy weithred neu fel arall, hawl i ailfynediad neu fforffediad, dan denantiaeth busnes berthnasol, am beidio â thalu rhent.

**2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

Mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol I lunio’r Rheoliadau hyn yn ôl adran 82 Deddf Coronafeirws 2020 (“y Ddeddf”). Mae Adran 82(12) y Ddeddf yn diffinio y “cyfnod perthnasol” fel un “a ddaw I ben ar 30 Mehefin 2020 neu ddyddiad hwyrach fel a nodir gan yr awdurdod cenedlaethol yn y rheoliadau a wnaethpwyd gan offeryn statudol (a gellir defnyddio’r pŵer hwnnw ar fwy nag un achlysur fel bod y cyfnod yn cael ei ymestyn ymhellach)”. Mae Adran 82(12) o’r Ddeddf yn cadarnhau ymhellach bod yr “awdurdod cenedlaethol perthnasol” yn golygu Gweinidogion Cymru, yng nghyd-destun Cymru.

**3. Cefndir deddfwriaethol**

Mae adran 82 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth na chaniateir gorfodi, drwy achos neu fel arall, hawl i ailfynediad neu fforffediad, o dan denantiaeth fusnes berthnasol, am beidio â thalu rhent, yn ystod y “cyfnod perthnasol”. Mae adran 82(12) o’r Ddeddf yn diffinio bod y “cyfnod perthnasol” yn dechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod y pasiwyd y Ddeddf (26ain Mawrth 2020), ac yn gorffen ar 30ain Mehefin 2020, neu ddyddiad diweddarach a bennir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn rheoliadau. Gellir arfer y pŵer i bennu dyddiad diweddarach ar fwy nag un achlysur er mwyn ymestyn y cyfnod ymhellach.

Gweinidogion Cymru yw’r “awdurdod cenedlaethol perthnasol” mewn perthynas â Chymru, a gallant felly wneud rheoliadau i ymestyn y “cyfnod perthnasol” i warchodaeth y tu hwnt i 30ain Mehefin 2020, a thrwy hynny gadw’r warchodaeth a ddarperir gan adran 82 y Ddeddf i’r ddyddiad diweddarach a nodir yn y rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd, Y Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020 yn ymestyn y "cyfnod perthnasol" tan 31 Rhagfyr 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn gweithdrefn penderfyniad negyddol y Senedd.

**4. Pwrpas a'r effaith a fwriedir ar y ddeddfwriaeth**

Pwrpas y Rheoliadau yw i nodi bod y "cyfnod perthnasol", fel a ddiffinir gan adran 82(12) y Ddeddf, yn dod i ben ar 31 Mawrth 2021 yng Nghymru.

Effaith y Rheoliadau yw ymestyn y "cyfnod perthnasol" pryd na fydd hawl ailfynediad a fforffediad, o dan y denantiaeth fusnes berthnasol, ar gyfer peidio talu rhent yn cael ei orfodi, drwy unrhyw gamau neu fel arall am 3 mis arall hyd at 31 Mawrth 2021.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

**5. Opsiynau**

Mae pedwar opsiwn wedi cael eu hystyried:

Opsiwn 1: Gwneud dim – Caniatáu i'r ddarpariaeth sy'n diogelu tenantiaid masnachol rhag cael eu troi allan oherwydd peidio â thalu rhent i ddod i ben ar 31ain Rhagfyr 2020.

Opsiwn 2: Gwneud Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 1 mis arall hyd at 31ain Ionawr 2021.

Opsiwn 3: Gwneud Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 3 mis arall hyd at 31ain Mawrth 2021. Dyma'r opsiwn a ffefrir.

Opsiwn 4: Gwneud Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 6 mis arall hyd at 30ain Mehefin 2021.

**Costau a buddiannau**

Mae goblygiadau ariannol posibl yn gysylltiedig â'r ddau opsiwn. Gydag opsiwn 2, 3 a 4 efallai y bydd pwysau cynyddol ar i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i landlordiaid masnachol yn ystod y cyfnod hwn i wrthweithio'r warchodaeth a ddarperir i denantiaid. Y bwriad wrth ymestyn y warchodaeth yw hwyluso ailddechrau'r economi drwy geisio sicrhau bod busnesau yn dal mewn sefyllfa i weithredu pan gaiff y cyfyngiadau presennol eu codi.

Fodd bynnag, caiff yr asesiad ei atodi gan ddata o'r Arolwg o Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau (BICS) gwirfoddol bob pythefnos. Caiff ei gynnal gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n casglu barn busnesau am effaith y coronafeirws (COVID-19) ar drosiant, prisiau'r gweithlu, cadernid masnach a busnes.

Mae'r atodiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth am yr arolwg a dylid edrych ar y canfyddiadau yng nghyd-destun yr wybodaeth hon. Dyliad nodi er bod y data yn gymharol amserol, mae sefyllfa COVID-19 yn newid yn gyflym felly mae'n bosibl y bydd prif negeseuon yr arolwg yn newid yn gyflym iawn. Hefyd, nid yw'r arolwg yn edrych ymlaen felly nid yw cyflwr a'r effaith a gaiff ar fusnesau yn y dyfodol yn cael eu cynnwys. Mae'r arolwg yn wirfoddol ac efallai mai dim ond adlewyrchu nodweddion y rhai hynny a ymatebodd a fydd; mae'r canlyniadau yn arbrofol.

**Opsiwn 1: Gwneud dim – Caniatáu i'r ddarpariaeth sy'n diogelu tenantiaid masnachol rhag achosion fforffedu oherwydd peidio â thalu rhent i ddod i ben ar 31ain Rhagfyr 2020**.

Heb lunio Rheoliadau diwygio, daw'r warchodaeth i ben ac o ganlyniad mae mwy o risg y gallai tenantiaid masnachol gael eu troi allan o'u heiddo am beidio â thalu rhent. Gan mai prif nod y ddeddfwriaeth wreiddiol oedd diogelu tenantiaid masnachol a swyddi, byddai dileu'r warchodaeth bresennol yn golygu bod y tenantiaid masnachol hynny - rhai ohonynt efallai wedi cael cymorth ariannol gan Lywodraethau Cymru a'r DU - mewn perygl eto wrth i'r economi wella.

Un o ganlyniadau'r opsiwn hwn yw y bydd landlordiaid masnachol yn rhydd i gymryd camau oherwydd peidio â thalu rhent. Bydd hyn yn arwain un ai at dalu rhywfaint o'r rhent neu'r holl rent sy'n ddyledus gan denantiaid masnachol, neu achosion fforffedu. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd yr hinsawdd economaidd bresennol, byddai angen i landlordiaid ystyried yn ofalus a fyddent yn elwa'n ariannol gan na fyddai tenantiaid efallai yn gallu gwneud y taliadau angenrheidiol beth bynnag. Gallai fod yn anodd dod o hyd i denant arall, neu werthu'r eiddo, gan fod y galw am ofod masnachol mewn rhai sectorau (e.e. hamdden, adwerthu a lletygarwch) yn debygol o fod wedi lleihau, o leiaf yn y tymor byr.

Mae'r canlyniadau o Don 16 arolwg ONS BICS yn cynnwys y cyfnod **5 Hydref hyd at 18 Hydref.** Mae'n dangos, o'r busnesau oedd heb roi'r gorau i fasnachu yn gyfan gwbl, roedd 82% o fusnesau yng Nghymru wedi gwneud cais ar gyfer y Cynllun Cadw Swyddi o ganlyniad i'r Coronafeirws, o gymharu gydag 80% o fusnesau yn yr Alban, 68% yng Ngogledd Iwerddon a 74% yn Lloegr[1].

O ysytried bod cynifer yn dibynnu ar y cynllun Cadw Swyddi yng Nghymru, gallai yr opsiwn hwn olygu bod busnesau yng Nghymru mewn risg ariannol Hefyd, o ystyried bod gwledydd eraill y DU yn ymestyn cynlluniau gwarchod, gallai busnesau yng Nghymru fod dan anfantais os na roddir estyniad. Fodd bynnag, byddai angen edrych ar hyn yng nghyd-destun risg ariannol i landlordiaid allai fod yn dioddef problemau llif arian os roddir estyniadau pellach.

Mae busnesau yng Nghymru hefyd wedi defnyddio ystod eang o gynlluniau'r llywodraeth yn ystod yr argyfwng. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Grantiau busnes wedi'u hariannu gan y DU a llywodraethau datganoledig;

[1] Mae datganiad diweddaraf y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig ar gyfer Ton 17 yn cynnwys y cyfnod rhwng 19 Hydref a'r 1 Tachwedd. Fodd bynnag, nid yw'r datganiad hwnnw yn cynnwys y ffigurau hyn.

● Benthyciadau achrededig neu gytundebau cyllidol wedi'u cefnogi gan y Llywodraeth; a

● Y Cynllun Cadw Swyddi o ganlyniad i'r Coronafeirws.

O'r busnesau sydd heb roi'r gorau i fasnachu yn gyfan gwbl, nid oedd 16% o'r rhai hynny oedd yn gweithredu yng Nghymru wedi gwneud cais am unrhyw un o'r cynlluniau hyn, mae hyn yn cymharu â 23% yn Lloegr, 27% yng Ngogledd Iwerddon a 18% yn Yr Alban[2].

Y casgliad yw na fyddai Opsiwn 1 yn cyflawni'r amcan polisi o gefnogi busnes a diogelu tenantiaid masnachol rhag fforffediad yn ystod pandemig y Coronafeirws.

**Opsiwn 2 - Gwneud Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 1 mis arall hyd at 31ain Ionawr 2021**

Byddai ymestyn y ddarpariaeth am gyfnod byr – sef mis – yn lleihau'r baich ar landlordiaid, ac nid yw'r opsiwn hwn yn debygol o fod yn ddigon i ddangos i economi Cymru bod fframwaith sylweddol ar gael i ganiatáu i fusnesau addasu.

Hefyd, byddai ymestyn y cyfnod hwn yn lleihau'r gallu i Lywodraeth Cymru ddatblygu cyfres mwy cynaliadwy o gynigion.

**Opsiwn 3: Gwneud Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 3 mis arall hyd at 31 Mawrth 2021.**

Mae'r Coronafeirws wedi lleihau gweithgarwch economaidd, gan arwain at ostyngiad mewn incwm i lawer o fusnesau.  Mae arolwg ONS y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig yn dangos:

● Bod 50% o fusnesau yng Nghymru wedi nodi gostyngiad mewn trosiant y tu allan i'r ystod arferol.  Mae hyn yn cymharu â 51% yn yr Alban, 47% yn Lloegr a 50% yng Ngogledd Iwerddon[3].

● Ar draws pob busnes sy'n masnachu ar hyn o bryd yng Nghymru, roedd 13% yn datgan bod elw wedi gostwng dros 50%.  Dywedodd 13% bod elw wedi gostwng rhwng 20-50% a dywedodd 23% bod elw wedi gostwng hyd at 20%.

● O wledydd y DU, Cymru sydd â'r drydedd gyfran uchaf o fusnesau gyda mwy na chwe mis o gronfa arian parod ar 37%.  Mae hyn yn cymharu â 39% yn Yr Alban, 36% yn Lloegr a 43% yng Ngogledd Iwerddon.

● Roedd gan 44% o fusnesau yng Nghymru lai na 60% o gronfa arian parod, yn is nâ'r ffigur cyffredinol ar gyfer y DU o 46%.  Roedd oddeutu 3% o fusnesau Cymru yn nodi nad oedd ganddynt gronfa arian parod.

[2] Cafodd y ffigurau hyn eu cyfrifo gan ddefnyddio rhifau wedi'u pwysoli

[3] Mae'r ffigurau sy'n gysylltiedig ag ansolfedd a diddordeb cwsmeriaid gan y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig Ton 15 (gan gynnwys y cyfnod rhwng 21 Medi tan 4 Hydref) gan nad yw Tonnau 16 ac 17 yn cynnwys y ffigurau hyn.

*Ansolfedd:*

Yng Nghymru, o fusnesau sydd heb roi'r gorau i fasnachu yn barhaol, roedd:

- 1% mewn perygl difrifol o ansolfedd
- 10% mewn risg cymhedrol o ansolfedd
- 51% mewn risg isel o ansolfedd
- 26% heb unrhyw risg o ansolfedd

*Nifer yr Ymwelwyr*[4]

Yng Nghymru, o'r busnesau sy'n masnachu ar hyn o bryd, roedd:

- 25% yn nodi bod nifer yr ymwelwyr wedi lleihau
- 15% yn nodi bod nifer yr ymwelwyr wedi aros yr un fath
- 43% wedi nodi bod nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu

*Diddordeb gan gwsmeriaid*

Yng Nghymru, o'r busnesau sy'n masnachu ar hyn o bryd, roedd:

- 30% yn nodi bod ddiddordeb cwsmeriaid wedi lleihau
- 36% yn nodi bod diddordeb cwsmeriaid wedi aros yr un fath
- 10% yn nodi bod diddordeb cwsmeriaid wedi cynyddu

*Gwariant cyfalaf*

Mae'n ymddangos bod busnesau yng Nghymru hefyd wedi gweld effaith y coronafeirws ar eu gwariant cyfalaf.

O'r holl fusnesau sy'n parhau i fasnachu yng Nghymru, roedd 13% yn nodi bod eu gwariant cyfalaf wedi dod i ben, tra bod 31% yn nodi bod gwariant cyfalaf wedi bod yn is na'r arferol.

Bydd yr opsiwn hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i barhau i ddiogelu tenantiaid masnachol yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd, ond nid yw ychwaith yn dileu gormod ar yr hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n galluogi landlordiaid i weithredu mewn achosion o beidio â thalu rhent.

Mae'r sector a'r farchnad eiddo masnachol yn chwarae rhan bwysig yn yr economi ac o ran gwireddu a darparu seilwaith hanfodol i fusnesau ar ffurf adeiladau masnachol lle gall busnesau weithredu a thyfu. Felly, mae'n bwysig cydnabod anghenion busnesau landlordiaid a thenantiaid.

---

[4] Mae'r ffigurau sy'n gysylltiedig â nifer yr ymwelwyr o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig Ton 16 (yn cynnwys y cyfnod rhwng 5 Hydref ac 18 Hydref) gan nad yw Ton 17 yn cynnwys y ffigurau hyn

Nid yw'r warchodaeth hon yn dileu'r gofyniad i dalu rhent, ond yn gohirio hawl landlord i gymryd camau fforffedu am beidio â thalu rhent. Bydd tenantiaid yn dal i fod yn atebol am unrhyw ôl-ddyledion, a bydd rhaid iddynt dalu unrhyw rent sy'n ddyledus unwaith y caiff y warchodaeth ei chodi neu wynebu camau fel fforffedu. Ni fydd gweithredoedd y landlord yn ei atal rhag arfer hawl i fforffediad yn y dyfodol, ar ôl i'r moratoriwm ddod i ben, oni bai fod y landlord a'r tenant wedi cytuno fel arall drwy gytundeb gohirio rhent neu gytundeb tebyg mewn perthynas â thalu rhent.

Wrth argymell Opsiwn 3, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod sefyllfa landlordiaid, fel buddsoddwyr mewn seilwaith busnes hollbwysig a darparwyr. Bydd darpariaethau Opsiwn 3 yn parhau i roi landlordiaid o dan rywfaint o anfantais wrth negodi trefniadau gohirio rhent er mwyn lliniaru helyntion presennol tenantiaid wrth geisio diogelu eu hasedau. Bydd swyddogion yn parhau i drafod gyda Llywodraeth y DU i edrych ar ymyrraethau i liniaru'r pwysau hwn.

**Opsiwn 4: Gwneud Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 6 mis arall hyd at 30 Mehefin 2021.**

Byddai Opsiwn 4 yn rhoi mwy o amser (na Opsiwn 3) i swyddogion ddatblygu dulliau eraill o roi cymorth i fusnesau ac i roi mwy o gapasiti i Lywodraeth y DU edrych ar strwythurau a'r posibilrwydd o ddarpariaethau cyllidol ac anghyllidol pellach.

Nid yw'r warchodaeth hon yn dileu'r gofyniad i dalu rhent, ond yn gohirio hawl landlord i gymryd camau fforffedu am beidio â thalu rhent. Bydd tenantiaid yn dal i fod yn atebol am unrhyw ôl-ddyledion, a bydd rhaid iddynt dalu unrhyw rent sy'n ddyledus unwaith y caiff y warchodaeth ei chodi neu wynebu camau fel fforffedu. Ni fydd gweithredoedd y landlord yn ei atal rhag arfer hawl i fforffediad yn y dyfodol, ar ôl i'r moratoriwm ddod i ben, oni bai fod y landlord a'r tenant wedi cytuno fel arall drwy gytundeb gohirio rhent neu gytundeb tebyg mewn perthynas â thalu rhent.

Fodd bynnag, byddai estyniad tan 30ain Mehefin 2021 yn cynnig moratoriwm o 15 mis. Gan bod y Rheoliadau hyn yn cael eu hystyried yn ymateb brys i'r pandemig, gallai'r cyfnod amser hwn roi pwysau sylweddol ar landlordiaid a buddsoddwyr. Yn ogystal â rhoi mwy o heriau i landlordiaid a buddsoddwyr, mae'n debygol o ddangos diffyg hyder yn yr ymdrechion i adfer yr economi.

**6. Ymgynghoriad**

Cafodd ymarfer cysylltu gyda prif randdeiliaid i ddeall yr effaith a gafodd Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif 2) 2020 ar denantiaid a landlordiaid masnachol yng Nghymru ei gynnal, gan ddod I ben ym mis Tachwedd 2020.

Cawsom nifer o sylwadau gan randdeiliaid ac i grynhoi y prif bwyntiau a wnaethpwyd oedd:

● Bu canolbwyntio ar ddatblygu dull sy'n newid y pwyslais ar gyfer y darpariaethau hyn; gan fireinio cyrrhaeddiad busnesau perthnasol i sectorau yr effeithiwyd arnynt yn ddifrifol

● Mae'r moratoriwm wedi cynnig cymorth hanfodol i denantiaid masnachol hynod fregus

● Gallai cwmnïau sy'n bachu cyfle gymryd mantais o'r moratoriwm er gwaethaf y ffaith eu bod yn gallu talu.

● Mae cyfraddau casglu isel ar gyfer rhent a thaliadau am wasanaethau wedi cael effaith sylweddol ar berchnogion eiddo a'u gallu i fuddsoddi a fydd, yn ei dro, yn cael effaith ar ail-ddechrau'r economi.

● Dylid rhoi sylw i orfodi dyled yn ymosodol

● Mae trafodaeth adeiladol rhwng landlordiaid a busnesau yn hanfodol i gynnal perthynas gref a dylid annog y dyhead hwn

● Dylid rhoi digon o amser i fusnesau a landlordiaid baratoi ac addasu yn unol ag ymyrraethau yn y maes hwn.

Bydd y pryderon sy'n cael eu codi gan randdeiliaid yn ganolog i ddatblygu safbwyntiau o ran polisi ac yn llywio trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

## 7. Asesiad o'r Gystadleuaeth

Ar ôl cwblhau'r prawf Hidlo Cystadleuaeth, penderfynwyd nad oes unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth.

## 8. Adolygiad ôl-weithredu

Mae effaith y Rheoliadau hyn yn gyfyngedig o ran amser a bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu cyn dyddiad terfyn arfaethedig yr estyniad, sef 31 Mawrth 2021.

## 9. Atodiad

### Mesur y data

Mae'r Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnes yn wirfoddol a dim ond nodweddion y rhai hynny a ymatebodd sy'n cael eu hadlewyrchu; mae'r canlyniadau yn arbrofol.

**Tabl 1. Sampl a chyfradd ymateb ar gyfer Tonnau 9, 10 ac 11 o'r BICS**

| Ton | Cyhoeddiad<br>22 Hydref 2020<br>Ton 15 | Cyhoeddiad<br>5 Tachwedd 2020<br>Ton 16 | Cyhoeddiad<br>19 Tachwedd 2020<br>Ton 17 |
|---|---|---|---|
| **Sampl** | 24,353 | 24,315 | 38,760 |
| **Ymateb** | 5,970 | 5,755 | 10,377 |
| **Cyfradd** | 24.5% | 23.7% | 26.8% |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau

**Ton 15**

Mae’r dangosyddion a’r dadansoddiad a gyflwynir yn y bwletin hwn yn seiliedig ar yr ymatebion gan yr arolwg busnes bob bythefnos gwirfoddol, sy’n casglu ymatebion busnesau ar sut yr effeithiwyd ar eu trosiant, prisiau eu gweithlu, cadernid masnach a busnes yn ystod y bythefnos y cyfeiriwyd ati. Mae’r data yn cyfeirio at y cyfnod 21 Medi hyd at 4 Hydref 2020.

Cafodd y cynllun sampl ar gyfer yr Arolwg o Effaith y Coronafeirws ar Fusnesau ei adolygu a’i adnewyddu yn Nhon 7 a bydd yn sail ar gyfer tonnau’r dyfodol. Mae’r ailddyluniad hwn o’r sampl yn gwella ein cwmpas ar gyfer busnesau llai.

Anfonwyd yr arolwg at oddeutu 24,000 o fusnesau yn y DU, ac mae’r canlyniadau a gyflwynir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar nifer cyfyngedig o ymatebion, oddeutu 24.5% (5,970) o bob busnes a arolygwyd, a atebodd.

Nid yw’r amgangyfrifon o’r Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau wedi eu pwysoli gyda nifer o dablau wedi eu pwysoli bellach (gan gynnwys priodoli). Mae disgrifiad manwl o’r fethodoleg bwysoli a’i wahaniaethau i’r canlyniadau heb eu pwysoli i’w cael yn y canlyniadau pwysoli cychwynnol. Ar hyn o bryd, mae data wedi’i bwysoli ond ar gael ar gyfer y tri newidyn hwn. Fodd bynnag, mae data wedi’i bwysoli ar gyfer newidion eraill yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio tablau heb eu pwysoli* i werthuso effaith COVID-19 ar draws economi y DU. Cafodd pob busnes yr un pwysau waeth beth oedd eu trosiant, eu maint neu eu diwydiant, ac mae’r data yn y cyfnod diweddaraf yn derfynol.

**Ar gyfer tablau penodol am y gweithlu mae’r cyfrannau yn seiliedig ar waith o fewn busnesau sy’n ymateb.*

**<u>Ton 16</u>**

Mae’r dangosyddion a’r dadansoddiad a gyflwynir yn y bwletin hwn yn seiliedig ar ymatebion gan yr arolwg busnes gwirfoddol pob pythefnos, sy’n casglu ymateb busnesau ar sut yr effeithiwyd ar eu trosiant, prisiau eu gweithlu, cadernid masnach a busnes yn y cyfnod o bythefnos y cyfeirir ato. Mae’r data hwn yn cyfeirio at y cyfnod 5 Hydref i 18 Hydref 2020.

Cafodd y dyluniad sampl ar gyfer yr Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau ei adolygu a’i adnewyddu yn Nhon 7 a bydd yn sail ar gyfer tonnau’r dyfodol. Mae’r sampl hwn wedi’i ail-ddylunio yn gwella ein cwmpas ar gyfer busnesau llai.

Cafodd yr arolwg ei anfon at oddeutu 24,000 o fusnesau y DU, ac mae’r canlyniadau a gyflwynir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar nifer cyfyngedig o ymatebion, oddeutu 23.7% (5,755) o bob busnes a arolygwyd a ymatebodd.

Mae’r amcangyfrifon o’r Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau bellach wedi eu pwysoli a dim ond y tablau rhanbarthol sydd heb eu pwysoli ar hyn o bryd. Mae disgrifiad manwl o’r fethodoleg bwysoli a’u gwahaniaeth i ganlyniadau heb eu pwysoli i’w gweld yn y

canlyniadau cychwynnol wedi'u pwysoli: Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio tablau heb eu pwysoli* i werthuso effaith COVID-19 ar draws economi y DU.  Cafodd pob busnes yr un pwysau waeth beth oedd eu trosiant, eu maint neu eu diwydiant, ac mae'r data yn y cyfnod diweddaraf yn derfynol.

**Ar gyfer tablau penodol am y gweithlu mae'r cyfrannau yn seiliedig ar waith o fewn busnesau sy'n ymateb.*

**Ton 17**

Mae'r dangosyddion a'r dadansoddiad a gyflwynir yn y bwletin hwn yn seiliedig ar ymatebion gan yr arolwg busnes gwirfoddol pob pythefnos, sy'n casglu ymateb busnesau ar sut yr effeithiwyd ar eu trosiant, prisiau eu gweithlu, cadernid masnach a busnes yn y cyfnod o bythefnos y cyfeirir ato.  Mae'r data hwn yn cyfeirio at y cyfnod 19 Hydref i 1 Tachwedd 2020.

Cafodd y dyluniad sampl ar gyfer yr Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau ei adolygu a'i adnewyddu yn Nhon 17 a bydd yn sail ar gyfer tonnau'r dyfodol.  Mae'r sampl hwn wedi'i ail-ddylunio yn gwella ein cwmpas ar gyfer busnesau llai.

Cafodd yr arolwg ei anfon at oddeutu 39,000 o fusnesau y DU, ac mae'r canlyniadau a gyflwynir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar nifer cyfyngedig o ymatebion, oddeutu 26.8% (10,377) o bob busnes a arolygwyd a ymatebodd.

Mae'r amcangyfrifon o'r Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau bellach wedi eu pwysoli a dim ond y tablau rhanbarthol sydd heb eu pwysoli ar hyn o bryd.  Mae disgrifiad manwl o'r fethodoleg bwysoli a'u gwahaniaeth i ganlyniadau heb eu pwysoli i'w gweld yn y canlyniadau cychwynnol wedi'u pwysoli: Arolwg Effaith y Coronafeirws (COVID-19) ar Fusnesau a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio tablau heb eu pwysoli* i werthuso effaith COVID-19 ar draws economi y DU.  Cafodd pob busnes yr un pwysau waeth beth oedd eu trosiant, eu maint neu eu diwydiant, ac mae'r data yn y cyfnod diweddaraf yn derfynol.

**Ar gyfer tablau penodol am y gweithlu mae'r cyfrannau yn seiliedig ar waith o fewn busnesau sy'n ymateb.*

# SL(5)694 - Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Trefniadau Dros Dro) (Coronafeirws) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu trefniadau dros dro i hwyluso cynhyrchu a chyflenwi cyfarpar diogelu personol (PPE) yn ystod yr argyfwng Covid-19. Mae'r trefniadau hyn yn debyg i'r cynigion yn Argymhelliad y Comisiwn Ewropeaidd 2020/403 dyddiedig 13 Mawrth 2020 ar weithdrefnau asesu cydymffurfiaeth a gwyliadwraeth y farchnad yng nghyd-destun bygythiad COVID-19, ond mae'r trefniadau yn y Rheoliadau hyn yn benodol i Gymru a daethant i rym ar ddiwrnod cwblhau y Cyfnod Gweithredu. Mae'r llacio yn gyfyngedig o ran amser, gan fod angen cynnal asesiad o'r cyfarpar diogelu personol gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch erbyn dyddiadau penodedig.

Mae rheoliad 2 yn caniatáu i PPE gael ei roi ar y farchnad tra ei fod yn destun gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth ond cyn i'r gweithdrefnau hyn gael eu cwblhau a chyn i unrhyw nod cydymffurfiaeth gael ei osod arno. Mae rheoliad 3 yn caniatáu i PPE gael ei gaffael heb fod yn destun gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth a heb fod nod cydymffurfiaeth wedi ei osod arno, ond ni ddylai'r PPE hwnnw fod ar gael i neb ond gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr rheng flaen yn unig. Yn y ddau achos, rhaid i'r PPE fod wedi ei asesu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a rhaid i'r awdurdod hwnnw fod wedi canfod bod y PPE yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch hanfodol yn Atodiad II i Reoliad 2016/425/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 9 Mawrth 2016 ar gyfarpar diogelu personol ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 89/686/EEC (fel y'i diwygiwyd ac fel y'i dargedwir yng nghyfraith y DU). Pan fo'r amodau wedi eu bodloni, caiff y rhwymedigaethau yn Rheoliad 2016/425 eu trin fel pe baent wedi eu bodloni at ddibenion Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Gorfodi) 2018 ac mewn cysylltiad â PPE ar gyfer gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr rheng flaen eraill, ni fydd awdurdod gwyliadwraeth y farchnad yn ei gwneud yn ofynnol i ddod â'r peidio â chydymffurfio i ben. Nid yw hyn yn gymwys ond mewn achosion pan na fo'r weithdrefn asesu cydymffurfiaeth wedi ei chwblhau a phan na fo'r nod cydymffurfiaeth wedi ei osod ar y PPE oherwydd dibynnu ar reoliadau 2 neu 3 o'r Rheoliadau hyn.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud o dan adran 45C, adran 45F(2) ac adran 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"). Mae adran 45Q(2)(a) a (4)(b) o Ddeddf 1984 yn darparu na chaniateir gwneud rheoliadau a wneir o dan adran 45C oni bai bod drafft o'r offeryn wedi'i osod gerbron, ac wedi'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan, y Senedd. (h.y. y weithdrefn gadarnhaol). Fodd bynnag, mae adran 45Q(3) o Ddeddf 1984 yn darparu nad yw hyn yn gymwys os yw'r offeryn yn cynnwys datganiad bod y person sy'n ei wneud o'r farn nad yw'r offeryn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy rinwedd adran 45C(3)(c) o Ddeddf 1984 sy'n gosod neu'n galluogi gosod cyfyngiad neu ofyniad arbennig, neu unrhyw gyfyngiad neu ofyniad arall sydd wedi neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar hawliau person.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn honno ac mae datganiad wedi'i gynnwys i'r perwyl hwnnw yn y rheoliadau. Felly mae'r offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Pwrpas yr offeryn yw cynyddu'r graddau y mae PPE ar gael, a lleihau risgiau i iechyd cyhoeddus, yn hytrach na gosod cyfyngiadau neu ofynion arbennig.

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Nid yw'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ond maent yn ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn a Rheoliad 2016/425/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor, dyddiedig 9 Mawrth 2016, ar gyfarpar diogelu personol a diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 89/686/EEC (fel y'i diwygiwyd), y mae'r Rheoliadau yn cyfeirio atynt, yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir yn dilyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**4 Ionawr 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

## 2020 Rhif 1489 (Cy. 318)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Trefniadau Dros Dro) (Coronafeirws) (Cymru) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 45C, 45F(2) a 45(P) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 i weithredu trefniadau dros dro i hwyluso cynhyrchu a chyflenwi cyfarpar diogelu personol (PPE) yn ystod yr argyfwng Covid-19. Mae'r trefniadau hyn yn debyg i'r cynigion yn Argymhelliad y Comisiwn Ewropeaidd 2020/403 dyddiedig 13 Mawrth 2020 ar weithdrefnau asesu cydymffurfiaeth a gwyliadwraeth y farchnad yng nghyd-destun bygythiad COVID-19 (OJ L 79I, 16.3.20 t. 1-5), ond mae'r trefniadau yn y Rheoliadau hyn yn benodol i Gymru ac ni chaniateir dibynnu arnynt oni bai bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi eu hawdurdodi erbyn dyddiad penodedig ac maent yn dod i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Mae rheoliad 2 yn caniatáu i PPE gael ei roi ar y farchnad tra ei fod yn destun gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth ond cyn i'r gweithdrefnau hyn gael eu cwblhau a chyn i unrhyw nod cydymffurfiaeth gael ei osod arno. Mae rheoliad 3 yn caniatáu i PPE gael ei gaffael heb fod yn destun gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth a heb fod nod cydymffurfiaeth wedi ei osod arno, ond ni ddylai'r PPE hwnnw fod ar gael i neb ond gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr rheng flaen yn unig. Yn y ddau achos, rhaid i'r PPE fod wedi ei asesu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a rhaid i'r awdurdod hwnnw fod wedi canfod bod y PPE yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch hanfodol yn Atodiad II i Reoliad 2016/425/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 9 Mawrth 2016 ar gyfarpar diogelu personol ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 89/686/EEC (fel y'i diwygiwyd ac fel y'i dargedwir yng nghyfraith y DU). Pan fo'r amodau wedi eu bodloni, caiff y

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

rhwymedigaethau yn Rheoliad 2016/425 eu trin fel pe baent wedi eu bodloni at ddibenion Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Gorfodi) 2018 (O.S. 2018/390) ac mewn cysylltiad â PPE ar gyfer gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr rheng flaen eraill, ni fydd awdurdod gwyliadwraeth y farchnad yn ei gwneud yn ofynnol i ddod â’r peidio â chydymffurfio i ben. Nid yw hyn yn gymwys ond mewn achosion pan na fo’r weithdrefn asesu cydymffurfiaeth wedi ei chwblhau a phan na fo’r nod cydymffurfiaeth wedi ei osod ar y PPE oherwydd dibynnu ar reoliadau 2 neu 3 o’r Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1489 (Cy. 318)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Trefniadau Dros Dro) (Coronafeirws) (Cymru) 2020

*Gwnaed* *9 Rhagfyr 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *10 Rhagfyr 2020*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(1)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 45C, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn datgan, yn unol ag adran 45Q(3), eu bod o'r farn nad yw'r Rheoliadau hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd adran 45C(3)(c) o'r Ddeddf honno sy'n gosod, neu'n galluogi gosod, cyfyngiad arbennig neu ofyniad arbennig, neu unrhyw gyfyngiad neu ofyniad arall sy'n cael, neu a fyddai'n cael, effaith sylweddol ar hawliau person.

---

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adran 45C gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o dan yr adran hon wedi ei rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Trefniadau Dros Dro) (Coronafeirws) (Cymru) 2020 ac maent yn dod i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "y Rheoliad PPE" ("*the PPE Regulation*") yw Rheoliad (EU) 2016/425 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 9 Mawrth 2016 ar gyfarpar diogelu personol ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 89/686/EEC(**1**);

(b) mae i ymadroddion Cymraeg yn y Rheoliadau hyn sy'n cyfateb i ymadroddion Saesneg sy'n ymddangos yn y Rheoliad PPE yr un ystyr ag y sydd iddynt yn y Rheoliad PPE;

(c) ystyr "Rheoliadau 2018" ("*the 2018 Regulations*") yw Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Gorfodi) 2018(**2**);

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch" ("*the HSE*") yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch(**3**);

ystyr "clefyd y coronafeirws" ("*coronavirus disease*") yw COVID-19 (sef dynodiad swyddogol y clefyd a achosir gan y coronafeirws);

ystyr "corff a hysbyswyd" ("*notified body*") yw corff asesu cydymffurfiaeth nad yw'n gorff cymeradwy, yr aseiniwyd rhif adnabod iddo o dan Erthygl 29 o Reoliad (EU) 2016/425 (fel y mae'n cael effaith yng nghyfraith yr UE).

ystyr "coronafeirws" ("*coronavirus*") yw syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);

ystyr "GIDH" ("*EHSR*") yw'r gofynion iechyd a diogelwch hanfodol sy'n gymwys i PPE Covid fel y nodir yn Atodiad 2 i'r Rheoliad PPE;

---

(**1**) Mae'r Rheoliad PPE wedi ei gorffori yng nghyfraith ddomestig gan adran 3(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ac wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gydag effaith o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu gan reoliad 38 o Reoliadau Diogelwch a Mesureg Cynnyrch etc. (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/696) ac Atodlen 35 iddynt.

(**2**) O.S. 2018/390; gwnaed yr offeryn yn rhannol o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68) ac mae wedi ei arbed yn unol â hynny yn rhinwedd adran 2(2)(a) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16); mae diwygiadau sy'n rhychwantu Prydain Fawr wedi eu gwneud yn rhagolygol gyda effaith o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, gan O.S. 2019/696; mae diwygiadau eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) Sefydlwyd o dan adran 10 o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc. 1974 (p. 37).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

mae i "nod CE" ("*CE marking*") yr ystyr a roddir i "CE marking" yn Erthygl 3(18) o Reoliad (EU) 2016/425 (fel y mae'n cael effaith yng nghyfraith yr UE);

ystyr "PPE Covid" ("*Covid PPE*") yw PPE—

(i) sy'n angenrheidiol ar gyfer diogelu rhag clefyd y coronafeirws; a

(ii) sydd angen asesiad cydymffurfiaeth gan gorff cymeradwy, yn unol â Rheoliad 19 o'r Rheoliad PPE.

**Trefniadau dros dro ar gyfer darparu bod PPE Covid ar gael**

**2.**—(1) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys ond i PPE Covid yn unig.

(2) Er gwaethaf gofynion Erthyglau 8(2), 10(2) ac 11(2) o'r Rheoliad PPE, pan fo'r amodau a nodir ym mharagraff (3) wedi eu bodloni, caniateir i weithredwr economaidd perthnasol ddarparu bod PPE Covid ar gael ar y farchnad—

(a) cyn bod y weithdrefn asesu cydymffurfiaeth berthnasol wedi ei chyflawni; a

(b) cyn bod nod y DU wedi ei osod arno.

(3) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), cyn bod gweithredwr economaidd yn darparu bod y PPE Covid ar gael, yw—

(a) bod y PPE Covid wedi ei gyflwyno i gorff cymeradwy ar gyfer asesu cydymffurfiaeth; a

(b) ar ôl i'r PPE Covid gael ei gyflwyno i gorff cymeradwy, bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch—

(i) wedi asesu bod y PPE Covid yn cydymffurfio â'r GIDH sy'n berthnasol i'r broses asesu; a

(ii) wedi hysbysu gweithredwr economaidd ar unrhyw adeg cyn 1 Ebrill 2021 am yr asesiad bod y PPE Covid yn cydymffurfio â'r GIDH y'u haseswyd yn eu herbyn.

(4) Pan fo gweithredwr economaidd yn dibynnu ar reoliad 2A o Reoliadau 2018 ac yn cyflwyno PPE Covid i gorff a hysbyswyd, mae cyfeiriad yn y rheoliad hwn at—

(a) nod y DU i'w ddarllen fel cyfeiriad at nod CE;

(b) corff cymeradwy i'w ddarllen fel cyfeiriad at gorff a hysbyswyd.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Trefniadau dros dro ar gyfer darparu bod PPE Covid ar gael i weithwyr gofal iechyd a gweithwyr rheng flaen eraill**

**3.**—(1) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys ond i PPE Covid yn unig.

(2) Er gwaethaf gofynion Erthyglau 8(2), 10(2) ac 11(2) o'r Rheoliad PPE, pan fo'r amodau a nodir ym mharagraff (3) wedi eu bodloni, caniateir i weithredwr economaidd perthnasol ddarparu bod PPE Covid ar gael at ddefnydd gweithwyr gofal iechyd a gweithwyr rheng flaen eraill—

(a) heb gynnal y weithdrefn asesu cydymffurfiaeth gymwys; a

(b) heb fod nod y DU wedi ei osod ar y PPE.

(3) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (2), cyn i weithredwr economaidd ddarparu bod y PPE Covid ar gael, yw—

(a) bod y PPE Covid wedi ei brynu gan neu ar ran Gweinidogion Cymru neu un o gyrff y GIG i'w ddefnyddio yn y gwasanaeth iechyd neu mewn gwasanaethau rheng flaen eraill; a

(b) bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch—

(i) wedi asesu bod y PPE Covid yn cydymffurfio â'r GIDH sy'n berthnasol i'r broses asesu; a

(ii) wedi hysbysu gweithredwr economaidd ar unrhyw adeg cyn 1 Gorffennaf 2021 am yr asesiad bod y PPE Covid yn cydymffurfio â'r GIDH y'u haseswyd yn eu herbyn.

(4) Yn y rheoliad hwn—

mae i "corff y GIG" yr ystyr a roddir i "NHS body" yn adran 206 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**);

mae "gofal cymdeithasol" ("*social care*") yn cynnwys pob math o ofal personol a chymorth ymarferol arall a ddarperir i unigolion y mae arnynt angen y gofal neu'r cymorth arall hwnnw oherwydd oedran, salwch, anabledd, beichiogrwydd, geni'r plentyn, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau, neu unrhyw amgylchiadau tebyg eraill;

ystyr "gwasanaethau rheng flaen eraill" ("*other frontline services*") yw darparu gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyffuriau ac alcohol yn y gymuned ac mewn lleoliadau preswyl;

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 206 gan adran 297 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7), a pharagraffau 12 a 38(1)(b) o Atodlen 21 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "gweithiwr gofal iechyd" ("*healthcare worker*") yw unigolyn sy'n gweithio fel rhan o'r gwasanaeth iechyd sy'n parhau o dan adran 1(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**);

ystyr "gweithwyr rheng flaen eraill" ("*other frontline workers*") yw unrhyw unigolyn sy'n gweithio mewn gwasanaethau rheng flaen eraill.

**Gorfodi**

**4.**—(1) Pan fo gweithredwr economaidd wedi darparu bod PPE Covid ar gael gan ddibynnu ar reoliadau 2 neu 3, ni chaniateir trin y gweithredwr economaidd fel pe bai wedi mynd yn groes i'r gofynion a'r rhwymedigaethau a nodir yn Erthyglau 8(2), 10(2) neu 11(2) o'r Rheoliadau PPE at ddibenion rheoliad 7(1) o Reoliadau 2018—

(a) os nad yw'r weithdrefn asesu cydymffurfiaeth gymwys wedi ei chwblhau mewn perthynas â'r PPE Covid; neu

(b) os nad yw nod y DU wedi ei osod ar y PPE Covid.

(2) Mae paragraff (3) yn gymwys pan fo gweithredwr economaidd wedi darparu bod PPE Covid ar gael gan ddibynnu ar reoliad 3 a—

(a) nad yw'r weithdrefn asesu cydymffurfiaeth gymwys wedi ei chwblhau mewn perthynas â'r PPE Covid; neu

(b) nad yw nod y DU wedi ei osod ar y PPE Covid.

(3) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, ni chaiff methiant gan weithredwr economaidd i gymryd y camau sy'n ofynnol o dan Erthygl 41(1)(b), (c) a (d) o'r Rheoliad PPE ei drin fel achos o beidio â chydymffurfio â'r Rheoliad PPE, ac ni fydd y gweithredwr yn euog o drosedd at ddibenion rheoliad 7(3) o Reoliadau 2018.

(4) Pan fo PPE wedi ei asesu gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn unol ag Argymhelliad y Comisiwn Ewropeaidd (EU) 2020/403 dyddiedig 13 Mawrth 2020 ynghylch gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth a gwyliadwraeth y farchnad yng nghyd-destun bygythiad COVID-19(**2**), nid yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar ddilysrwydd yr asesiad hwnnw gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

---

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) OJ L 79I, 16.3. 2020, t. 1-5

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
9 Rhagfyr 2020

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Trefniadau Dros Dro) (Coronafeirws) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Trefniadau Dros Dro) (Coronafeirws) (Cymru) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

10 Rhagfyr 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r offeryn hwn yn parhau â threfniadau rheoleiddio dros dro i hwyluso cynhyrchu a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r trefniadau hyn yn addasu effaith Rheoliad (EU) 2016/425 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 9 Mawrth 2016 ar gyfarpar diogelu personol ac sy'n diddymu Cyfarwyddeb y Cyngor 89/686/EEC ("y Rheoliad PPE") (fel y diwygiwyd ac fel y'i dargedwir yng nghyfraith y DU) ac effaith sancsiynau o dan Reoliadau Cyfarpar Diogelu Personol (Gorfodi) 2018, O.S. 2018/390 ("Rheoliadau 2018").

Mabwysiadwyd y trefniadau dros dro gan Lywodraeth y DU ym mis Mawrth 2020 yn dilyn Argymhelliad y Comisiwn 2020/403. Ni fydd yr Argymhelliad yn cael ei gario ymlaen ac yn dod yn rhan o'r gyfraith ddomestig ym Mhrydain Fawr ar ddiwedd y Cyfnod Pontio, felly mae darpariaeth newydd yn cael ei gwneud i barhau â'r llacio cyhyd ag y bo angen gwneud hynny. Gan hynny, mae'r offeryn hwn yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer trefniadau sy'n parhau ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio, gan addasu effaith y Rheoliad PPE (fel y diwygiwyd ac y'i dargedwir yng nghyfraith y DU) ac effaith sancsiynau o dan Reoliadau 2018.

Mae'r trefniadau hyn yn lleddfu'r gofynion rheoliadol ar gyfer asesu cydymffurfiaeth ar gyfer categorïau penodol o PPE gan gynnal hefyd broses i sicrhau diogelwch hanfodol, am gyfnod cyfyngedig er mwyn cynyddu'r cyflenwad o PPE hanfodol sy'n gysylltiedig â COVID-19 ar y farchnad yn y DU ac ar gyfer gofal iechyd neu weithwyr rheng flaen penodol yn y sector iechyd a gofal. Mae'r llacio yn gyfyngedig o ran amser, gan fod angen cynnal asesiad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) arnynt erbyn dyddiadau penodedig.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud o dan adrannau 45C, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984") er mwyn cynyddu argaeledd PPE a lleihau'r risgiau i iechyd y cyhoedd a achosir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARSCoV-2).

Mae'r offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn unol ag adran 45Q(3) o Ddeddf 1984, gan fod Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'r Rheoliadau hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir trwy rinwedd adran 45C(3)(c) o'r Ddeddf honno sy'n gosod neu'n galluogi gosod cyfyngiad neu ofyniad arbennig, neu unrhyw gyfyngiad neu ofyniad arall sydd wedi neu a fyddai'n cael effaith sylweddol ar hawliau person.

Nid yw'r offeryn hwn yn cael ei wneud o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ond mae'n ymwneud ag ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir oddi tani yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn darparu pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r offeryn hwn yn cael ei wneud o dan adran 45C er mwyn cynyddu argaeledd PPE a lleihau'r risgiau i iechyd y cyhoedd a achosir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARSCoV-2).

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

O dan fframwaith yr UE sy'n gymwys cyn diwedd y Cyfnod Pontio, mae PPE yn gynnyrch sy'n ddarostyngedig i reolau wedi'u cysoni. Mae deddfwriaeth gysoni yr Undeb yn gorff o gyfraith sy'n rheoli gwerthu neu gyflenwi nwyddau wedi'u cysoni at ddibenion masnachol ar y farchnad yn yr Undeb Ewropeaidd. Nodir y gofynion technegol wedi'u cysoni mewn deddfwriaeth ac maent yn berthnasol i bob math o nwyddau o'r math hwn.

Mae'r Rheoliad PPE yn nodi'r rheolau wedi'u cysoni y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir rhoi cynhyrchion PPE ar y farchnad. Diben y ddeddfwriaeth yw sicrhau bod cynhyrchion diogel ac effeithiol yn cael eu rhoi ar y farchnad trwy ei gwneud yn ofynnol i weithgynhyrchwyr ddangos sut y mae eu cynhyrchion yn bodloni'r 'gofynion iechyd a diogelwch hanfodol’.

Yn y DU, mae Rheoliadau 2018 yn darparu system ar gyfer gorfodi'r Rheoliad PPE ac yn dynodi awdurdod gwyliadwriaeth y farchnad. Ym Mhrydain Fawr, awdurdod pwysau a mesuriadau yw hwn neu mewn amgylchiadau lle y mae'r PPE i fod ar gael i weithwyr neu aelodau o'r cyhoedd at ddefnydd nad yw'n breifat, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw hwn.

Ym mis Mawrth 2020, dibynnai'r DU ar Argymhelliad 2020/403 y Comisiwn Ewropeaidd (a ddiweddarwyd ym mis Gorffennaf 2020) a oedd yn cynnwys nifer o gynigion i gyflymu'r cyflenwad o PPE yn ystod yr argyfwng COVID-19, y mae dau ohonynt yn ymwneud â PPE nad yw’n ddyfais feddygol. Yn gyntaf, mae'r trefniadau hyn yn galluogi'r GIG a Gweinidogion Cymru i gaffael PPE nad yw wedi bod yn destun gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth ar gyfer gofal iechyd neu weithwyr rheng flaen penodol yn y sector iechyd a gofal, ar yr amod bod y PPE yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch hanfodol, fel y'u cymeradwywyd gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Yn ail, maent yn caniatáu i PPE y mae’n ofynnol iddo fod yn destun gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth gael ei roi ar y farchnad yn y DU cyn i'r gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth llawn gael eu cwblhau a chyn i nod cydymffurfio gael ei osod arno. Dylid cwblhau'r gweithdrefnau asesu cydymffurfiaeth cyn gynted â phosibl wedi hynny. Rhaid i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fod wedi ardystio hefyd fod y PPE yn bodloni gofynion iechyd a diogelwch hanfodol.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud yr offeryn hwn i roi eglurder ychwanegol a sicrhau nad oes dryswch ar ddiwedd y Cyfnod Pontio, a bod sicrwydd cyfreithiol yn cael ei roi i weithgynhyrchwyr, mewnforwyr a dosbarthwyr PPE y bydd y

trefniadau dros dro sy'n ymwneud â'r broses asesu cydymffurfiaeth yn parhau yn y tymor byr, yng Nghymru. Mae hyn yn hanfodol er mwyn cyflymu'r cyflenwad o PPE hanfodol sy'n gysylltiedig â COVID-19.

**5. Ymgynghori**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol o ystyried bod darpariaethau'r offeryn hwn wedi'u cyfyngu i ymestyn y *status quo*, gan alluogi i'r trefniadau rheoleiddio sy'n hwyluso'r cyflenwad o PPE barhau tra bo'r pandemig COVID-19 yn parhau ac o ystyried yr angen am ymateb brys i sicrhau cyflenwad parhaus o PPE.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Mae angen y Rheoliadau ar fyrder i gynnal y cyflenwad o PPE i'w ddefnyddio yn ystod y pandemig COVID-19 parhaus ac er mwyn galluogi i drefniadau presennol barhau. I'r perwyl hwn, ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodwyd yng Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

# SL(5)697 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hefyd yn rhoi pwerau i bersonau penodedig mewn amgylchiadau penodedig i ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â throseddau a gyflawnir o dan y rheoliadau, gan gynnwys mewn perthynas â throseddau o fethu â chydymffurfio â'r gofynion i ynysu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn:

- rhoi'r newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch o ran statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel sy'n angenrheidiol er mwyn gwarchod iechyd y cyhoedd. Mae Rheoliad 2 yn hepgor y cofnod ar gyfer yr Ynysoedd Dedwydd o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt, tra bod rheoliad 4 yn ychwanegu Botswana a Saudi Arabia at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt; a
- newid swm yr hysbysiad cosb benodedig y caniateir ei ddyroddi o ran methu ynysu o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau yn disodli swm penodedig o £1,000 gyda graddfa symudol sy'n dechrau ar £500 ar gyfer trosedd gyntaf.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth y Cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau masnachol i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru ar lestr neu awyren ddarparu gwybodaeth benodol i deithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â mesurau sy'n cael eu cymryd yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i'r coronafeirws, gan gynnwys mesurau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd er mwyn:

- diwygio swm yr hysbysiad cosb benodedig y caniateir ei ddyroddi o dan Reoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd. Mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio swm yr hysbysiad cosb benodedig o £4,000 gyda graddfa symudol sy'n dechrau ar £1,000 am drosedd gyntaf; ac
- yn gwneud diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn lleihau'r cyfnod y mae'n rhaid i berson ynysu o 14 o ddiwrnodau i 10 niwrnod.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00 am ar 12 Rhagfyr 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau hyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pedwar pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a roddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 11 Rhagfyr 2020. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

Mewn llythyr at y Llywydd oddi wrth Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd dyddiedig 11 Tachwedd 2020, eglurir hefyd fel a ganlyn:

> "*Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei wneud mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol:

> *"oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd."*

Wrth ystyried rheoliadau blaenorol a ddiwygiodd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, adroddodd y Pwyllgor ar absenoldeb asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau diwygio, a'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiadau mewn perthynas â'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)(Diwygio), Rheoliadau Rhif 18 a 19, ar 24 Tachwedd 2020. Yn benodol, nodwn y canlynol:

> *"Mae Rheoliadau wedi eu gwneud i ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, felly ni fu'n bosibl llunio a chyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â hwy. Caiff Asesiad Effaith Integredig o'r gofynion i ynysu ar gyfer teithio rhyngwladol ei gyhoeddi maes o law."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**17 Rhagfyr 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1521 (Cy. 325)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595 (Cy. 136)) ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020 (O.S. 2020/942);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020 (O.S. 2020/1098) (Cy. 249);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020 (O.S. 2020/1133) (Cy. 258);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020 (O.S. 2020/1165) (Cy. 263);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 (O.S. 2020/1191) (Cy. 269);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 (O.S. 2020/1223) (Cy. 277);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 (O.S. 2020/1232) (Cy. 278);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau)

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1237) (Cy. 279);

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1288) (Cy. 286);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020 (O.S. 2020/1329) (Cy. 295);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020 (O.S. 2020/1362) (Cy. 301);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1477) (Cy. 316).

Diwygiwyd y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/1118) (Cy. 253).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hefyd yn rhoi pwerau i bersonau penodedig mewn amgylchiadau penodedig i ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â throseddau a gyflawnir o dan y rheoliadau, gan gynnwys mewn perthynas â throseddau o fethu â chydymffurfio â'r gofynion i ynysu.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau (neu rannau o wledydd a thiriogaethau) a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a'r rhannau o wledydd a thiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor y cofnod ar gyfer yr Ynysoedd Dedwydd o'r

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae rheoliad 4 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn ychwanegu Botswana a Saudi Arabia at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae rheoliadau 3 a 5 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliadau 2 a 4 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio swm yr hysbysiad cosb benodedig y caniateir ei ddyroddi o dan reoliad 16(6) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi graddfa symudol sy'n dechrau ar £500 ar gyfer trosedd gyntaf yn lle'r swm penodedig o £1000.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth y Cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau masnachol i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru ar lestr neu awyren ddarparu gwybodaeth benodol i deithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â mesurau sy'n cael eu cymryd yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i'r coronafeirws, gan gynnwys mesurau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd. Mae rheoliadau 7 a 9 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1477) (Cy. 316) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn lleihau'r cyfnod y mae'n rhaid i berson ynysu o 14 o ddiwrnodau i 10 niwrnod.

Mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio swm yr hysbysiad cosb benodedig y caniateir ei ddyroddi o dan reoliad 7(1) o'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd. Mae rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi graddfa symudol sy'n dechrau ar £1000 am drosedd gyntaf yn lle'r swm penodedig o £4000.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 1521 (Cy. 325)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

*Gwnaed am 2.04 p.m. ar 11 Rhagfyr 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 6.00 p.m. ar 11 Rhagfyr 2020*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 12 Rhagfyr 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 12 Rhagfyr 2020.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd” (“*the Public Health Information Regulations*”) yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy’n Teithio i Gymru etc.) 2020(**1**);

ystyr “y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol” (“*the International Travel Regulations*”) yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**2**).

## RHAN 2

## Diwygiadau i’r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i’r ardal deithio gyffredin yn Atodlen 3 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

### Hepgor gwledydd o’r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i’r ardal deithio gyffredin

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i’r ardal deithio gyffredin), hepgorer y cofnod a ganlyn—

“Yr Ynysoedd Dedwydd”.

### Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person (“P”)—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 12 Rhagfyr 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod yn yr Ynysoedd Dedwydd ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy’n dod i ben â’r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 12 Rhagfyr 2020.

---

(**1**) O.S. 2020/595 (Cy. 136), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/714 (Cy. 160) ac O.S. 2020/1118 (Cy. 253).

(**2**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301) ac O.S. 2020/1477 (Cy. 316).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod yn yr Ynysoedd Dedwydd, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

**Ychwanegiadau at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin**

**4.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), yn y lle priodol mewnosoder—

"Gweriniaeth Botswana"

"Teyrnas Saudi Arabia".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 4**

**5.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan, yn union cyn 4.00 a.m. ar 12 Rhagfyr 2020—

(a) oedd person ("P") yn ddarostyngedig i ofyniad i ynysu yn rhinwedd y ffaith iddo gyrraedd Cymru o wlad a restrir yn rheoliad 4, neu ar ôl bod mewn gwlad o'r fath, a

(b) diwrnod olaf ynysiad P yw 12 Rhagfyr 2020 neu ddiwrnod ar ôl y diwrnod hwnnw.

(2) Nid yw ychwanegu'r gwledydd a restrir yn rheoliad 4 at Ran 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofyniad i ynysu fel y mae'n gymwys i P, nac ar y modd y pennir diwrnod olaf ynysiad P o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

(3) Mae paragraff (4) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4.00 a.m. ar 12 Rhagfyr 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad a restrir yn rheoliad 4 o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(4) At ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, mae'r cwestiwn o ran a yw P wedi cyrraedd Cymru o wlad nad yw'n esempt neu ar ôl bod mewn gwlad o'r fath i'w bennu, mewn perthynas â gwlad a restrir yn rheoliad 4, drwy gyfeirio at ba un a oedd y wlad yn wlad nad oedd yn esempt pan oedd P yno ddiwethaf (ac nid drwy gyfeirio at statws y wlad pan fo P yn cyrraedd Cymru).

(5) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; ac mae cyfeiriadau at ddiwrnod olaf

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ynysiad P i'w dehongli yn unol â rheoliad 12 o'r Rheoliadau hynny.

# RHAN 3

## Diwygiadau i Ran 4 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiadau i Ran 4 (gorfodi a throseddau) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**6.**—(1) Mae rheoliad 16 (hysbysiadau cosb benodedig) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (6), yn lle "rhaid i'r swm a bennir o dan baragraff (5)(c) fod yn £1000" rhodder "mae'r swm a bennir o dan baragraff (5)(c) i fod fel a nodir ym mharagraff (6A)".

(3) Ar ôl paragraff (6), mewnosoder—

"(6A) Mae'r swm a bennir yn gosb benodedig ym mharagraff (6) i fod—

(a) yn achos yr hysbysiad cosb benodedig cyntaf a geir, yn £500;

(b) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a geir, yn £1000;

(c) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig a geir, yn £2000;

(d) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig a geir wedi hynny, yn £4000."

# RHAN 4

## Diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd

**Diwygio rheoliad 6 (troseddau) o'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd**

**7.** Yn rheoliad 6(2) ar ôl "yn" mewnosoder "rheoliad 3(1) neu (3) neu".

**Diwygio rheoliad 7 (hysbysiadau cosb benodedig) o'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd**

**8.** Yn lle rheoliad 7(5) rhodder—

"(5) Mae swm y gosb benodedig a bennir o dan baragraff 4(c) i fod—

(a) yn achos yr hysbysiad cosb benodedig cyntaf a geir, yn £1000;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) yn achos yr ail hysbysiad cosb benodedig a geir, yn £2000;

(c) yn achos y trydydd hysbysiad cosb benodedig a geir, yn £4000;

(d) yn achos y pedwerydd hysbysiad cosb benodedig a geir, ac unrhyw hysbysiad cosb benodedig a geir wedi hynny, yn £10,000."

**Diwygio'r Atodlen i'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd**

**9.**—(1) Yn Rhan 1 o'r Atodlen, yn lle "14 o ddiwrnodau" rhodder "10 niwrnod".

(2) Yn Rhan 2 o'r Atodlen, yn lle "14 o ddiwrnodau" rhodder "10 niwrnod".

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru
Am 2.04 p.m. ar 11 Rhagfyr 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

11 Rhagfyr 2020

**1. Disgrifiad**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Bersonau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, roedd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy’n cyrraedd Cymru o’r tu allan i’r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy’n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – a hunanynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau. O 10 Rhagfyr 2020, mae’r cyfnod hunanynysu wedi’i leihau i 10 niwrnod[1].

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno eithriad rhag y gofyniad ynysu i deithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodedig, a elwir yn "wledydd eithriedig".

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hefyd yn rhoi pwerau i bersonau penodedig mewn amgylchiadau penodedig gyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â throseddau a gyflawnwyd o dan y rheoliadau, gan gynnwys mewn perthynas â throseddau am fethu â chydymffurfio â'r gofynion hunanynysu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn:

i. Gweithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch o ran statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd; a

ii. newid swm yr hysbysiad cosb benodedig y gellir ei roi mewn perthynas â methiant i hunanynysu o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd

Mae Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau teithwyr awyr neu forol masnachol sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin ddarparu gwybodaeth benodol i deithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny, yn ymwneud â mesurau sy'n cael eu cymryd yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i nifer yr achosion o’r coronafeirws a’i ledaeniad, gan gynnwys mesurau sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

[1] Rheoliad 2 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio a Chyfyngiadau Rhyngwladol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd er mwyn:

i. newid swm yr hysbysiad cosb benodedig y gellir ei roi o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd; a
ii. gwneud diwygiadau canlyniadol i adlewyrchu diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio a Chyfyngiadau Rhyngwladol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i leihau'r cyfnod y mae'n ofynnol i berson hunanynysu o 14 o ddiwrnodau i 10 niwrnod.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

*Dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau yn dod i rym llai na 21 o ddiwrnodau ar ôl gosod yr offeryn yn y Senedd.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer yr achosion o'r coronafeirws a'i ledaeniad.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n

ofynnol i deithwyr hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru o’r mannau hynny – yn fwyaf diweddar ar 28 Tachwedd 2020.

Mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd, yn sgil nifer yr achosion o’r coronafeirws a’i ledaeniad, wedi cynyddu yn yr Ynysoedd Dedwydd. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai gofynion hunanynysu yn awr gael eu cyflwyno ar gyfer teithwyr sy’n dod i Gymru o’r gwledydd hynny.

Mae’r Rheoliadau hefyd yn ychwanegu Botswana a Sawdi Arabia at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae hyn wedi’i seilio ar y data a ddaeth i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch sy’n dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil nifer yr achosion o’r coronafeirws a’i ledaeniad wedi lleihau yn y gwledydd hynny. Ni fydd yn ofynnol felly i deithwyr o’r gwledydd hynny hunanynysu pan fyddant yn cyrraedd Cymru.

Bydd y gofynion diwygiedig yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy’n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o’r gwledydd neu’r tiriogaethau hynny am 4.00 a.m. ddydd Sadwrn 12 Rhagfyr 2020 neu wedi hynny.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio swm yr hysbysiad cosb benodedig y gellir ei roi am fethu â chydymffurfio â'r gofynion hunanynysu o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan ddisodli'r swm penodol o £1000 â graddfa symudol sy'n dechrau ar £500 am drosedd gyntaf.

Bydd y newid hwn hefyd yn dod i rym am 4.00 a.m. ddydd Sadwrn 12 Rhagfyr 2020.

<u>Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd</u>

Gwnaed Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar 15 Mehefin a daethant i rym ar 16 Mehefin mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd sy'n cael ei achosi gan nifer yr achosion o’r coronafeirws a'i ledaeniad.

Rhaid adolygu'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd bob 21 o ddiwrnodau a'i gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i faes awyr, hofrenfa neu borthladd yng Nghymru roi gwybodaeth benodol i deithwyr am iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â’r coronafeirws.

Mae'r cyfnod gofynnol o hunanynysu a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar bobl sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor wedi gostwng o 14 o ddiwrnodau i 10 niwrnod o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio a Chyfyngiadau Rhyngwladol) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Reoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd Er mwyn adlewyrchu hyn, mae'r Rheoliadau yn newid y cyfeiriad a wneir yn yr wybodaeth iechyd cyhoeddus sydd i'w darparu i deithwyr o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd o gyfnod hunanynysu o 14 o ddiwrnodau i gyfnod hunanynysu o 10 niwrnod.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio swm yr hysbysiad cosb benodedig y gellir ei roi o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd, gan ddisodli'r swm penodol o £4000 â graddfa symudol sy'n dechrau ar £1000 am drosedd gyntaf.

Bydd y newidiadau hyn i Reoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd hefyd yn dod i rym am 4.00am ddydd Sadwrn 12 Rhagfyr 2020.

Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol na'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a wneir gan y Rheoliadau diwygio diweddaraf yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/4155/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Rhagfyr 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio ymhellach Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Bersonau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

Bydd y Rheoliadau a wneir heddiw yn tynnu'r Ynysoedd Dedwydd o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.  Bydd Gweriniaeth Botswana a Theyrnas Saudi Arabia, yn cael eu hychwanegu at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.  Mae'r Rheoliadau'n gwneud y diwygiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil pobl sy'n cyrraedd o'r gwledydd hynny.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio symiau'r gosb benodedig sy'n daladwy mewn perthynas â throseddau sy'n ymwneud â'r gofyniad i ynysu yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ac mewn perthynas â dyletswyddau ar gludwyr i ddarparu gwybodaeth i deithwyr o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i’r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i adlewyrchu newidiadau a wnaed gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i leihau'r cyfnod y mae'n ofynnol i berson ynysu o 14 diwrnod i 10 diwrnod.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi’r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a’r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

# SL(5)705 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ("gwledydd a thiriogaethau esempt"). Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt.

Mae Rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel na chynhwysir mwyach Weriniaeth Namibia, Uruguay ac Ynysoedd Virgin yr Unol Daleithiau.

Mae Rheoliad 4 hefyd yn gwneud eithriad ychwanegol mewn perthynas â pherson sy'n dod i Gymru sydd wedi'i ryddhau o gyfnod ynysu yn Lloegr o dan gynllun 'Test to Release' (gan Reoliad 4(13A) o Reoliadau 2020 Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Lloegr) 2020 (O.S. 2020/568) i alluogi unrhyw berson sydd â chanlyniad negyddol o dan y system honno i gael mynediad i Gymru mewn amgylchiadau cyfyngedig.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00am ar 19 Rhagfyr 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 18 Rhagfyr 2020.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

Mewn llythyr at y Llywydd oddi wrth Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd dyddiedig 18 Rhagfyr 2020, eglurir hefyd fel a ganlyn:

> *"Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Fel y nodwyd yn ateb Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r Pwyllgor mewn perthynas â Rheoliadau 'Teithio Rhyngwladol' Rhif 18 a Rhif 19, mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Asesiad Effaith Integredig a gyhoeddir yn y dyfodol ar ofynion ynysu yn dilyn teithio rhyngwladol fel y nodir isod.

> *"Mae Rheoliadau wedi eu gwneud i ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, felly ni fu'n bosibl llunio a chyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â hwy. Caiff Asesiad Effaith Integredig o'r gofynion i ynysu ar gyfer teithio rhyngwladol ei gyhoeddi maes o law."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**21 Rhagfyr 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1602 (Cy. 332)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"). Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn flaenorol gan:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 (O.S. 2020/595) (Cy. 136);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/714) (Cy. 160);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/726) (Cy. 163);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/804) (Cy. 177);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/817) (Cy. 179);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/840) (Cy. 185);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/868) (Cy. 190);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 (O.S. 2020/886) (Cy. 196);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 7) 2020 (O.S. 2020/917) (Cy. 205);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2020 (O.S. 2020/944) (Cy. 210);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 9) 2020 (O.S. 2020/962) (Cy. 216);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) 2020 (O.S. 2020/981) (Cy. 220);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2020 (O.S. 2020/1015) (Cy. 226);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (O.S. 2020/1042) (Cy. 231);
- Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020 (O.S. 2020/942);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) 2020 (O.S. 2020/1080) (Cy. 243);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020 (O.S. 2020/1098) (Cy. 249);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) 2020 (O.S. 2020/1133) (Cy. 258);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) 2020 (O.S. 2020/1165) (Cy. 263);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2020 (O.S. 2020/1191) (Cy. 269);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020 (O.S. 2020/1223) (Cy. 277);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020 (O.S. 2020/1232) (Cy. 278);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1237) (Cy. 279);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1288) (Cy. 286);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 20) 2020 (O.S. 2020/1329) (Cy. 295);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 21) 2020 (O.S. 2020/1362) (Cy. 301);
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1477) (Cy. 316); a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/1521) (Cy. 325).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny.

Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Nid yw'n ofynnol i bersonau sy'n dod i Gymru ynysu ar ôl bod mewn un neu ragor o'r gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Cyfeirir at y gwledydd a'r tiriogaethau a restrir yn Atodlen 3 fel "gwledydd a thiriogaethau esempt".

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn hepgor y cofnodion ar gyfer Gweriniaeth Namibia, Uruguay ac Ynysoedd y Wyryf yr Unol Daleithiau.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newid yn statws y gwledydd a'r tiriogaethau hyn. Mae'r ddarpariaeth drosiannol yn ymdrin â maes a all fod yn destun amheuaeth o ran effaith y diwygiadau a wneir gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn ar weithredu'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod, yn rheoliad 8(2) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, eithriad ychwanegol i'r gofyniad i ynysu a nodir yn rheoliad 8(1) i egluro'r sefyllfa o ran person sy'n dod i Gymru sydd wedi ei ryddhau o ynysiad yn Lloegr gan reoliad 4(13A) o

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Lloegr) 2020 (O.S. 2020/568).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1602 (Cy. 332)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2020

*Gwnaed* *am 2.49 p.m. ar 18 Rhagfyr 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *am 5.00 p.m. ar 18 Rhagfyr 2020*

*Yn dod i rym am 4.00 a.m. ar 19 Rhagfyr 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 4.00 a.m. ar 19 Rhagfyr 2020.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd Rhan 2A gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ran 2A wedi ei rhoi i "the appropriate Minister". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**).

## RHAN 2

## Diwygiadau i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Hepgor gwledydd a thiriogaethau o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt**

**2.** Yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gwledydd a thiriogaethau esempt y tu allan i'r ardal deithio gyffredin), hepgorer y cofnodion a ganlyn—

"Gweriniaeth Namibia"

"Uruguay"

"Ynysoedd y Wyryf yr Unol Daleithiau".

**Darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â rheoliad 2**

**3.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yn cyrraedd Cymru am 4:00 a.m. ar 19 Rhagfyr 2020 neu wedi hynny, a

(b) wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2 ddiwethaf—

(i) o fewn y cyfnod o 10 niwrnod sy'n dod i ben â'r diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru, a

(ii) cyn 4.00 a.m. ar 19 Rhagfyr 2020.

(2) Mae P, yn rhinwedd y ffaith iddo fod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn rheoliad 2, i'w drin at ddibenion rheoliadau 7(1) ac 8(1) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel pe bai wedi cyrraedd Cymru o wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt, neu fel pe bai

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy. 132), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160), O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (Cy. 277), O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316) ac O.S. 2020/1521 (Cy. 325).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

wedi cyrraedd ar ôl bod mewn gwlad neu diriogaeth o'r fath.

## RHAN 3

## Diwygiad i Ran 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Diwygiad i Ran 3 (gofyniad i ynysu etc.) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol**

**4.**—(1) Mae Rhan 3 (gofyniad i ynysu etc.) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 8(2)(b) mewnosoder—

"(c) person—

(i) nad yw'n ofynnol iddo ynysu mwyach o dan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Lloegr) 2020(**1**) yn rhinwedd rheoliad 4(13A) o'r Rheoliadau hynny,

(ii) sydd yng Nghymru am un neu ragor o'r rhesymau a restrir yn rheoliad 10(4)(b) i (k) o'r Rheoliadau hyn, a

(iii) sy'n aros yng Nghymru am ddim hwy nag sy'n angenrheidiol."

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Am 2.49 p.m. ar 18 Rhagfyr 2020

(**1**) O.S. 2020/568, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1337; mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

18 Rhagfyr 2020

## 1. Disgrifiad

Yn ddarostyngedig i esemptiadau penodedig, tan 10 Gorffennaf 2020, roedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”) yn ei gwneud yn ofynnol i bob teithiwr sy’n cyrraedd Cymru o’r tu allan i’r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy’n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) ddarparu ei fanylion cyswllt a gwybodaeth am ei daith – ac ynysu am gyfnod o 14 o ddiwrnodau.

Diwygiwyd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn (ymhlith pethau eraill) cyflwyno esemptiad rhag y gofyniad i ynysu ar gyfer teithwyr sy’n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodedig, a elwir yn "wledydd esempt".

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i weithredu newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch yn statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel y bo’n angenrheidiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

*Yn dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd y Rheoliadau yn dod i rym llai na 21 o ddiwrnodau ar ôl gosod yr offeryn yn y Senedd.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae’r Llywodraeth o’r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd

a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau esempt na fyddai'n ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r mannau hynny – yn fwyaf diweddar ar 11 Rhagfyr 2020.

Mae'r cyngor sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws wedi cynyddu yng Ngweriniaeth Namibia, Uruquay ac Ynysoedd y Wyryf yr UD. Ar sail y cyngor hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai gofynion i ynysu yn awr gael eu cyflwyno ar gyfer teithwyr sy'n dod i Gymru o'r gwledydd hynny.

Bydd y gofynion diwygiedig yn dod i rym ar gyfer unrhyw deithwyr sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin o'r gwledydd neu'r tiriogaethau hynny am 4.00 a.m. ddydd Sadwrn 19 Rhagfyr 2020 neu wedi hynny.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn egluro'r sefyllfa o ran caniatáu i berson sy'n dod i Gymru sydd wedi'i ryddhau o'r gofynion hunanynysu yn Lloegr o dan y system 'Profi i Ryddhau' alluogi unrhyw berson sydd wedi cael canlyniad negatif o dan y system honno i gael mynediad i Gymru mewn amgylchiadau cyfyngedig.

Bydd y newidiadau hyn hefyd yn dod i rym am 4.00 a.m. ddydd Sadwrn 19 Rhagfyr 2020.

Ni fydd yr un o'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a wneir gan y Rheoliadau diwygio diweddaraf yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny i bersonau sy'n cyrraedd yr Ardal Deithio Gyffredin cyn i'r diwygiadau ddod i rym.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn fod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## 5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/VG/4463/20

Elin Jones, AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

18 Rhagfyr 2020

Annwyl Lywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 22) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau a wneir heddiw yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ymhellach a bydd Gweriniaeth Namibia, Uruquay ac Ynysoedd y Wyryf yr UD yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.. Mae'r Rheoliadau'n gwneud y newidiadau hyn oherwydd y newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil cyrraedd o'r gwledydd a'r tiriogaethau hynny.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn egluro'r sefyllfa o ran caniatáu i berson sy'n dod i Gymru sydd wedi'i ryddhau o'r gofynion hunanynysu yn Lloegr o dan y system 'Profi i Ryddhau' alluogi unrhyw berson sydd wedi cael canlyniad negatif o dan y system honno i gael mynediad i Gymru mewn amgylchiadau cyfyngedig.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a’r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)** |
| **DYDDIAD** | **17 Rhagfyr 2020** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i sicrhau bod teithwyr sy'n cyrraedd Cymru o wledydd a thiriogaethau tramor yn gorfod hunanynysu am 14 diwrnod a darparu gwybodaeth amdanynt eu hunain fel teithwyr, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

Ar 10 Gorffennaf, diwygiodd Llywodraeth Cymru'r Rheoliadau hyn i gyflwyno eithriadau i'r gofyniad i hunanynysu ar gyfer rhestr o wledydd a thiriogaethau, ac ystod gyfyngedig o bobl mewn sectorau neu gyflogaeth arbenigol a allai fod wedi'u heithrio rhag y gofyniad i hunanynysu neu rhag rhai o ddarpariaethau'r gofynion ynghylch gwybodaeth am deithwyr.

Ers hynny, mae'r Rheoliadau hyn wedi'u hadolygu'n gyson ac mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o wledydd a thiriogaethau sydd wedi'u heithrio.

Heddiw, adolygais asesiadau diweddaraf y Gyd-ganolfan Bioddiogelwch ac rwyf wedi penderfynu y bydd Gweriniaeth Namibia, Uruquay ac Ynysoedd y Wyryf yr UD yn cael eu tynnu oddi ar y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt. Bydd angen i bobl sy'n teithio o'r gwledydd a'r tiriogaethau hynny hunanynysu ar ôl cyrraedd Cymru.

Hefyd, rhoddwyd eglurder ynghylch y sefyllfa o ran person sy'n dod i Gymru sydd wedi'i ryddhau o'r gofyniad i hunanynysu yn Lloegr o dan 'Profi i Ryddhau'. Mae hynny er mwyn ei gwneud yn glir y byddai angen i berson o'r fath gwblhau unrhyw gyfnod hunanynysu sy'n weddill yng Nghymru oni bai ei fod yn dod i mewn at ddiben penodedig ac am ddim mwy na'r angen. Wrth gwrs, byddai unrhyw berson sy'n dod i Gymru hefyd yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau lleol a fyddai ar waith bryd hynny.

Yfory, byddaf yn gosod y rheoliadau angenrheidiol a ddaw i rym am 04:00 ddydd Sadwrn 19 Rhagfyr.

# SL(5)715 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Rhif 5"), gan wneud newidiadau sy'n angenrheidiol am fod risgiau iechyd yn dod i'r amlwg ac yn cael eu hadrodd yn Ne Affrica sy'n dangos bod straen newydd o'r coronafeirws â natur drosglwyddadwy uchel wedi'i nodi.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud y canlynol:

- Estyn y gofyniad ynysu presennol a osodwyd ar deithwyr sy'n dychwelyd o Dde Affrica i bob aelod o aelwyd unrhyw unigolyn sy'n cyrraedd Cymru o 9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr sydd wedi bod yn Ne Affrica yn ystod y 10 diwrnod blaenorol;
- Datgymhwyso'r holl eithriadau yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, fel na chaiff rhywun sy'n cyrraedd Cymru ar ôl bod yn Ne Affrica yn ystod y 10 diwrnod blaenorol ei eithrio o'r gofynion i ddarparu gwybodaeth bersonol neu ynysu;
- Darparu rhestr fwy cyfyngedig na'r arfer o resymau dros adael y cartref dros dro;
- Gwahardd unrhyw awyren neu long sy'n dod yn uniongyrchol o Dde Affrica rhag cyrraedd Cymru ac eithrio am resymau diogelwch (heblaw pan gychwynnodd taith yr awyren neu'r llong cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym).

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad 12C newydd yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae'r dyfynnod cau sy'n dynodi diwedd y geiriad sy'n cael ei ddisodli gan reoliad 12C(8) ar goll.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad 12C newydd yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 12C(1) yn darparu, at ddibenion y rheoliad, fod “gofyniad ynysu” â’r ystyr a roddir gan reoliad 10(2) (o’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol). Mae rheoliad 12C(9) yn cynnwys geiriad tebyg, yn ailadrodd lleoliad diffiniad “gofyniad ynysu” (h.y. cyfeirir y darllenydd eto at reoliad 10(2)).

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru egluro pam yr ymddengys fod rheoliad 12C(9) yn ailadrodd y geiriad a gynhwysir yn rheoliad 12C(1) yn ddiangen.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod rheoliad 12D newydd yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae pennawd rheoliad 12D, yn y fersiwn Saesneg, yn cynnwys y geiriad a ganlyn “...travelling directly from *Denmark*” [*ychwanegwyd y pwyslais*]. Rydym yn cymryd yn ganiataol mai gwall yw hwn ac y dylai'r pennawd ddweud “...travelling directly from South Africa”.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu’r drafft**

Mae rheoliad 4(5) o’r fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau hyn yn ailadrodd y newid a wnaed i reoliad 30 o Reoliadau Rhif 5 - mae’r testun “ynlle 'neu 9(2)' rhodder ', 9(2) neu 11A(2)'” i’w weld ddwywaith. Nid yw'r gwall yn digwydd yn y fersiwn Saesneg.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Nodwn y daeth y Rheoliadau i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhoddodd Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wybod i’r Llywydd am hyn mewn llythyr ar 23 Rhagfyr 2020. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

*"Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd [y Rheoliadau hyn] yn dod i rym cyn [y cânt eu gosod gerbron y Senedd]. Mae hyn yn cael ei ystyried yn ymateb angenrheidiol i'r newyddion bod amrywiad newydd o Covid-19 wedi'i ganfod yn Ne Affrica."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 5; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar frys er mwyn mynd i'r afael â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd technegol a godwyd.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**5 Ionawr 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 1645 (Cy. 345)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 132)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol") a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (O.S. 2020/1609 (W. 335) (y "Rheoliadau Cyfyngiadau").

Mae 3 Rhan i'r Rheoliadau.

Mae Rhan 1 yn darparu bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym am 9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr 2020.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn diwygio y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 2(1) yn mewnosod darpariaethau sy'n ymwneud â De Affrica yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol fel rheoliad 12C newydd. Mae hyn yn darparu pan fydd person wedi bod yn Ne Affrica yn ystod y 10 diwrnod diwethaf ac yn cyrraedd Cymru ar neu ar ôl 9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr 2020, nad yw'r categorïau o bersonau esempt y rhestrir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys. Mae'r gofynion ynysu hefyd yn berthnasol i unrhyw aelodau o aelwyd lle mae'r person yn ynysu. Mae rheoliad 2(2) yn mewnosod rheoliad 12D newydd yn y Rheoliadau hynny i wahardd unrhyw awyren neu long sy'n dod yn uniongyrchol o Dde Affrica rhag cyrraedd Cymru ac eithrio am resymau diogelwch. Mae rheoliad 3 yn darparu nad yw'r rheoliad 12D newydd o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gymwys pan fo taith awyren neu long wedi cychwyn cyn y daeth rheoliad 12D i rym.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn mewnosod darpariaethau newydd sy'n ymwneud â phersonau sydd wedi bod yn Ne Affrica yn ddiweddar yn y Rheoliadau Cyfyngiadau. Mae'r darpariaethau hyn yn darparu, pan fo person yng Nghymru am 9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr 2020 ar ôl cyrraedd o fewn y cyfnod o 10 diwrnod sy'n dod i ben yn union cyn yr amser hwnnw ac wedi bod yn Ne Affrica yn ystod y cyfnod hwnnw, fod angen i'r person hwnnw ac unrhyw aelod o aelwyd y person hwnnw ynysu am gyfnod o 10 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y gadawodd De Affrica.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

# 2020 Rhif 1645 (Cy. 345)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020

*Gwnaed* *23 Rhagfyr 2020*

*Yn dod i rym am 9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *29 Rhagfyr 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

# RHAN 1

## Cyffredinol

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020(**1**);

(b) ystyr "Rheoliadau Cyfyngiadau" yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronavirus) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**2**).

# RHAN 2

## Diwygio Rhan 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol

**Mewnosod darpariaethau newydd sy'n ymwneud â De Affrica**

**2.**—(1) Yn Rhan 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofyniad i ynysu etc.), cyn Rhan 4, mewnosoder—

(**1**) O.S. 2020/574 (Cy. 132) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/595 (Cy. 136), O.S. 2020/714 (Cy. 160) , O.S. 2020/726 (Cy. 163), O.S. 2020/804 (Cy. 177), O.S. 2020/817 (Cy. 179), O.S. 2020/840 (Cy. 185), O.S. 2020/868 (Cy. 190), O.S. 2020/886 (Cy. 196), O.S. 2020/917 (Cy. 205), O.S. 2020/942, O.S. 2020/944 (Cy. 210), O.S. 2020/962 (Cy. 216), O.S. 2020/981 (Cy. 220), O.S. 2020/1015 (Cy. 226), O.S. 2020/1042 (Cy. 231), O.S. 2020/1080 (Cy. 243), O.S. 2020/1098 (Cy. 249), O.S. 2020/1133 (Cy. 258), O.S. 2020/1165 (Cy. 263), O.S. 2020/1191 (Cy. 269), O.S. 2020/1223 (W. 277) ac O.S. 2020/1232 (Cy. 278), O.S. 2020/1237 (Cy. 279), O.S. 2020/1288 (Cy. 286), O.S. 2020/1329 (Cy. 295), O.S. 2020/1362 (Cy. 301), O.S. 2020/1477 (Cy. 316), O.S. 2020/1521 (Cy. 325) ac O.S. 2020/1602 (Cy. 332).

(**2**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S, 2020/1610 (Cy. 336) ac O.S. 2020/1623 (Cy. 340).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**"Rheolau arbennig sy'n berthnasol i bobl sy'n teithio o Dde Affrica**

**12C.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan osodir gofyniad i ynysu (o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2)) ar berson ("P") oherwydd fod P—

(a) wedi cyrraedd Cymru o Dde Affrica, neu

(b) wedi bod yn Ne Affrica o fewn y cyfnod o 10 o ddiwrnodau sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae P yn cyrraedd Cymru.

(2) Mae Rheoliadau 7(1) a 8(1) i'w darllen mewn perthynas â P fel petai cyfeiriadau i "wlad neu diriogaeth nad yw'n esempt" yn gyfeiriadau i "Dde Affrica".

(3) Mae'r gofyniad i ynysu a osodir ar P yn rhinwedd rheoliad 7(1) neu 8(1) fel y'i diwygiwyd gan baragraph (2), hefyd yn cael ei osod ar bob aelod o aelwyd P.

(4) Er gwaethaf rheoliad 9(2), mae rheoliadau 7 ac 8 yn gymwys i P.

(5) Nid yw aelod o aelwyd P wedi'i eithrio o'r gofyniad i ynysu yn rhinwedd rheoliad 9(2).

(6) Yn unol â hynny, nid yw P nac unrhyw aelod o aelwyd P i'w drin fel person a ddisgrifir mewn unrhyw baragraff o Atodlen 2.

(7) At ddibenion rheoliad 10, mae aelod o aelwyd P i'w drin fel pe bai'r person hwnnw yw P.

(8) Mae rheoliad 10 yn gymwys i P (ac aelod o aelwyd P yn rhinwedd paragraff (7)) fel pe bai, yn lle paragraff (4) o'r rheoliad hwnnw, y canlynol yn cael ei amnewid—

"(4) Caniateir i P adael y fangre a bod y tu allan iddi—

(a) am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol—

(i) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen y cynhorthwy hwnnw ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol cofrestredig;

(ii) i osgoi salwch neu anaf neu i ddianc rhag risg o niwed difrifol;

(b) os yw cwnstabl yn dweud fod yn rhaid gwneud hynny.

(9) Yn y rheoliad hwn, mae i "gofyniad i ynysu" yr ystyr a roddir gan reoliad 10(2).""

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Ar ôl rheoliad 12C mewnosoder—

## "RHAN 3B

### Teithio o Dde Affrica

**Gwahardd awyrennau a llestrau rhag teithio'n uniongyrchol o Dde Affrica**

**12D**.—(1) Ni chaiff person sy'n rheoli neu'n gyfrifol am reolaeth awyren neu lestr yr oedd ei man ymadael diwethaf yn De Affrica beri na chaniatáu iddi gyrraedd Cymru, oni fo'n rhesymol angenrheidiol iddi wneud hynny er mwyn sicrhau—

(a) diogelwch yr awyren neu'r llestr, neu.

(b) iechyd a diogelwch unrhyw berson sydd arni.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i—

(a) awyren neu lestr a weithredir yn fasnachol ac nad yw'n cludo unrhyw deithwyr;

(b) awyren neu lestr a weithredir gan Lywodraeth Ei Mawrhydi neu er mwyn cefnogi Llywodraeth Ei Mawrhydi yn y Deyrnas Unedig.

(3) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "cyrraedd" yw—

(i) mewn perthynas ag awyren, glanio;

(ii) mewn perthynas â llestr, angori yn unrhyw fan arall;

(b) ystyr "teithiwr" yw person a gludir mewn awyren neu ar lestr ac eithrio aelod o'i chriw."

(3) Yn rheoliad 14(1)—

(a) yn is-baragraff (e), hepgorer "neu";

(b) yn is-baragraff (f), ar y diwedd mewnosoder "neu";

(c) ar ôl is-baragraff (f) mewnosoder—

"(g)12D(1),".

**Darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â rheoliad 2(2)**

**3.** Nid yw rheoliad 12D o Reoliadau Teithio Rhyngwladol a fewnosodir gan reoliad 2(2) o'r Rheoliadau hyn, yn gymwys mewn cysylltiad ag unrhyw hediad neu daith a gychwynnodd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# RHAN 3

## Diwygiadau i Ran 3 o'r Rheoliadau Cyfyngiadau

**4.**—(1) Mae'r Rheoliadau Cyfyngiadau wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 11 mewnosoder—

**"Gofyniad i ynysu: darpariaeth benodol ar gyfer pobl sydd wedi bod yn Ne Affrica**

**11A.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person ("P")—

(a) yng Nghymru am 9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr 2020,

(b) wedi cyrraedd Cymru o fewn y cyfnod o 10 o ddiwrnodau sy'n dod i ben yn union cyn 9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr 2020, ac

(c) wedi bod yn Ne Affrica o fewn y cyfnod hwnnw.

(2) Oni bai fod rheoliad 11B yn gymwys ni chaiff P, nac unrhyw berson sy'n byw ar yr un aelwyd â P, adael y man lle maent yn byw, neu fod y tu allan iddo, tan ddiwedd y cyfnod o 10 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod y gadawodd P De Affrica.

(3) Os yw swyddog olrhain cysylltiadau yn gofyn am hynny, rhaid i P hysbysu'r swyddog—

(a) am enw pob person sy'n byw yn y man lle y mae P yn byw, a

(b) am gyfeiriad y man hwnnw."

**Gofyniad i ynysu: eithriad penodol ar gyfer pobl sydd wedi bod yn Ne Affrica**

**11B.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys pan fo'n ofynnol i berson beidio ag ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw, neu fod y tu allan iddo, yn rhinwedd rheoliad 11A(2).

(2) Caiff y person ymadael â'r man lle y mae'r person yn byw a bod y tu allan iddo—

(a) i geisio cynhorthwy meddygol, pan fo angen y cynhorthwy hwnnw ar frys neu yn unol â chyngor ymarferydd meddygol cofrestredig;

(b) os yw cwnstabl yn dweud fod yn rhaid gwneud hynny;

(c) er mwyn osgoi salwch difrifol, anaf difrifol neu risg arall o niwed difrifol."

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Yn rheoliad 12, ynlle "neu 9(2)" rhodder ", 9(2) neu 11A(2)".

(3) Yn rheoliad 14(2), ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) pan fo'n ofynnol i berson ynysu yn unol â rheoliad 11A(2), gwybodaeth gyswllt a dyddiad geni'r person, neu, pan fo'r person yn blentyn, manylion cyswllt yr oedolyn a hysbysir ei bod yn ofynnol i'r plentyn ynysu a dyddiad geni'r plenty."

(4) Yn rheoliad 22(4)(a), ynlle "neu 9(2)" rhodder ", 9(2) neu 11A(2)".

(5) Yn rheoliad 30, ynlle "neu 9(2)" rhodder ", 9(2) neu 11A(2)" ynlle "neu 9(2)" rhodder ", 9(2) neu 11A(2)".

(6) Yn rheoliad 40—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (a), ar ôl "9(2)," mewnosoder "11A(2)";

(ii) yn is-baragraff (b), ynlle "neu 9(3)" rhodder ", 9(3) neu 11A(3)";

(b) ym mharagraff (2)(a), ynlle "neu 9(3)" rhodder ", 9(3) neu 11A(3)".

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Iechyd, un o Weinidogion Cymru
23 Rhagfyr 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Diwygio) (Cymru)  2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

29 Rhagfyr 2020

## 1. Disgrifiad

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (“Y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 (“Rheoliadau Rhif 5”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a osodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984 (c. 22) (“Deddf 1984”). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb i ddrafft gael ei osod na'i gymeradwyo gan y Senedd. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, fod angen gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo felly fel y gellir cymryd camau iechyd cyhoeddus er mwyn ymateb yn gyflym i fygythiad y coronafeirws i iechyd pobl. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion fel y'u nodir yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd cyhoeddus i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â’r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 5; mae’r Llywodraeth o’r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.

*Yn dod i rym*

Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bod y Rheoliadau wedi dod i rym cyn iddynt gael eu gosod am fod angen ymateb ar frys i’r newidiadau a nodwyd yn y risg i iechyd cyhoeddus a achosir gan bobl yn cyrraedd o Dde Affrica.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984.

Mae'r Memoranda Esboniadol i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a Rheoliadau Rhif 5 yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaed y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol ar 5 Mehefin 2020 a daethant i rym ar 8 Mehefin 2020 mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2).

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae newidiadau wedi'u gwneud i'r rhestr o'r gwledydd a'r tiriogaethau eithriedig na fyddai'n ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru o'r mannau hynny. Nid yw De Affrica ar y rhestr eithriedig ar hyn o bryd, felly mae eisoes yn ofynnol i deithwyr ynysu ar ôl cyrraedd Cymru, ond mae diwygiadau pellach yn cael eu gwneud i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ymestyn y gofyniad ynysu hwn i bob aelod o aelwyd unrhyw unigolyn sy'n cyrraedd Cymru o 9.00am ar 24 Rhagfyr.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn datgymhwyso'r holl eithriadai sectoraidd yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Cyfyngiadau Teithio, fel na all unrhyw unigolyn sy'n cyrraedd Cymru sydd wedi bod yn Ne Affrica yn ystod y 10 diwrnod blaenorol fod wedi'i eithrio o'r gofynion i ddarparu gwybodaeth bersonol nac ynysu. Bydd rhestr fwy cyfyngedig na'r arfer o resymau dros adael y cartref dros dro yn gymwys hefyd, fel rhan o'r ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd.

Mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol am fod risgiau iechyd yn dod i'r amlwg ac yn cael eu hadrodd yn Ne Affrica sy'n dangos bod straen newydd o'r coronafeirws â natur drosglwyddadwy uchel wedi'i nodi.

Er mwyn gallu ymateb yn effeithiol i'r sefyllfa sy'n dod i'r amlwg, mae newidiadau wedi'u gwneud hefyd i Reoliadau Rhif 5, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un a gyrhaeddodd Gymru cyn 9.00am ar 24 Rhagfyr ar ôl bod yn Ne Affrica yn ystod y 10 diwrnod blaenorol ynysu am 10 diwrnod o'r dyddiad y bu yn Ne Affrica ddiwethaf. Estynnir y gofyniad hwn hefyd i unrhyw aelod o aelwyd yr unigolyn hwnnw.

Yn olaf, gosodir cyfyngiadau yn y Rheoliadau Cyfyngiadau Teithio sy'n atal llongau ac awyrennau rhag cyrraedd Cymru yn uniongyrchol o Dde Affrica o 9am ar 24 December.

Mae'r diwygiadau hyn yn cyd-daro â gweithredu pwerau mewnforio Llywodraeth y DU, a fydd yn gwrthod mynediad i bob teithiwr nad yw'n wladolyn Prydeinig nac yn breswylydd Prydeinig sy'n cyrraedd ffiniau'r DU o 9:00am ddydd Iau 24 Rhagfyr.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r gofynion newydd hyn yn effeithiol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru bellach yn cysylltu ar frys â holl drigolion Cymru sydd wedi bod yn Ne Affrica yn ystod y 10 diwrnod diwethaf i esbonio'r gofynion ynysu newydd.

**5. Ymgynghori**

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/VG/4524/20

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

23 Rhagfyr 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020 o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 9.00 a.m. ar 24 Rhagfyr. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig ar Ddydd Mawrth 29 Rhagfyr.

Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym cyn y gellid ei osod. Mae hyn yn cael ei ystyried yn ymateb angenrheidiol i'r newyddion bod amrywiad newydd o Covid-19 wedi'i ganfod yn Ne Affrica. Mae'r amrywiad hwn yn wahanol i'r amrywiad yn y DU a adroddwyd i'r WHO ar 10 Rhagfyr (SARS-CoV-2 VUI 202012/01) ond gall rannu eiddo tebyg o ran trosglwyddiad uwch, sy'n cynyddu'r ystyried y dystiolaeth sy'n newid ar y risg a berir gan deithwyr o Dde Affrica mewn perthynas â'r clefyd hwn, a hefyd yr angen i sicrhau y gellir cynnal dull pedair gwlad o deithio rhyngwladol.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 7 Chwefror 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Ionawr 2021.


Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020 |
| **DYDDIAD** | **23 Rhagfyr 2020** |
| **GAN** | **Vaughan Gething, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Bydd yr aelodau yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud darpariaeth yn Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 i sicrhau bod yn rhaid i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru o wledydd a thiriogaethau tramor ynysu am 14 diwrnod (lleihawyd yn ddiweddarach i 10 diwrnod) a darparu gwybodaeth bersonol, er mwyn atal y coronafeirws rhag lledaenu ymhellach. Daeth y cyfyngiadau hyn i rym ar 8 Mehefin 2020.

**50.** Llyfrgelloedd ysbytai a llyfrgelloedd mewn sefydliadau addysgol.

**51.** Trefnwyr angladdau.

**52.** Milfeddygon.

*Busnesau bwyd a diod.*

**53.** Caffis a ffreuturau mewn ysbyty, cartref gofal, ysgol neu mewn llety a ddarperir ar gyfer myfyrwyr.

**54.** Ffreuturau mewn carchar neu sefydliad y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr neu at ddibenion Adran yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am amddiffyn.

*Manwerthu etc.*

**55.** Busnesau sy'n cynnig y nwyddau a ganlyn ar gyfer eu gwerthu neu eu llogi mewn siop—

(a) bwyd neu ddiod i'w fwyta neu i'w hyfed oddi ar y fangre (gan gynnwys bwyd ar gyfer anifeiliaid anwes ac anifeiliaid domestig arall);

(b) cynhyrchion sy'n hanfodol ar gyfer storio a pharatoi bwyd neu ddiod neu ar gyfer bwyta bwyd neu yfed diod;

(c) cynhyrchion ar gyfer cynnal, cynnal a chadw neu weithrediad hanfodol y cartref neu weithle;

(d) cynhyrchion fferyllol, cynhyrchion iechyd a gofal personol, cynhyrchion babanod (gan gynnwys dillad), cynhyrchion ymolchi a chynhyrchion cosmetig;

(e) papurau newydd a chylchgronau;

(f) beiciau a chynhyrchion sy'n hanfodol ar gyfer defnyddio a chynnal a chadw beiciau,

ond dim ond at ddibenion gwerthu neu logi'r nwyddau hynny.

**56.** Marchnadoedd bwyd, siopau cyfleustra, siopau cornel, siopau anifeiliaid anwes, siopau sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed oddi ar eu mangreoedd a gorsafoedd petrol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**57.** Archfarchnadoedd a siopau eraill sy'n gwerthu sawl math o nwyddau ond dim ond at ddibenion—

(a) gwerthu'r nwyddau a restrir ym mharagraff 55;

(b) gwerthu nwyddau o fath a werthir fel arfer gan unrhyw un neu ragor o'r busnesau a restrir yn is-baragraff 56;

(c) gwerthu nwyddau eraill—

(i) pan na fo'n rhesymol ymarferol gwahanu neu ddarnodi'r ardaloedd hynny o siop sy'n arddangos nwyddau o'r fath fel arfer oddi wrth yr ardaloedd hynny sy'n arddangos y nwyddau a grybwyllir ym mharagraffau (a) a (b);

(ii) ar sail eithriadol pan fo angen y nwyddau mewn argyfwng neu ar sail dosturiol.

**58.** Siopau sy'n cynnig gwasanaethau cynnal a chadw neu atgyweirio ar gyfer dyfeisiau telathrebu neu dechnoleg gwybodaeth.

**59.** Siopau cyflenwadau adeiladu ac offer.

**60.** Banciau, cymdeithasau adeiladu a darparwyr gwasanaethau ariannol eraill.

**61.** Swyddfeydd post.

**62.** Gwasanaethau trwsio ceir ac MOT.

**63.** Marchnadoedd neu arwerthiannau da byw.

**64.** Golchdai a siopau sychlanhau.

**65.** Busnesau tacsi neu logi cerbydau.

**66.** Siopau cyflenwadau amaethyddol neu ddyframaethu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## ATODLEN 5

Rheoliad 4(8)

### Ardaloedd

**1.** Dyma'r tabl y cyfeirir ato yn rheoliad 4(8)—

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* |
|---|---|---|
| | ***Ardal*** | ***Lefel Rhybudd yr Ardal*** |
| 1 | Cymru gyfan | 3<br>tan 6.00 p.m. ar 25 Rhagfyr 2020<br><br>4<br>o 6.00 p.m. ar 25 Rhagfyr 2020 |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 6

Rheoliad 4(7)

## Addasiadau dros dro ar gyfer y Nadolig: aelwydydd estynedig a theithio

**Y Nadolig: addasiadau dros dro i gyfyngiadau ar gynulliadau mewn anheddau preifat a chyfyngiadau ar deithio**

**1.** Yn ystod y cyfnod sy'n dechrau â 22 Rhagfyr 2020 ac sy'n dod i ben â 28 Rhagfyr 2020 mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yn ddarostyngedig i'r addasiadau yn yr Atodlen hon.

**Diffiniad o "cyfnod y Nadolig"**

**2.** Yn rheoliad 57(1) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

"(da) ystyr "cyfnod y Nadolig" yw'r cyfnod sy'n dechrau â 23 Rhagfyr 2020 ac sy'n dod i ben â 27 Rhagfyr 2020 (ond gweler paragraff 3A o Atodlen 3 a pharagraff 3A o Atodlen 4)."

**Aelwydydd estynedig yn ystod cyfnod y Nadolig**

**3.**—(1) Mae Atodlen 3 wedi ei haddasu fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 3 rhodder—

**"Y Nadolig: aelwyd estynedig**

**3.**—(1) Caiff aelwyd gytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig gydag aelwyd arall yn ystod cyfnod y Nadolig.

(2) Yn ychwanegol at y 2 aelwyd sydd wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan is-baragraff (1), caiff 1 aelwyd un oedolyn hefyd gytuno i gael ei thrin fel rhan o'r aelwyd estynedig honno.

(3) Er mwyn cytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig, rhaid i'r holl aelodau o'r aelwyd estynedig sy'n oedolion gytuno (ond gweler is-baragraff (4)).

(4) Caiff aelod o aelwyd ("aelwyd wreiddiol") sy'n oedolyn gytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig nad yw aelod arall o'r aelwyd wreiddiol sy'n oedolyn wedi cytuno i fod yn rhan ohoni.

(5) Pan fo is-baragraff (5) yn gymwys—

(a) mae'r aelwyd wreiddiol i'w thrin at ddibenion y paragraff hwn a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

pharagraffau 1, 2 a 3A fel 2 aelwyd (neu ragor) ar wahân,

(b) rhaid i'r aelodau o'r aelwyd wreiddiol sy'n oedolion benderfynu pa un neu ragor o'r aelwydydd ar wahân hynny sy'n cynnwys unrhyw aelod o'r aelwyd wreiddiol sy'n—

(i) plentyn, neu

(ii) oedolyn y mae gan oedolyn arall ar yr aelwyd gyfrifoldebau gofalu drosto, ac

(c) mae'r aelodau o'r aelwyd wreiddiol sy'n oedolion i ddychwelyd i gael eu trin fel un aelwyd pan nad ydynt yn rhan o aelwyd estynedig mwyach.

(6) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai mewn 1 aelwyd estynedig.

(7) Mae aelwyd yn peidio â chytuno i fod yn rhan o aelwyd estynedig os yw unrhyw aelod o'r aelwyd sy'n oedolyn yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig.

(8) Os yw aelwyd yn peidio â chytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig, ni chaiff yr aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig arall gydag unrhyw aelwyd arall.

(9) Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at aelwyd estynedig yn gyfeiriadau at aelwyd estynedig a ffurfir o dan neu yn rhinwedd y paragraff hwn.

**Addasu "cyfnod y Nadolig": aelwydydd sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon**

**3A.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo aelwyd sy'n ffurfio rhan o aelwyd estynedig yn aelwyd sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon.

(2) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff 3(1) at "cyfnod y Nadolig" i'w ddarllen fel cyfeiriad at y cyfnod sy'n dechrau â 22 Rhagfyr 2020 ac sy'n dod i ben â 28 Rhagfyr 2020."

**4.**—(1) Mae Atodlen 4 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff 3 (aelwydydd estynedig) rhodder—

**"Y Nadolig: aelwyd estynedig**

**3.**—(1) Caiff aelwyd gytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig gydag aelwyd arall yn ystod cyfnod y Nadolig.

(2) Yn ychwanegol at y 2 aelwyd sydd wedi cytuno i gael eu trin fel aelwyd estynedig o dan

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

is-baragraff (1), caiff 1 aelwyd un oedolyn hefyd gytuno i gael ei thrin fel rhan o'r aelwyd estynedig honno.

(3) Er mwyn cytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig rhaid i holl aelodau'r aelwydydd sy'n oedolion gytuno (ond gweler is-baragraff (4)).

(4) Caiff aelod o aelwyd ("aelwyd wreiddiol") sy'n oedolyn gytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig nad yw aelod arall o'r aelwyd wreiddiol sy'n oedolyn wedi cytuno i fod yn rhan ohoni.

(5) Pan fo is-baragraff (4) yn gymwys—

(a) mae'r aelwyd wreiddiol i'w thrin at ddibenion y paragraff hwn a pharagraffau 1, 2 a 3A fel 2 aelwyd (neu ragor) ar wahân,

(b) rhaid i'r aelodau sy'n oedolion o'r aelwyd wreiddiol benderfynu pa un neu ragor o'r aelwydydd ar wahân hynny sy'n cynnwys unrhyw aelod o'r aelwyd wreiddiol sy'n—

(i) plentyn, neu

(ii) oedolyn y mae gan oedolyn arall ar yr aelwyd gyfrifoldebau gofalu drosto, ac

(c) mae'r aelodau o'r aelwyd wreiddiol sy'n oedolion i ddychwelyd i gael eu trin fel un aelwyd pan nad ydynt yn rhan o aelwyd estynedig mwyach.

(6) Ni chaiff aelwyd ond cytuno i gael ei thrin fel pe bai mewn 1 aelwyd estynedig.

(7) Mae aelwyd estynedig yn peidio â chael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig os yw unrhyw aelod o'r aelwyd sy'n oedolyn yn peidio â chytuno i gael ei drin fel pe bai'n rhan o'r aelwyd estynedig.

(8) Os yw aelwyd yn peidio â chytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig, ni chaiff yr aelwyd gytuno i gael ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig arall gydag unrhyw aelwyd arall.

(9) Yn yr Atodlen hon, mae cyfeiriadau at aelwyd estynedig yn gyfeiriadau at aelwyd estynedig a ffurfir o dan neu yn rhinwedd y paragraff hwn.

**Addasu "cyfnod y Nadolig": aelwydydd sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon**

**3A.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan fo aelwyd sy'n ffurfio rhan o aelwyd estynedig yn aelwyd sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff 3(1) at "cyfnod y Nadolig" i'w ddarllen fel cyfeiriad at y cyfnod sy'n dechrau â 22 Rhagfyr 2020 ac sy'n dod i ben â 28 Rhagfyr 2020."

(3) Ym mharagraff 7—

(a) yn is-baragraff (2)(b), hepgorer "(pan fo'r gwesty neu'r llety arall yn parhau i weithredu yn unol â'r eithriadau a ganiateir gan baragraff 8)";

(b) ar ôl is-baragraff (4) mewnosoder—

"(5) Mae is-baragraffau (6) a (7) yn gymwys pan fo mangre busnes bwyd a diod ("y fangre o dan gyfyngiadau") yn ffurfio rhan o fangre'r llety gwyliau neu'r llety teithio.

(6) Nid yw is-baragraff (1)—

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i'r fangre o dan gyfyngiadau fod ar gau i breswylwyr y llety gwyliau neu'r llety teithio;

(b) yn atal gwerthu bwyd neu ddiod i breswylwyr —

(i) fel rhan o wasanaeth ystafell (ond gweler paragraff 11(3)), neu

(ii) rhwng 6.00 a.m. a 10.00 p.m. mewn unrhyw ran o fangre'r llety gwyliau neu'r llety teithio."

(4) Yn lle paragraff 8 rhodder—

"**Gwestai a llety teithio: gofynion ynghylch preswylwyr**

**8.**—(1) O ran person sy'n gyfrifol am gynnal busnes a restrir ym mharagraff 15 i 18 (llety gwyliau neu lety teithio), erbyn diwedd y dydd ar 27 Rhagfyr 2020—

(a) rhaid iddo gau i aelodau'r cyhoedd unrhyw fangre a weithredir fel rhan o'r busnes, a

(b) ni chaiff gynnal busnes yn y fangre honno ac eithrio yn unol â'r paragraff hwn.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn atal—

(a) gwneud gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio neu waith arall i sicrhau bod mangre yn addas i'w defnyddio pan nad yw is-baragraff (1) yn gymwys i'r fangre mwyach;

(b) defnyddio mangre at unrhyw ddiben y mae Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol yn gofyn amdano neu'n ei awdurdodi;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) darparu llety i unrhyw bersonau sy'n aros yn y llety hwnnw pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym ac—

(i) nad ydynt yn gallu dychwelyd i'w prif breswylfa, or

(ii) sy'n defnyddio'r llety fel eu prif breswylfa;

(d) darparu llety i unrhyw bersonau sy'n aros yn y llety hwnnw ac sy'n teithio i Ogledd Iwerddon ar 28 Rhagfyr 2020;

(e) defnyddio mangre i gynnal y busnes drwy ddarparu gwybodaeth neu wasanaethau eraill —

(i) drwy wefan, neu fel arall drwy gyfathrebiad ar lein,

(ii) dros y ffôn, gan gynnwys ymholiadau drwy neges destun, neu

(iii) drwy'r post.

(3) Pan—

(a) bo'n ofynnol i berson sy'n gyfrifol am gynnal busnes ("busnes A") yn rhinwedd y paragraff hwn beidio â chynnal busnes A mewn mangre, a

(b) bo busnes A yn ffurfio rhan o fusnes mwy ("busnes B"),

cydymffurfir â'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw'r person sy'n gyfrifol am gynnal busnes B yn peidio â chynnal busnes A yn y fangre."

**Darpariaeth drosiannol ynghylch aelwydydd estynedig**

**5.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

(a) pan fo aelwyd yn rhan o aelwyd estynedig yn ystod cyfnod y Nadolig yn rhinwedd yr addasiadau a wneir ym mharagraff 3 neu 4 o'r Atodlen hon ("aelwyd estynedig y Nadolig"), a

(b) pan oedd yr aelwyd, yn union cyn cyfnod y Nadolig, yn rhan o aelwyd estynedig a ffurfiwyd o dan neu yn rhinwedd paragraff 3 o Atodlen 3 ("aelwyd estynedig cyn y Nadolig") fel y mae'n gymwys heb yr addasiadau a wneir ym mharagraff 3.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn fel y'u haddesir gan yr Atodlen hon—

(a) mae'r aelwyd estynedig cyn y Nadolig i'w thrin fel pe na bai'n bodoli mwyach, a

(b) mae'r aelwyd i'w thrin fel pe na bai wedi cytuno i gael ei thrin fel aelwyd estynedig cyn

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

cytuno i ffurfio rhan o aelwyd estynedig y Nadolig.

(3) Yn union ar ddiwedd cyfnod y Nadolig, mae'r aelwyd i'w thrin, at ddibenion y Rheoliadau hyn, fel pe na bai wedi gwneud unrhyw gytundeb blaenorol i gael ei thrin fel rhan o aelwyd estynedig.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr "cyfnod y Nadolig" mewn perthynas ag aelwyd yw—

(a) y cyfnod sy'n dechrau â 23 Rhagfyr 2020 ac sy'n dod i ben â 27 Rhagfyr 2020, neu

(b) pan fo'r aelwyd—

(i) yn byw yng Ngogledd Iwerddon, neu

(ii) yn rhan o aelwyd estynedig y Nadolig gydag aelwyd sy'n byw yng Ngogledd Iwerddon,

y cyfnod sy'n dechrau â 22 Rhagfyr 2020 ac sy'n dod i ben â 28 Rhagfyr 2020.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 7

Rheoliad 15

## Mangreoedd rheoleiddiedig

*Busnesau bwyd a diod*

**1.** Bariau (gan gynnwys bariau mewn clybiau aelodau).

**2.** Tafarndai.

**3.** Caffis, ffreuturau a bwytai (gan gynnwys ffreuturau yn y gweithle ac ystafelloedd bwyta mewn clybiau aelodau).

*Llety gwyliau a llety teithio*

**4.** Safleoedd gwersylla.

**5.** Safleoedd gwyliau.

**6.** Gwestai a llety gwely a brecwast.

**7.** Llety gwyliau arall (gan gynnwys fflatiau gwyliau, hostelau a thai byrddio).

*Gwasanaethau cyhoeddus etc.*

**8.** Gwasanaethau meddygol neu iechyd.

**9.** Gwasanaethau ailgylchu a gwastraff.

**10.** Canolfannau cymunedol.

**11.** Llyfrgelloedd a gwasanaethau archifau.

**12.** Addoldai.

**13.** Trefnwyr angladdau.

**14.** Amlosgfeydd.

**15.** Milfeddygon.

*Gwasanaethau personol etc.*

**16.** Salonau gwallt a barbwyr.

**17.** Salonau ewinedd a harddwch gan gynnwys gwasanaethau lliw haul ac electrolysis.

**18.** Gwasanaethau tyllu'r corff a thatŵio.

*Hamdden a chymdeithasol etc.*

**19.** Sinemâu.

**20.** Neuaddau cyngerdd a theatrau.

**21.** Casinos.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**22.** Neuaddau bingo.

**23.** Arcedau diddanu.

**24.** Alïau bowlio.

**25.** Canolfannau neu fannau chwarae o dan do.

**26.** Meysydd chwarae.

**27.** Ffeiriau pleser, parciau diddanu a pharciau thema.

**28.** Busnesau gwyliau, gweithgareddau hamdden neu ddigwyddiadau.

**29.** Amgueddfeydd ac orielau.

**30.** Rinciau sglefrio.

**31.** Parciau a chanolfannau trampolîn.

**32.** Parciau a chanolfannau sglefrio o dan do.

**33.** Sbaon.

**34.** Lleoliadau ar gyfer digwyddiadau neu gynadleddau (gan gynnwys lleoliadau ar gyfer priodasau).

**35.** Atyniadau i ymwelwyr.

*Chwaraeon ac ymarfer corff*

**36.** Cyfleusterau chwaraeon neu ymarfer corff, gan gynnwys stiwdios ffitrwydd o dan do a champfeydd.

**37.** Pyllau nofio.

**38.** Cyrtiau chwaraeon, lawntiau bowlio, cyrsiau golff a meysydd neu leiniau chwaraeon amgaeedig (boed yn yr awyr agored neu o dan do).

*Manwerthu etc.*

**39.** Unrhyw fusnes sy’n cynnig nwyddau neu wasanaethau ar gyfer eu gwerthu neu eu llogi mewn mangre fanwerthu, gan gynnwys—

(a) tai arwerthiant;

(b) delwriaethau ceir;

(c) marchnadoedd;

(d) siopau betio;

(e) canolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion;

(f) fferyllfeydd (gan gynnwys fferyllfeydd nad ydynt yn darparu cyffuriau ar bresgripsiwn) a siopau cemist;

(g) banciau, cymdeithasau adeiladu a darparwyr gwasanaethau ariannol eraill;

(h) swyddfeydd post;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) gwasanaethau trwsio ceir ac MOT;

(j) marchnadoedd neu arwerthiannau da byw;

(k) golchdai a siopau sychlanhau;

(l) gorsafoedd petrol;

(m) busnesau tacsi neu logi cerbydau.

**40.** Canolfannau siopa ac arcedau siopa.

**41.** Cyfleusterau storio a dosbarthu, gan gynnwys mannau gollwng danfoniadau.

**42.** Asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr a chartrefi arddangos.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# ATODLEN 8

Rheoliad 26

## Gorfodi gofyniad i gymryd mesurau ataliol mewn mangre reoleiddiedig

### Hysbysiad gwella mangre

**1.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad gwella mangre") i berson cyfrifol os yw'r swyddog yn ystyried—

(a) nad yw'r person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir ar y person gan reoliad 16 neu 17, a

(b) bod y mesurau a bennir yn yr hysbysiad yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn sicrhau bod y person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau hynny.

(2) Rhaid i hysbysiad gwella mangre—

(a) pennu'r fangre y mae'n ymwneud â hi;

(b) pennu'r mesurau y mae'n ei gwneud yn ofynnol eu cymryd er mwyn sicrhau bod y person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 16 neu 17;

(c) pennu terfyn amser y mae rhaid cymryd y mesurau oddi mewn iddo (na chaniateir iddo fod yn llai nag 48 awr sy'n dechrau â'r amser y dyroddir yr hysbysiad);

(d) rhoi manylion yr hawl i apelio a roddir gan baragraff 5.

(3) Yn yr Atodlen hon, mae i "person cyfrifol" yr ystyr a roddir gan reoliad 15(2).

### Hysbysiad cau mangre

**2.**—(1) Os yw naill ai amod 1 neu amod 2 wedi ei fodloni, caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad ("hysbysiad cau mangre") i berson cyfrifol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r fangre, neu ran o'r fangre, gael ei chau.

(2) Amod 1 yw—

(a) bod hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi i'r person,

(b) bod y swyddog gorfodaeth yn ystyried bod y person wedi methu â chymryd y mesurau a bennir yn yr hysbysiad gwella mangre o fewn y terfyn amser penodedig, ac

(c) bod y swyddog yn ystyried bod cau'r fangre, neu ran o'r fangre, yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Amod 2 yw bod y swyddog gorfodaeth yn ystyried—

(a) nad yw'r person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 16 neu 17, a

(b) bod cau'r fangre, neu ran o'r fangre, (heb fod hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi) yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws.

(4) Rhaid i hysbysiad cau mangre—

(a) cynnwys disgrifiad o'r fangre sydd i'w chau,

(b) pan fo hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi, nodi'r mesurau y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried—

(i) nad ydynt wedi eu cymryd, a

(ii) y mae rhaid eu cymryd er mwyn sicrhau bod y person cyfrifol yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 16 neu 17,

(c) pan na fo hysbysiad gwella mangre wedi ei ddyroddi, nodi'r rhesymau pam y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried nad yw'r person yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau a osodir gan reoliad 16 neu 17,

(d) yn y naill achos neu'r llall, nodi'r rhesymau pam y mae'r swyddog gorfodaeth yn ystyried bod cau'r fangre yn angenrheidiol ac yn gymesur at ddiben lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws,

(e) pennu'r cyfnod y mae'r hysbysiad yn cael effaith amdano, ac

(f) rhoi manylion yr hawl i apelio a roddir gan baragraff 5.

(5) Ni chaniateir i'r cyfnod a bennir o dan is-baragraff (4)(e) fod yn hwy na 672 o oriau (28 o ddiwrnodau) sy'n dechrau â'r amser y dyroddir yr hysbysiad.

(6) Mae hysbysiad cau mangre yn cael effaith o'r amser y'i dyroddir neu o amser diweddarach a bennir yn yr hysbysiad.

(7) Ni chaniateir dyroddi hysbysiad cau mangre mewn perthynas â mangre sy'n rhan o seilwaith hollbwysig (er enghraifft, mangre a ddefnyddir i gynhyrchu trydan neu gyflenwi dŵr) neu a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

(8) Pan fo—

(a) swyddog gorfodaeth yn ystyried bod person cyfrifol wedi methu â chymryd y mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre o fewn y terfyn amser penodedig, a

(b) naill ai—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) hysbysiad cosb benodedig wedi ei ddyroddi, neu

(ii) achos wedi ei ddwyn am drosedd,

mewn perthynas â'r methiant hwnnw,

caiff y swyddog gorfodaeth serch hynny ddyroddi hysbysiad cau mangre o dan is-baragraff (1).

**Effaith hysbysiad cau mangre**

**3.**—(1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i hysbysiad cau mangre gymryd effaith, rhaid i'r person y'i dyroddir iddo sicrhau—

(a) bod y fangre y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi yn cael ei chau, a

(b) na chynhelir unrhyw fusnes neu na ddarperir unrhyw wasanaeth yn y fangre neu ohoni.

(2) Ni chaiff unrhyw berson fynd i'r fangre, neu fod yn y fangre, sydd wedi ei chau o dan is-baragraff (1) heb esgus rhesymol.

(3) At ddibenion is-baragraff (2), mae'r amgylchiadau pan fo gan berson esgus rhesymol yn cynnwys—

(a) pan fo'r person yn byw yn y fangre;

(b) pan fo'r person yn gwneud gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio hanfodol;

(c) pan fo'r person yn gwneud pethau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau y gellir cydymffurfio â rheoliad 16 a, phan fo'n berthnasol, reoliad 17, pan ganiateir i'r fangre fod ar agor;

(d) pan fo'r person yn swyddog gorfodaeth neu berson sy'n cynorthwyo swyddog gorfodaeth;

(e) pan fo'n angenrheidiol i'r person fod yn y fangre er mwyn osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed.

**Terfynu hysbysiad gwella neu gau mangre**

**4.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth ddyroddi hysbysiad sy'n terfynu hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre os yw wedi ei fodloni—

(a) bod y mesurau a bennir yn yr hysbysiad gwella mangre (os dyroddwyd un) wedi eu cymryd, neu

(b) bod mesurau eraill wedi eu cymryd i sicrhau y gellir cydymffurfio â rheoliad 16 a, phan fo'n berthnasol, reoliad 17 yn y fangre o dan sylw.

(2) Mae hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre yn peidio â chael effaith ar yr amser y dyroddir hysbysiad o'r terfyniad.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Apelau**

**5.**—(1) Caiff person y dyroddir hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre iddo apelio i lys ynadon yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Rhaid i apêl gael ei wneud—

(a) drwy gŵyn am orchymyn, ac yn unol â Deddf Llysoedd Ynadon 1980, a

(b) o fewn 7 niwrnod ar ôl y diwrnod y dyroddir yr hysbysiad.

(3) Ond caiff llys ynadon ganiatáu i apêl gael ei gwneud ar ôl diwedd y cyfnod a grybwyllir yn is-baragraff (2)(b) os yw wedi ei fodloni bod rheswm da dros fethu ag apelio cyn diwedd y cyfnod hwnnw (a thros unrhyw oedi cyn gwneud cais am ganiatâd i apelio y tu allan i amser).

(4) Caiff llys ynadon atal dros dro effaith hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre wrth aros am y penderfyniad ar yr apêl.

(5) Ar apêl yn erbyn hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre, caiff llys ynadon—

(a) cadarnhau'r penderfyniad i ddyroddi'r hysbysiad;

(b) cyfarwyddo bod yr hysbysiad i beidio â chael effaith;

(c) addasu'r hysbysiad;

(d) gwneud unrhyw orchymyn arall y mae'r llys yn ystyried ei fod yn briodol.

(6) Os yw'r llys ynadon yn cyfarwyddo bod hysbysiad i beidio â chael effaith neu'n addasu hysbysiad, caiff orchymyn i'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r fangre o dan sylw ddigolledu'r person sy'n gyfrifol am y fangre am golled a ddioddefir o ganlyniad i ddyroddi'r hysbysiad.

(7) Caiff y naill parti neu'r llall ddwyn apêl yn erbyn penderfyniad llys ynadon ar apêl o dan yr adran hon i Lys y Goron.

(8) Ar apêl i Lys y Goron, caiff y Llys—

(a) cadarnhau, amrywio neu wrthdroi penderfyniad y llys ynadon;

(b) anfon yr achos yn ôl i'r llys ynadon i'w waredu yn unol â chyfarwyddydau a roddir gan Lys y Goron.

**Dyroddi hysbysiadau gwella a chau mangreoedd a therfyniadau**

**6.**—(1) Caiff hysbysiad gwella mangre, hysbysiad cau mangre neu derfyniad o'r naill neu'r llall o'r mathau hynny o hysbysiad ei ddyroddi i berson drwy roi copi ohono yn ysgrifenedig i'r person hwnnw.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Ond pan na fo'r person sy'n gyfrifol am y fangre y mae'r hysbysiad neu'r terfyniad yn ymwneud â hi yn y fangre pan yw'r hysbysiad i'w ddyroddi, mae'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei ddyroddi i'r person—

(a) os rhoddir copi ohono i unrhyw berson arall yn y fangre yr ymddengys ei fod yn gyfrifol am unrhyw fusnes neu wasanaeth a gynhelir yn y fangre, neu

(b) os nad oes unrhyw berson o'r fath yn y fangre pan yw'r hysbysiad i'w ddyroddi, os gosodir copi o'r hysbysiad mewn lle amlwg yn y fangre.

**Rhoi cyhoeddusrwydd i hysbysiadau gwella a chau mangreoedd**

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo swyddog gorfodaeth wedi dyroddi hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre.

(2) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dyroddi'r hysbysiad, rhaid i'r swyddog gorfodaeth—

(a) arddangos copi o'r hysbysiad, ac arwydd ar y ffurf a nodir yn Atodlen 9, mewn man amlwg yn agos i bob mynedfa i'r fangre;

(b) trefnu i'r hysbysiad gael ei gyhoeddi ar wefan yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r fangre.

(3) Rhaid i hysbysiad neu arwydd a arddangosir o dan is-baragraff (2)(a) fod o faint A4 o leiaf.

(4) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei arddangos a'i gyhoeddi o dan is-baragraff (2) barhau i gael ei arddangos a'i gyhoeddi, a rhaid i arwydd y mae'n ofynnol ei arddangos o dan yr is-baragraff hwnnw barhau i gael ei arddangos, am gyhyd ag y mae'r hysbysiad yn cael effaith.

**Dangos dogfennau etc.**

**8.**—(1) Caiff swyddog gorfodaeth, er mwyn hwyluso arfer pŵer a roddir i'r swyddog gan yr Atodlen hon, ei gwneud yn ofynnol dangos unrhyw ddogfennau neu gofnodion electronig, edrych ar y dogfennau hynny neu'r cofnodion electronig hynny a chymryd copïau ohonynt.

(2) Ni chaniateir ei gwneud yn ofynnol o dan is-baragraff (1) i berson ddarparu dogfen, cofnod neu wybodaeth arall y gellid maentumio hawliad am fraint broffesiynol gyfreithiol mewn cysylltiad â hi neu ag ef mewn achos cyfreithiol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## ATODLEN 9


Rheoliad 26

## Y ffurf ar arwydd i fynd gyda hysbysiad gwella mangre neu hysbysiad cau mangre

*Yr arwydd sydd i'w arddangos gyda hysbysiad gwella mangre*

**1.**—(1) Rhaid i arwydd a arddangosir gyda hysbysiad gwella mangre o dan baragraff 7(2)(a) o Atodlen 8 fod ar y ffurf a nodir isod.

(2) Rhaid defnyddio'r lliwiau gwyn, du ac ambr C0 M60 Y100 K0 yn yr arwydd.




Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Yr arwydd sydd i'w arddangos gyda hysbysiad cau mangre*

**2.**—(1) Rhaid i arwydd a arddangosir gyda hysbysiad cau mangre o dan baragraff 7(2)(a) o Atodlen 8 fod ar y ffurf a nodir isod.

(2) Rhaid defnyddio'r lliwiau gwyn, du a choch C15 M100 Y100 K0 yn yr arwydd.



**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020.

**Mark Drakeford**
**Y Prif Weinidog**

18 Rhagfyr 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n angenrheidiol i ddiogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws, ac maent yn dirymu'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 presennol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Er bod Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu bod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y Rheoliadau hyn.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail eu bod y nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae gweithredu cyfyngiadau a gofynion newydd o dan y Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad cynyddol y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf a Rheoliadau 1984 a wneir oddi tani yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i nifer yr achosion o haint neu halogiad, neu ei ledaeniad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar bersonau, pethau neu fangreoedd neu mewn perthynas â phersonau os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu er mwyn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu tramgwyddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn “the appropriate Minister” ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984 y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn, y cyfeirir atynt wedi hyn fel "Rheoliadau Rhif 5" yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd sy'n cael ei achosi gan nifer achosion a lledaeniad y coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19 neu’r "coronafeirws".

Mae’r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 presennol yn gosod y cyfyngiadau a'r gofynion angenrheidiol a oedd yn angenrheidiol ar ôl y cyfnod atal byr rhwng 23 Hydref ac 8 Tachwedd. Bydd Rheoliadau Rhif 5 yn dirymu'r Rheoliadau presennol a byddant yn:

a) nodi’r cyfyngiadau a gofynion a fydd yn gymwys i bedair Lefel Rhybudd wahanol gan bennu’r Lefelau Rhybudd sy’n gymwys fel y’u nodir yn y Cynllun Rheoli’r Coronafeirws sydd wedi'i ddiweddaru

b) symud Cymru i Lefel Rhybudd 4 ar Ddydd Nadolig oherwydd nifer uchel yr achosion o Covid-19 yng Nghymru

c) darparu ar gyfer diwygio’r Rheoliadau dros dro ar gyfer cyfnod y Nadolig (rhwng 23 a 27 Rhagfyr), ond cyfyngu ar nifer yr aelwydydd a gaiff ffurfio aelwyd estynedig yn ystod y cyfnod hwn i ddwy (ynghyd ag un aelwyd sy’n cynnwys un oedolyn);

d) cynyddu'r hysbysiad cosb benodedig cychwynnol ar gyfer y rhai sy'n trefnu digwyddiadau megis partïon tŷ lle mae mwy na 15 o bobl yn ymgynnull o dan do neu 30 yn yr awyr agored, o £200 i £500;

Mae'r Rheoliadau yn darparu hefyd ar gyfer gorfodi'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn.

Mae'r Rheoliadau'n nodi'r cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gymwys o dan bedair Lefel Rhybudd wahanol, yn unol â'r mesurau y mae'r Llywodraeth yn eu rhoi ar waith i reoli lledaeniad y feirws a diogelu iechyd pobl, yn dibynnu ar sefyllfa'r coronafeirws ledled Cymru a dangosyddion allweddol eraill. Mae Cynllun Rheoli'r Coronafeirws yn nodi sut a phryd y bydd symud rhwng y Lefelau Rhybudd hyn ar gyfer Cymru neu ardaloedd yng Nghymru, fel y bo'n berthnasol. Nod y dull hwn yw rhoi mwy o sicrwydd i bobl a busnesau ledled Cymru ynghylch pa gyfyngiadau cyfreithiol sydd ar waith, yn dibynnu ar lefel y risg, gan eu helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Darperir y dystiolaeth wyddonol a ddefnyddiwyd i asesu'r risgiau i iechyd y cyhoedd gan Gell Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru ac mae ar gael ar wefan llyw.cymru. Mae'r papur briffio diweddaraf, dyddiedig 11 Rhagfyr, yn nodi difrifoldeb y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd.

Mae'r Prif Swyddog Meddygol yn argymell mai ymateb rhesymol i'r sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yw bod Cymru'n symud i Lefel Rhybudd 4 a bod nifer yr aelwydydd sy'n cael cytuno i ffurfio aelwyd estynedig dros gyfnod y Nadolig yn cael ei leihau.

I gydnabod hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu y dylai Cymru symud i Lefel Rhybudd 4 am 6.00 p.m. ar 25 Rhagfyr a chyfyngu ar nifer yr aelwydydd sy'n cael cyfarfod dros gyfnod y Nadolig (23-27 Rhagfyr) i ddwy yn lle tair fel y cytunwyd gan bedair Llywodraeth y DU.

Bwriad y Rheoliadau hyn yw atal marwolaethau uniongyrchol oherwydd COVID-19 a marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r ffaith nad yw gwasanaethau'r GIG ar gael o ganlyniad i drosglwyddiad eang y feirws yn y gymuned.

Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau yn darparu bod y darpariaethau newydd yn dod i rym ddechrau dydd Llun 21 Rhagfyr (ac eithrio Rhan 6 (darparu addysg ysgol). Fel yn achos y Rheoliadau Cyfyngiadau Coronafeirws cynharach, mae gofyniad statudol i adolygu'r Rheoliadau, sy'n golygu bod rhaid eu hadolygu erbyn 7 Ionawr 2021 ac o leiaf bob 21 diwrnod ar ôl hynny. Daw'r Rheoliadau i ben ddiwedd y dydd ar 31 Mawrth 2021 oni bai eu bod yn cael eu dirymu cyn hynny.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer y gwahanol gyfyngiadau sy'n gymwys mewn perthynas â phobl sy'n ymgynnull neu'n teithio, yn trefnu digwyddiadau ac yn defnyddio mangre sydd fel arfer yn agored i'r cyhoedd, yn dibynnu ar y "Lefel Rhybudd" sy'n gymwys. Mae'r lefelau hyn yn seiliedig ar yr hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn ymateb priodol a chymesur i nifer yr achosion o'r coronafeirws a'i ledaeniad. Nodir y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n benodol i Lefelau Rhybudd 1 i 4 yn Atodlenni 1 i 4 yn y drefn honno. Mae Rhan 2 ac Atodlen 5 hefyd yn nodi pa Lefel Rhybudd sy'n gymwys i ardal. Gall "ardal" fod yn rhan o Gymru neu'n Gymru gyfan, sy'n golygu y gall yr un radd o gyfyngiadau fod yn gymwys ledled Cymru neu gallant fod yn wahanol ar sail ranbarthol neu leol. Pan fydd y cyfyngiadau llymaf ar **Lefel Rhybudd 4** yn gymwys i ardal:

- mae gofyniad cyffredinol i aros gartref a peidio â theithio;
- mae'n ofynnol cau'r rhan fwyaf o safleoedd sydd fel arfer yn agored i'r cyhoedd.

Fel eithriad, mae Rhan 2 ac Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth benodol sy'n addasu'r cyfyngiadau sy'n ymwneud ag aelwydydd estynedig (a theithio i gwrdd ag aelodau o aelwyd estynedig) am y cyfnod rhwng 23 a 27 Rhagfyr 2020 (gyda diwrnod ychwanegol yn cael ei ganiatáu cyn ac ar ôl y cyfnod hwn yn achos pobl sy'n teithio i Ogledd Iwerddon ac oddi yno). Bydd hyn yn caniatáu i ddwy aelwyd ddod at ei gilydd i ffurfio swigod unigryw. O ystyried y penderfyniad i symud i Lefel Rhybudd 4 ar 25 Rhagfyr, mae'r rhan hon hefyd yn darparu i letyau gwyliau allu aros ar agor tan ddiwedd cyfnod y Nadolig (gan y byddai'n rhaid iddynt gau fel arall o dan Lefel Rhybudd 4).

Mae **Rhannau 3 i 5** yn gosod cyfyngiadau a gofynion pellach sy'n gymwys yn gyffredinol ar bob Lefel Rhybudd ac sy'n cynnal y darpariaethau blaenorol ar orchuddion wyneb ac ar fesurau rhesymol. Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion hyn yn gymwysl waeth beth fo'r Lefel Rhybudd sydd mewn grym ar unrhyw adeg benodol.

Mae **Rhan 3** yn gosod gofynion ar bobl sydd wedi profi'n bositif am y coronafeirws a'r rhai a hysbyswyd gan swyddogion olrhain cyswllt eu bod wedi bod mewn cysylltiad agos â rhywun sydd â coronafeirws a bod gofyn iddynt hunanynysu.

Mae **Rhan 4** yn cadw'r gofyniad i'r rhai sy'n gyfrifol am fangre reoleiddiedig ac i waith a wneir mewn mangre gymryd pob cam rhesymol er mwyn lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws neu ei ledaenu.

Mae **Rhan 5** yn darparu bod yn rhaid gwisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys tacsis, ac mewn mannau penodol o dan do, yn amodol ar esemptiadau ac eithriadau a restrir.

Mae **Rhan 6** yn darparu i awdurdodau lleol sicrhau y caiff addysg ysgol ei darparu i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol pan fydd ysgolion ar gau

Mae **Rhan 7** yn ymwneud â gorfodi'r cyfyngiadau a'r gofynion.

Mae **Rhan 8** yn gwneud darpariaeth ynghylch tramgwyddau a chosbau.

Mae **Rhan 9** yn cynnwys termau diffiniedig (rheoliad 57), yn dirymu Rheoliadau blaenorol ac yn gwneud diwygiad canlyniadol.

## 5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Wrth benderfynu a oedd angen y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn, a phennu manylion y cyfyngiadau a'r gofynion hynny, rwyf i, ynghyd â Gweinidogion a swyddogion eraill Llywodraeth Cymru, wedi cynnal trafodaethau gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arweinwyr llywodraeth leol a busnesau ac undebau llafur yng Nghymru ac rydym yn parhau i wneud hynny. Yn fy natganiad i'r Aelodau ar 16 Rhagfyr, cyhoeddais fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r newidiadau a gyflawnir drwy'r Rheoliadau hyn, a chafwyd cyhoeddusrwydd eang i hynny wedyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar frys i fynd i'r afael â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Lluniwyd asesiad effaith integredig cryno a chaiff ei gyhoeddi ar wefan llyw.cymru https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

18 Rhagfyr 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddechrau 21 Rhagfyr 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 4 Chwefror 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol a bod y Pwyllgor Busnes wedi sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno erbyn 11 Ionawr 2021, cyn i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Ionawr 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cyflwyno Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **18 Rhagfyr 2020** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog** |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 yn gosod cyfres o gyfyngiadau ar ymgynnull, symud gan bobl ac ar y ffordd y caiff busnesau eu gweithredu. Eu bwriad yw diogelu pobl rhag lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2). Roedd yn ofynnol i'r rheoliadau hynny gael eu hadolygu erbyn 17 Rhagfyr ac, o ganlyniad, caiff y rheoliadau eu disodli gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020.

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 yn darparu ar gyfer cyflwyno system newydd o lefelau rhybudd yng Nghymru, fel y nodir gan Lywodraeth Cymru yn y *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws* sydd wedi'i ddiweddaru. Caiff y rheoliadau newydd hyn eu gwneud heddiw a byddant yn dod i effaith ar 21 Rhagfyr.

Cynlluniwyd y lefelau rhybudd er mwyn darparu fframwaith o fesurau a ragfynegwyd ar gyfer pob un lefel o gyfyngiadau. Nodir y cyfyngiadau hynny yn y rheoliadau newydd. Mae'r cynllun hefyd yn egluro pa ddangosyddion a ystyrir wrth benderfynu a ddylid tynhau neu lacio'r cyfyngiadau, a symud i fyny neu i lawr y lefelau rhybudd felly.

Bydd y rheoliadau hyn – ar bob lefel rhybudd – yn gorfodi cyfyngiadau ar ymgynnull, symud gan bobl a'r ffordd y caiff busnesau eu gweithredu, gan gynnwys cau busnesau dros dro, er mwyn helpu i reoli lledaeniad y feirws a diogelu iechyd pobl.

Caiff y lefelau rhybudd eu cymhwyso i gychwyn ar lefel Cymru gyfan, ond mae hyblygrwydd hefyd i fynd ati mewn gwahanol ffyrdd. Rydym yn gwybod ar sail profiad fod mesurau cenedlaethol yn fwy effeithiol ac yn symlach, a bod y cyhoedd yn eu

deall yn well. Fodd bynnag, os ceir tystiolaeth glir a dibynadwy o amrywiadau parhaus ar draws y rhanbarthau, mae'r rheoliadau hefyd yn darparu cyfyngiadau y gellir eu cymhwyso ar lefel ranbarthol neu leol.

Er gwaetha'r ffaith bod mesurau cenedlaethol wedi cael eu cryfhau dros yr wythnosau diwethaf, mae nifer yr achosion o'r coronafeirws ledled Cymru yn parhau i gynyddu bob dydd. Mae nifer y bobl sydd yn yr ysbyty gyda symptomau'r coronafeirws wedi cyrraedd lefel ddigynsail, sef dros 2,200 – yn gyfystyr â phump o ysbytai cyffredinol. Mae un o bob pump o'r profion sy'n cael eu cynnal yn rhai positif.

Yr wythnos hon, cefais gyfarfod â Phrif Weinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon a Changhellor Dugiaeth Caerhirfryn o Lywodraeth y DU i drafod y trefniadau cyffredin dros gyfnod o bum niwrnod adeg y Nadolig, rhwng 23 a 27 Rhagfyr (22 a 28 Rhagfyr yn achos y rheini sy'n teithio i Ogledd Iwerddon ac oddi yno). Yn yr ychydig wythnosau ers inni gytuno ar y trefniadau hyn, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu'n sylweddol a'r coronafeirws wedi tynhau ei afael ar y DU unwaith yn rhagor.

O ganlyniad, yma yng Nghymru, bydd y rheoliadau yn ei wneud yn gwbl glir mai dim ond dwy aelwyd (gyda'r opsiwn o gynnwys un aelwyd un person hefyd) a gaiff ffurfio swigen Nadolig yn ystod y cyfnod hwn o bum diwrnod. Mae hyn yn cyfyngu mwy ar bobl na'r trefniant oeddem wedi gobeithio ei ddilyn, sef cyfyngiad o dair aelwyd, ond mae'n adlewyrchu difrifoldeb y sefyllfa yng Nghymru. Y lleiaf o bobl yr ydym yn cymysgu â nhw yn ein cartrefi, y lleiaf o berygl sydd inni ddal y feirws neu ei ledaenu dros gyfnod yr ŵyl.

Bydd y rheoliadau felly yn darparu er mwyn i Gymru symud i lefel rhybudd 4 – y lefel uchaf un – am 6pm ddydd Nadolig. Golyga hyn y bydd rhaid i fusnesau lletygarwch, pob busnes manwerthu nad yw'n hanfodol, gwasanaethau cysylltiad agos a chanolfannau hamdden a ffitrwydd gau.

Bydd cyfyngiadau tynnach ar deithio, cymysgu rhwng aelwydydd, gofynion i aros gartref a llety gwyliau yn gymwys o 28 Rhagfyr ymlaen, ar ôl y cyfnod o bum diwrnod adeg y Nadolig.

Rydym wedi darparu £340m yn barod i gefnogi busnesau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth sydd wedi'u heffeithio gan gyfyngiadau i mewn i'r Flwyddyn Newydd. Bydd £110m yn rhagor o gymorth ar gael i helpu busnesau a gaiff eu heffeithio gan y cyfyngiadau newydd.

Yn unol â'r rheoliadau, rhaid adolygu'r cyfyngiadau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur, yn angenrheidiol ac yn effeithiol. Cynhelir adolygiadau bob tair wythnos, gyda'r cyntaf i gael ei gynnal erbyn 7 Ionawr.

Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi rhoi cyngor penodol i bobl a oedd yn gwarchod eu hunain cyn hyn ynglŷn â chymysgu â phobl eraill dros gyfnod y Nadolig.

Mae *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws: Lefelau Rhybudd yng Nghymru* ar gael i'w weld yn:
https://llyw.cymru/cynllun-rheolir-coronafeirws-lefelau-rhybudd-yng-nghymru

Nid yw cyflwyno'r cyfyngiadau tynnach hyn ar adeg mor bwysig o'r flwyddyn yn rhoi dim pleser imi. Rwy'n gwybod y byddant yn gorfodi llawer o bobl i newid eu cynlluniau. Fodd bynnag, diogelu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac achub bywydau yw blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o hyd. Rhaid inni barhau i Ddiogelu Cymru y Nadolig hwn ac ymlaen i'r Flwyddyn Newydd.

Eitem 3.9

# SL(5)708 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau"), i gychwyn y Rheoliadau hynny ar ddechrau 20 Rhagfyr 2020 (ac eithrio Rhan 6) ac i symud Cymru i Haen 4 o'r un dyddiad.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud newidiadau i Atodlen 6 i'r prif Reoliadau mewn perthynas â threfniadau ar gyfer ffurfio cartrefi estynedig dros gyfnod y Nadolig.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Rheoliad 2(5)(d) yn gwneud diwygiadau i baragraff 4 o Atodlen 6 i'r prif Reoliadau (sydd yn ei dro yn gwneud addasiadau i baragraff 3 o Atodlen 4 i'r rheoliadau hynny) fel bod cyfyngiadau a oedd yn wreiddiol yn gymwys dros "gyfnod y Nadolig" nawr ond yn berthnasol ar 25 Rhagfyr.

Mae Rheoliad 2(5)(d)(ii) o'r Rheoliadau hyn yn dileu paragraff 3A o Atodlen 4 i'r prif Reoliadau. Fodd bynnag, erys cyfeiriad at baragraff 3A ym mharagraff 3(5)(a) o Atodlen 4.

Rydym o'r farn y dylai'r diwygiadau a wneir gan Reoliad 2(5)(d) o'r Rheoliadau hyn gynnwys dileu'r cyfeiriad at baragraff 3A a gynhwysir ym mharagraff 3(5)(a) o Atodlen 4 i'r prif Reoliadau, gan fod y cyfeiriad yn ddiangen.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) - ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn y testun Cymraeg, yn y paragraff a fewnosodir gan Reoliad 2(5)(g)(ii) o'r

Rheoliadau hyn, mae'r gair "cyn" ar goll o'r rhan o'r frawddeg sy'n darllen "yn union 25 Rhagfyr 2020". Rydym o'r farn y dylai ddarllen "yn union *cyn* 25 Rhagfyr 2020" [*pwyslais wedi'i ychwanegu]*.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn y daeth y Rheoliadau i rym cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gwnaeth y Prif Weinidog hysbysu'r Llywydd o hyn mewn llythyr ar 19 Rhagfyr 2020. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Yn unol ag adran 4(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd [y Rheoliadau hyn] yn dod i rym cyn y cânt eu gosod gerbron y Senedd. Mae'n angenrheidiol iddynt ddod i rym ar unwaith yng ngoleuni gwybodaeth newydd ynghylch cyfraddau mynychder y coronafeirws yng Nghymru a chyfradd lledaeniad y clefyd."*

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu bod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.*
>
**5.** Mae trafodiad wedi ei hepgor gan y rheoliad hwn os yw'n drafodiad a bennir yn rheoliad 3(1) y rhoddwyd effaith iddo yn unol â chontract yr ymrwymwyd iddo cyn 22 Rhagfyr 2020—

(a) pan geir unrhyw amrywiad i'r contract, neu pan aseinir hawliau o dan y contract, ar neu ar ôl 22 Rhagfyr 2020;

(b) pan roddir effaith i'r trafodiad o ganlyniad i arfer unrhyw opsiwn, hawl rhagbrynu neu hawl debyg ar neu ar ôl 22 Rhagfyr 2020; neu

(c) pan geir, ar neu ar ôl 22 Rhagfyr 2020, aseiniad, is-werthiant neu drafodiad arall yn ymwneud â'r cyfan neu ran o bwnc y contract, y caiff person heblaw'r prynwr o dan y contract hawl i alw am drawsgludiad o ganlyniad iddo.

---

(**1**) O.S. 2018/128 (Cy. 32) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/794 (Cy. 174).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018**

**6.**—(1) Mae'r Atodlen i Reoliadau 2018 wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(2) Yn lle Tabl 2 rhodder—

**"Tabl 2: Trafodiadau eiddo preswyl cyfraddau uwch**

| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
|---|---|---|
| Y band treth cyntaf | Nid mwy na £180,000 | 4% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £180,000 ond nid mwy na £250,000 | 7.5% |
| Y trydydd band treth | Mwy na £250,000 ond nid mwy na £400,000 | 9% |
| Y pedwerydd band treth | Mwy na £400,000 ond nid mwy na £750,000 | 11.5% |
| Y pumed band treth | Mwy na £750,000 ond nid mwy na £1,500,000 | 14% |
| Y chweched band treth | Mwy na £1,500,000 | 16% |

";

(3) Yn lle Tabl 3 rhodder—

**"Tabl 3: Trafodiadau eiddo amhreswyl**

| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
|---|---|---|
| Band cyfradd sero | Nid mwy na £225,000 | 0% |
| Y band treth cyntaf | Mwy na £225,000 ond nid mwy na £250,000 | 1% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £250,000 ond nid mwy na £1,000,000 | 5% |
| Y trydydd band treth | Mwy na £1,000,000 | 6% |

"; a

(4) Yn lle Tabl 4 rhodder—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**"Tabl 4: Cydnabyddiaeth drethadwy sydd ar ffurf rhent**

| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
|---|---|---|
| Band cyfradd sero LA | Nid mwy na £225,000 | 0% |
| Y band treth cyntaf | Mwy na £225,000 ond nid mwy na £2,000,000 | 1% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £2,000,000 | 2% |

".

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru
Am 10.20 a.m. ar 21 Rhagfyr 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer**

## Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol. Bydd y newidiadau hyn yn dechrau ar 22 Rhagfyr 2020.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
21 Rhagfyr 2020

## 1. Disgrifiad

1.1 Diben yr offeryn hwn yw pennu newid i gyfraddau treth canrannol y dreth trafodiadau tir ar gyfer cyfraddau uwch trafodiadau eiddo preswyl, trafodiadau eiddo amhreswyl a chydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

2.1 Mae'r offeryn hwn yn cynnwys rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol weithdrefn gadarnhaol dros dro a nodir yn adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf 2017"). Gwneir y Rheoliadau hyn felly heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo ganddi. Mae rhagor o fanylion ynghylch y weithdrefn hon ar gael ym mharagraff 3.2 isod.

2.2 Mae'r offeryn hwn hefyd yn cynnwys rheoliadau a wneir o dan adran 78(1) o Ddeddf 2017 i wneud darpariaeth bontio mewn perthynas â thrafodiadau penodol pan fo contract wedi'i gyflawni'n sylweddol neu pan gaiff contractau i werthu a phrynu'r eiddo eu cyfnewid cyn 22 Rhagfyr 2020, ond bod y cwblhau yn digwydd ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny. Mae adran 79(3) o Ddeddf 2017 yn darparu bod rheoliadau a wneir o dan adran 78(1) yn dilyn y weithdrefn negyddol, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y rheoliadau yn cael yr effaith o osod neu gynyddu atebolrwydd i dalu treth. Yn yr achos hwn, caiff yr atebolrwydd i dalu treth ei gynyddu mewn perthynas â'r cyfraddau preswyl uwch ond ei leihau mewn perthynas â'r cyfraddau amhreswyl a chydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent. Mae'r rheol bontio a wneir o dan adran 78(1) yn diogelu'r trethdalwyr hynny sydd wedi cyfnewid contractau cyn 22 Rhagfyr rhag talu mwy o dreth nag yr oeddent yn disgwyl ei thalu pan wnaethant gyfnewid contractau. Felly, byddant ond yn gymwys mewn perthynas â'r trafodiadau hynny lle mae atebolrwydd yn cynyddu, yn yr achos hwn, y trafodiad eiddo preswyl uwch yn unig. O ganlyniad i adran 40 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae'r rheoliadau yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol dros dro.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae adran 24 o Ddeddf 2017 yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru amrywio'r cyfraddau treth a'r bandiau treth ar gyfer y dreth trafodiadau tir drwy reoliadau.

3.2 Mae rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol dros dro, sy'n golygu bod y rheoliadau yn cael eu gwneud (eu llofnodi) gan y Gweinidogion ac y gallant ddod i rym ar unwaith. Unwaith y mae'r rheoliadau wedi'u gwneud, rhaid iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd a bydd ganddynt effaith dros dro hyd nes y bydd y Senedd yn pleidleisio arnynt. Rhaid i'r bleidlais honno ddigwydd o fewn 28 diwrnod calendr ar ôl gwneud y rheoliadau, heb gyfrif diwrnodau pan fo'r Senedd mewn toriad. Os na fydd y bleidlais yn digwydd, neu os bydd yn cael ei cholli, bydd y cyfraddau treth a'r bandiau treth blaenorol yn gymwys eto a bydd unrhyw drethdalwr a dalodd swm uwch o dreth o dan y rheoliadau a fethodd â sicrhau cymeradwyaeth y Senedd yn gallu adhawlio'r gwahaniaeth rhwng y swm a oedd yn daladwy o dan y rheoliadau hynny a'r cyfraddau a oedd mewn grym yn flaenorol. Mae hyn yn golygu mai Llywodraeth Cymru, nid trethdalwyr Cymru, fydd yn ysgwyddo'r baich os bydd y Rheoliadau yn methu â sicrhau cymeradwyaeth y Senedd.

3.3 Gan fod y Rheoliadau wedi'u gwneud pan fo'r Senedd mewn toriad, bydd y cyfnod 28 diwrnod yn dechrau ar 11 Ionawr 2021 a rhaid i'r bleidlais i gymeradwyo'r Rheoliadau ddigwydd erbyn 8 Chwefror 2021.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Diben y Rheoliadau hyn yw newid cyfraddau treth canrannol y dreth trafodiadau tir a ddefnyddir i gyfrifo faint o dreth sy'n daladwy ar gyfer cyfraddau uwch trafodiadau eiddo preswyl. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn newid band cyfradd sero trafodiadau eiddo amhreswyl a band cyfradd sero lesoedd amhreswyl cydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent, y defnyddir y ddau ohonynt i gyfrifo faint o dreth sy'n daladwy gan drethdalwyr. Mae'r newidiadau hyn yn gymwys i drafodiadau sydd â dyddiad effeithiol[1] ar neu ar ôl 22 Rhagfyr 2020 ac a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn y Gyllideb ddrafft ar 21 Rhagfyr 2020. Nid yw'r Rheoliadau hyn yn newid prif gyfraddau preswyl y dreth trafodiadau tir sy'n gymwys, ar y cyfan, i eiddo preswyl a brynir fel prif breswylfa.

4.2 Effaith y Rheoliadau hyn yw cynyddu cyfraddau uwch y dreth trafodiadau tir sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl perthnasol 1 pwynt canran ym mhob band treth (h.y. mae'r band treth cyntaf yn cynyddu o 3% i 4%, mae'r ail fand treth yn cynyddu o 6.5% i 7.5% ac ati). Bydd y newid hwn yn arwain at gynnydd o tua £1,600, ar gyfartaledd, yn y dreth sy'n daladwy ar gyfer tua 14,000 o gyfraddau uwch trafodiadau preswyl trethadwy bob blwyddyn.

4.3 Effaith y Rheoliadau hyn ar y bandiau treth cyfradd sero sy'n gymwys i drafodiadau eiddo amhreswyl a'r gydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent yw lleihau swm y dreth trafodiadau tir sy'n daladwy gan drethdalwyr o gymharu â'r cyfraddau a oedd mewn grym cyn 22 Rhagfyr 2020 drwy gynyddu'r bandiau treth cyfradd sero. Mewn perthynas â chyfraddau amhreswyl sy'n gymwys i drafodiadau eiddo amhreswyl, mae'r Rheoliadau yn diwygio'r band treth cyntaf gan gynyddu trothwy'r band treth cyfradd sero o £150,000 i £225,000, a'r band treth cyntaf fel ei fod yn cwmpasu trafodiadau 'sy'n fwy na £225,000 ond heb fod yn fwy na £250,000'. Mae'r band treth cyntaf yn aros yn ddigyfnewid ar 1% ac nid yw'r ail fand na'r trydydd band yn newid chwaith. Mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent, mae band treth sero lesoedd amhreswyl yn cynyddu o £150,000 i £225,000 ac mae'r band treth cyntaf wedi'i ddiwygio i gwmpasu trafodiadau 'sy'n fwy na £225,000 ond heb fod yn fwy na £2,000,000'. Nid yw'r ail fand treth yn newid.

4.4 Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r bandiau threth na'r cyfraddau treth canrannol sy'n gymwys i brif gyfraddau trafodiadau eiddo preswyl. Gwnaed newidiadau dros dro i brif gyfraddau'r dreth trafodiadau tir sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl gan Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020[2] ("Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir dros dro 2020"). Cynyddodd y Rheoliadau hynny drothwy'r prif gyfraddau preswyl o £180,000 i £250,000 ar gyfer y cyfnod rhwng 27 Gorffennaf 2020 a 31 Mawrth 2021 yn gynwysedig. Ar 1 Ebrill 2021, bydd y trothwy ar gyfer band cyfradd sero'r prif gyfraddau preswyl yn dychwelyd i £180,000 fel y darperir ar ei gyfer yn Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018[3] ("Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir 2018").

4.5 Effaith y Rheoliadau hyn fydd darparu refeniw ychwanegol i Lywodraeth Cymru i ariannu gwariant cyhoeddus, drwy gynyddu'r cyfraddau treth sy'n gymwys i gyfraddau uwch trafodiadau eiddo preswyl. Ar yr un pryd, bydd yn cefnogi busnesau, rhai bach a chanolig yn bennaf, drwy leihau'r costau wrth gaffael eiddo amhreswyl a throsglwyddo neu gymryd

[1] Y 'dyddiad effeithiol' yw dyddiad cwblhau'r contract i brynu'r eiddo. Gweler adran 71 o Ddeddf 2017.

[2] Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/794 (Cy.174)).

[3] Mae Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/128 (Cy. 32)) yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfraddau a bandiau'r dreth trafodiadau tir sy'n gymwys i gyfraddau uwch trafodiadau eiddo preswyl, trafodiadau eiddo amhreswyl a thrafodiadau lle mae'r gydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent.

lesoedd newydd, yn dibynnu ar y gost. Mae'r dull hwn o weithredu yn darparu ar gyfer cyfundrefn dreth fwy graddoledig ar gyfer y dreth trafodiadau tir sy'n cydnabod y bydd y cymorth sydd ei angen i sicrhau adferiad economaidd ar ôl pandemig COVID-19 yn gofyn am fuddsoddiad hirdymor.

4.6 Caiff rheoliadau cadarnhaol drafft ar wahân a fydd yn newid y swm penodedig o rent perthnasol eu gosod gerbron y Senedd yn fuan. Mae'r swm o rent perthnasol yn gymwys i drafodiadau amhreswyl lle y rhoddir les i'r prynwr ac mae'n talu rhent a chydnabyddiaeth heblaw rhent (er enghraifft premiwm). Bwriedir i Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) (Diwygio) 2021 gael eu trafod yn y Senedd ar yr un diwrnod. Nodir effaith a diben bwriadedig y Rheoliadau hynny yn eu Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.

4.7 Ar gyfer trafodiadau a gwblheir ar neu ar ôl 22 Rhagfyr 2020, cyfraddau uwch eiddo preswyl y dreth trafodiadau tir fydd:

**Tabl 1: Trafodiadau Eiddo Preswyl** – Cyfraddau a Bandiau o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen

| **Cyfraddau uwch trafodiadau eiddo preswyl**<br>*Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
|---|---|---|
| Y band treth cyntaf | Nid mwy na £180,000 | 4% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £180,000 ond nid mwy na £250,000 | 7.5% |
| Y trydydd band treth | Mwy na £250,000 ond nid mwy na £400,000 | 9% |
| Y pedwerydd band treth | Mwy na £400,000 ond nid mwy na £750,000 | 11.5% |
| Y pumed band treth | Mwy na £750,000 ond nid mwy na £1,500,000 | 14% |
| Y chweched band treth | Mwy na £1,500,000 | 16% |

4.8 Ar gyfer trafodiadau a gwblheir ar neu ar ôl 22 Rhagfyr 2020, cyfraddau eiddo amhreswyl y dreth trafodiadau tir fydd:

**Tabl 2: Trafodiadau Eiddo Amhreswyl –** Cyfraddau a Bandiau o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen

| **Trafodiadau eiddo amhreswyl** | | |
|---|---|---|
| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
| Y band cyfradd sero | Nid mwy na £225,000 | 0% |
| Y band treth cyntaf | Mwy na £225,000 ond nid mwy na £250,000 | 1% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £250,000 ond nid mwy na £1,000,000 | 5% |
| Y trydydd band treth | Mwy na £1,000,000 | 6% |

4.9 Ar gyfer trafodiadau a gwblheir ar neu ar ôl 22 Rhagfyr 2020, cyfraddau'r dreth trafodiadau tir sy'n gymwys i'r gydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent fydd:

**Tabl 3: Cydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent** – Cyfraddau a Bandiau o 22 Rhagfyr 2020 ymlaen

| **Cydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent** | | |
|---|---|---|
| *Band treth* | *Y gydnabyddiaeth berthnasol* | *Y gyfradd dreth ganrannol* |
| Band cyfradd sero lesoedd amhreswyl | Nid mwy na £225,000 | 0% |
| Y band treth cyntaf | Mwy na £225,000 ond nid mwy na £2,000,000 | 1% |
| Yr ail fand treth | Mwy na £2,000,000 | 2% |

## 5. Ymgynghori

5.1 Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ymgynghori ar yr offeryn hwn. Cyhoeddwyd y newidiadau i'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol ar gyfer cyfraddau uwch trafodiadau eiddo preswyl, trafodiadau eiddo amhreswyl a chydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar 21 Rhagfyr 2020 yn y Gyllideb ddrafft. Mae'r dull gweithredu a fabwysiadwyd yn dilyn egwyddorion polisi treth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfundrefn raddoledig drwy ddarparu arbediad treth i rai trafodiadau amhreswyl wrth i fusnesau geisio dod dros effaith pandemig COVID-19, yn ogystal â chynyddu refeniw o'r dreth trafodiadau tir yn gyffredinol er mwyn darparu refeniw i ariannu blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru. Nid yw gosod cyfraddau a throthwyon ar gyfer trethi yn faes polisi y cynhelir ymgynghoriadau ynddo fel arfer, gan fod unrhyw ymgynghoriad o'r fath ar dreth 'fyw' yn debygol iawn o effeithio ar ymddygiad ac, mewn perthynas â threthi trafodiadau, ar amseriad y trafodiadau hynny.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Caiff effaith y newidiadau hyn o ran refeniw ei darparu ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft nesaf Llywodraeth Cymru a gyhoeddir ar 21 Rhagfyr 2020. Mae cost y polisi wedi'i chynnwys yn rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dreth trafodiadau tir ar gyfer Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

6.2 Ystyriodd Llywodraeth Cymru nifer o opsiynau ar gyfer newidiadau i gyfraddau a throthwyon y dreth trafodiadau tir. Mae'r asesiad hwn yn cwmpasu opsiwn dim newid a'r polisi o fewn y rheoliadau hyn.

6.3 Wrth osod cyfraddau a bandiau treth mae llawer o opsiynau posibl, yn enwedig pan fydd y newidiadau yn effeithio ar fwy nag un tabl o fandiau treth a chyfraddau treth. Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn yn rhoi manylion am opsiwn dim newid ac opsiwn a ddewiswyd yn unig. Roedd yr opsiwn a ddewiswyd yn cynnwys dau newid, yn gyntaf, cynnydd o 1 pwynt canran yn y dreth a godir ar gyfraddau uwch trafodiadau eiddo ar gyfer pob band treth. Penderfynwyd cynyddu'r dreth a godir ar y trafodiadau eiddo hyn er mwyn sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael i Lywodraeth Cymru eu gwario ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol a chynlluniau gwariant.

6.4 Defnyddiwyd rhywfaint o'r refeniw ychwanegol hwn i wrthbwyso cost yr ail newid, sef cynyddu'r bandiau treth amhreswyl sy'n gymwys i gydnabyddiaeth a delir ar gyfer trafodiadau eiddo amhreswyl a chydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent. Penderfynwyd y byddai prynwyr eiddo amhreswyl sy'n ddarostyngedig i'r dreth trafodiadau tir yn cael gostyngiad o hyd at £750, ar y cyfan, oddi ar gost eu trafodiad amhreswyl. Mae wedi'i lunio yn y ffordd symlaf bosibl ac ar fusnesau bach a chanolig, gan gynnwys y rhai yn yr economi sylfaenol, y bydd yn cael yr effaith fwyaf, ar gyfartaledd. Ar y cyfan, ni ddylai'r busnesau hynny sy'n prynu eiddo amhreswyl sy'n costio rhwng £150,000 a £225,000 orfod talu treth mwyach (yn flaenorol nid oedd y rhai a oedd yn prynu eiddo yn costio hyd at £150,000 yn talu treth trafodiadau tir). Dylai'r newidiadau hyn helpu busnesau i ail-lunio eu hasedau eiddo wrth inni ddod allan o'r pandemig i gyd-fynd â'u gofynion, p'un a fydd hynny'n golygu ehangu neu leihau'r asedau eiddo a ddefnyddir yn y busnes.

*Dim newid*

6.5 Byddai'r opsiwn dim newid wedi gadael pob cyfradd a throthwy ar gyfer y trethi preswyl ac amhreswyl fel y maent wedi bod ers 1 Ebrill 2018 pan gymhwyswyd y dreth trafodiadau tir gyntaf yng Nghymru, ac eithrio'r amrywiad dros dro i'r prif gyfraddau preswyl y darparwyd ar ei gyfer yn Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir dros dro 2020. Bydd yr amrywiad dros dro i brif gyfraddau preswyl y dreth trafodiadau tir yn parhau i fod mewn grym tan 31 Mawrth 2021

ac ar 1 Ebrill 2021, bydd y prif gyfraddau a throthwyon preswyl yn dychwelyd i'r rhai a nodwyd yn Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir 2018.

*Cynyddu cyfraddau preswyl uwch y dreth trafodiadau tir 1 pwynt canran ym mhob band treth*

6.6 Bydd yr opsiwn hwn yn cynyddu'r dreth a delir ar drafodiadau eiddo preswyl sy'n ddarostyngedig i'r cyfraddau uwch. Mae'r cyfraddau preswyl uwch yn gymwys i gwmnïau sy'n prynu unrhyw anheddau ac i unigolion, ar y cyfan, sy'n prynu eiddo preswyl pan fyddant hwy, neu unigolyn y maent yn prynu gydag ef, eisoes yn berchen ar fuddiant mewn annedd arall. Mae hyn yn fwyaf tebygol o fod yn gymwys i brynu ail gartrefi ac eiddo prynu i osod. I bob pwrpas, mae'r newid mewn treth yn cynyddu'r dreth ychwanegol y bydd yr eiddo hwn yn ei thalu o 3% i 4% o gymharu ag eiddo preswyl sy'n ddarostyngedig i'r prif gyfraddau.

6.7 Ni fydd prif gyfraddau preswyl y dreth trafodiadau tir yn newid o dan yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, daw diwedd cyfnod yr amrywiad dros dro a dychwelir at y cyfraddau a'r trothwyon y darparwyd ar eu cyfer yn Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir 2018, fel y disgrifiwyd ym mharagraff 6.5.

6.8 Mae'r opsiwn hwn yn sicrhau bod y cynnydd yn y baich treth wedi'i gyfyngu i'r rhai sydd â'r adnoddau i brynu eiddo preswyl ychwanegol ac, felly, mae'n darparu ar gyfer cyfundrefn fwy graddoledig, yn unol ag egwyddorion polisi treth Llywodraeth Cymru. Mae prynwyr sy'n talu'r cyfraddau preswyl uwch yn cyfrif am tua 25% o'r holl bryniadau preswyl bob blwyddyn, er ei bod yn bosibl y bydd gan rai hawl wedyn i gael ad-daliad o'r cyfraddau preswyl uwch sy'n golygu y bydd eu trafodiad wedyn yn ddarostyngedig i'r prif gyfraddau preswyl. Gellir gwneud ad-daliadau o'r fath, er enghraifft, drwy'r broses lle mae pobl yn 'pontio' rhwng un brif breswylfa a'u preswylfa newydd.

6.9 Yn seiliedig ar ddata 2019-20 data, mae tua 14,000 o drafodiadau preswyl yn ddarostyngedig i ddechrau i'r cyfraddau preswyl uwch. Gan ddefnyddio'r un data, mae'r newid yn cynyddu treth tua £1,600 fesul trafodiad, ar gyfartaledd. Disgwylir i'r newidiadau arwain at gynnydd o £14 miliwn yn y refeniw o'r dreth trafodiadau tir yn 2021-22. Mae'r amcangyfrif hwn o refeniw yn cynnwys y rhagolygon economaidd diweddaraf ar gyfer y farchnad eiddo a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei Rhagolwg Economaidd a Chyllidol (Tachwedd 2020), ad-daliadau a ragwelir o'r cyfraddau uwch ac effeithiau ymddygiadol disgwyliedig mewn ymateb i'r mesur. Mae'r effeithiau ymddygiadol a ddisgwylir gyda'r opsiwn hwn yn debygol o leihau'r prisiau a nifer y trafodiadau ar gyfer eiddo sy'n ddarostyngedig i'r cyfraddau preswyl uwch o ryw ychydig, yn ogystal â chael effaith fach o ran lleihau prisiau tai yn fwy cyffredinol. Bydd pob un o'r rhain yn lleihau'r refeniw disgwyliedig o'r mesur ac maent wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrif. Mae llawer o ffactorau yn effeithio ar nifer y trafodiadau a phrisiau yn ychwanegol at y dreth a godir ar bryniadau. Mae'n anodd amcangyfrif yr effaith lawn ar gyfer y ffactorau lluosog hyn ac, yn arbennig, mae effaith byrdymor a thymor canolig pandemig COVID-19 ar y farchnad eiddo a'r economi ehangach yn ansicr iawn. Mae maint yr effeithiau ymddygiadol hefyd yn gymharol ansicr. At hynny, am ei bod yn bosibl y bydd rhai eiddo ychwanegol yn eiddo prynu i osod hefyd, efallai y bydd y mesur hwn yn cynyddu rhenti preswyl hefyd.

6.10 Mae'r opsiwn hwn yn cynyddu'r gwahaniaeth trethi rhwng gwahanol fathau o bryniadau preswyl yng Nghymru. Gallai'r gostyngiad cymharol mewn treth i brynwyr cartrefi o'i chymharu â phryniadau ail gartrefi a phryniadau prynu i osod hefyd newid cyfansoddiad

trafodiadau preswyl. Gallai hyn gynyddu ychydig ar y gyfran o drafodiadau prynwyr cartrefi yng Nghymru.

*Cynyddu trothwy'r band treth cyfradd sero ar gyfer cyfraddau amhreswyl y dreth drafodiadau tir a'r band treth cyfradd sero ar y gydnabyddiaeth drethadwy ar ffurf rhent*

6.11 Bydd yr opsiwn hwn yn lleihau'r dreth trafodiadau tir a godir ar gyfer rhai trafodiadau amhreswyl. Mae'n cynyddu'r band cyfradd sero ar gyfer premiymau ac aseiniadau les a throsglwyddiadau eiddo o £150,000 i £225,000. Mae hyn yn darparu arbediad treth o hyd at £750 o gymharu â'r system rhwng 1 Ebrill 2018 a 21 Rhagfyr 2020. Mae'r newid hefyd yn cynyddu band cyfradd sero'r dreth a godir ar yr elfen rhent o lesoedd amhreswyl (a fesurir gan werth presennol net y rhenti sy'n daladwy pan roddir les) o £150,000 i £225,000. Mae hyn yn sicrhau bod y gydnabyddiaeth a roddir am rydd-ddaliad neu bremiwm wrth roi neu aseinio les yn cael ei thrin yn yr un ffordd â'r gydnabyddiaeth a roddir ar ffurf rhent. Mae'r mesur hwn hefyd yn darparu arbediad treth o hyd at £750 ar gyfer rhai mathau penodol o drafodiadau lesddaliadol amhreswyl.

6.12 Bydd yr opsiwn hwn yn lleihau'r dreth ar gyfer ychydig o dan 1,500 o drafodiadau amhreswyl y flwyddyn sy'n cynnwys trosglwyddo rhydd-ddaliad, neu roi neu aseinio les. Amcangyfrifir hefyd y byddai'r newid i fand cyfradd sero rhent amhreswyl yn lleihau'r dreth ar gyfer ychydig o dan 1,000 o drafodiadau y flwyddyn sy'n cynnwys rhent pan roddir les, y gallai rhai ohonynt elwa o'r ddau fesur. Mae busnesau bach a chanolig (BBaChau) yn fwy tebygol o elwa o'r mesurau hyn, a fydd hefyd yn darparu'r un uchafswm gostyngiad mewn treth ar gyfer rhai trafodiadau amhreswyl mwy o faint. Mae'n bosibl y bydd y newidiadau hyn yn cynyddu prisiau eiddo masnachol a nifer y trafodiadau eiddo masnachol o ryw ychydig. Disgwylir i'r newidiadau hyn arwain at ostyngiad o £1 filiwn yn y refeniw o'r dreth trafodiadau tir yn 2021-22.

*Crynodeb*

6.13 Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau yn arwain at gynnydd mesuredig mewn treth ar gyfer rhai mathau penodol o drafodiadau eiddo preswyl a gostyngiad bach yn y dreth ar gyfer trafodiadau amhreswyl. Bydd yr effaith gyfunol yn cynyddu cyfanswm y refeniw o'r dreth trafodiadau tir sy'n golygu y bydd mwy o adnoddau ar gael i Lywodraeth Cymru gyllido blaenoriaethau polisi a lleihau'r gwariant sydd ei angen ar fusnesau i fuddsoddi mewn eiddo masnachol.

6.14 Ni fydd fawr ddim cost weinyddol ychwanegol i Awdurdod Cyllid Cymru (‘ACC’) o ganlyniad i ddiweddaru ei gyfrifianellau treth ac ymateb i ymholiadau trethdalwyr am y newid. Telir y costau hyn o fewn ei gyllideb bresennol. Mae busnesau sy'n ymwneud â gwahanol gamau'r broses o brynu tŷ, yn enwedig asiantiaid eiddo a thrawsgludwyr a chyfreithwyr wedi delio â llawer o newidiadau i gyfraddau (a dulliau cyfrifo) o'r blaen pan oedd treth dir y dreth stamp ar waith yng Nghymru a phan gyflwynwyd y dreth trafodiadau tir yng Nghymru. Mae Datganiad Ysgrifenedig a hysbysiadau yn y wasg wedi cael eu cyhoeddi a'u darparu ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â chyrff proffesiynol er mwyn helpu i hysbysu trethdalwyr Cymreig am y newidiadau hyn. Mae ACC wedi diweddaru ei ganllawiau ac wedi darparu cyfrifiannell treth trafodiadau tir ddiwygiedig i gyfrifo faint o dreth sy'n daladwy. Felly, ni ddylai fod fawr ddim costau gweinyddol ychwanegol i fusnesau.

6.15 Ni ddisgwylir i'r rheoliadau hyn effeithio ar gystadleuaeth na chystadleurwydd busnesau yng Nghymru.

## 7. Adolygu ar ôl gweithredu

7.1 Mae adran 77 o Ddeddf 2017 yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i

gynnal adolygiad annibynnol o'r dreth trafodiadau tir i'w gwblhau o fewn chwe blynedd o'r diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff Deddf 2017 Gydsyniad Brenhinol. Bydd adolygiad o'r dreth trafodiadau tir yn ymdrin â'r holl is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf 2017.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/4406/20

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru

21 Rhagfyr 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau'r Dreth Trafodiadau Tir (Bandiau Trethi a Chyfraddau Trethi) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau'r Dreth Trafodiadau Tir (Bandiau Trethi a Chyfraddau Trethi) (Cymru) (Diwygio) 2020 o dan adrannau 24(1) a 78(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a ddaw i rym ar 22 Rhagfyr 2020. Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru yn nes ymlaen y prynhawn yma.

Yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn dydd Llun 8 Chwefror 2021 er mwyn iddo gael effaith o hyd. Yn yr amgylchiadau hyn, rwyf yn deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Efallai y bydd o gymorth gwybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ar gyfer yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ddydd Mawrth 2 Chwefror 2021.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd; Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(5)689 – Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y Rheoliadau") yn diwygio Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017"), sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2011/92/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 13 Rhagfyr 2011, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2014/52/EU ("y Gyfarwyddeb AEA"), ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd mewn perthynas â dau fath o brosiect ym mharagraff 1 o Atodiad II i'r Gyfarwyddeb honno: prosiectau i ailstrwythuro daliadau tir gwledig a phrosiectau i ddefnyddio tir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol at ddibenion amaethyddol dwys.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod y Rheoliadau'n diwygio Rheoliadau 2017 i ddileu'r esemptiad ar gyfer gwaith cyfyngedig ar dir comin o dan adran 38 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006, er mwyn sicrhau y cydymffurfir yn ddigonol â'r Gyfarwyddeb AEA.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**18 Rhagfyr 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

## 2020 Rhif 1448 (Cy. 312)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (Diwygio) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") sy'n gweithredu'n bennaf Gyfarwyddeb 2011/92/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 13 Rhagfyr 2011 (OJ Rhif L 26, 28.1.2012, t. 1) ar asesu effeithiau prosiectau cyhoeddus a phreifat penodol ar yr amgylchedd ("y Gyfarwyddeb AEA") mewn perthynas â dau fath o brosiect ym mharagraff 1 o Atodiad II i'r Gyfarwyddeb honno: prosiectau i ailstrwythuro daliadau tir gwledig a phrosiectau i ddefnyddio tir heb ei drin neu ardaloedd lled-naturiol at ddibenion amaethyddol dwys. Mae Rheoliadau 2017 yn gwneud darpariaeth ar gyfer y diwygiadau i'r Gyfarwyddeb AEA y rhoddwyd effaith iddynt gan Gyfarwyddeb 2014/52/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 16 Ebrill 2014 (OJ Rhif L 124, 25.4.2014, t. 1).

Mae rheoliad 2 yn diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2017, sy'n nodi'r mathau o brosiectau a eithrir o gwmpas y Rheoliadau hynny. Mae'r diwygiad yn dileu'r esemptiad ar gyfer gwaith cyfyngedig ar dir comin yn rheoliad 3(2)(f) o Reoliadau 2017.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

2020 Rhif 1448 (Cy. 312)

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Rhagfyr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *8 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â'r gofyniad am asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd yn sgil prosiectau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o'r Ddeddf honno.

(**1**) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael. Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau hyd ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn flaenorol gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**2**) O.S. 2001/2555 mewn perthynas â'r gofyniad am asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd yn sgil prosiectau sy'n debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, sydd wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2020.

**Diwygio Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017**

**2.** Yn Rheoliadau Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) (Cymru) 2017(**1**), hepgorer rheoliad 3(2)(f).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
4 Rhagfyr 2020

(**1**) O.S. 2017/565 (Cy. 134), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**Explanatory Memorandum to the Environmental Impact Assessment (Agriculture) (Wales) (Amendment) Regulations 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Department for Environment, Energy and Rural Affairs and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Environmental Impact Assessment (Agriculture) (Wales) (Amendment) Regulations 2020. I am satisfied the benefits justify the likely costs.

**Lesley Griffiths MS**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

8 December 2020

## 1 Description

The Environmental Impact Assessment (Agriculture) (Wales) (Amendment) Regulations 2020 ("the Regulations") amend the Environmental Impact Assessment (Agriculture) (Wales) Regulations 2017 ("the 2017 Regulations"), which implement Directive 2011/92/EU of the European Parliament and of the Council of 13 December 2011, as amended by Directive 2014/52/EU ("the EIA Directive"), on the assessment of the effects of certain public and private projects on the environment.

The 2017 Regulations require those wishing to carry out certain agricultural projects on uncultivated or semi-natural areas and/or large scale restructuring projects on rural land holdings to apply to the Welsh Government for a decision on whether the project is likely to have a significant effect on the environment. This is known as a screening decision. EIA consent is required where the screening decision identifies significant effects.

The Welsh Government seeks to protect common land as part of its strategic objectives in relation to biodiversity and the sustainable use of natural resources to improve the benefits to local communities, the economy and the environment. To protect common land, any application for restricted works must be approved by the Welsh Ministers under section 38 of the Commons Act 2006 ("the 2006 Act"). Applications are considered by Planning Inspectorate Wales on behalf of the Welsh Ministers.

Restricted works are any that prevent or impede access to or over the land, and also include resurfacing works, such as a new car park or access road. Some restricted works on common land also fall within the definition of restructuring projects in the 2017 Regulations e.g. fencing.

In order to prevent certain restricted works on common land being caught by the requirements of both consenting regimes, applications made under section 38 of the 2006 Act are currently exempt from the 2017 Regulations by virtue of regulation 3(2)(f). This gives rise to the expectation the section 38 process itself will deliver an EIA-compliant regime.

The Regulations remove this exemption to ensure sufficient implementation of the EIA Directive.

## 2 Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

None.

## 4 Legislative background

The EIA Directive establishes the rules on the assessment of the effects of certain public and private projects on the environment. The 2017 Regulations primarily

transpose the EIA Directive into domestic legislation, for the purposes of agricultural improvement projects on uncultivated or semi-natural land.

The Welsh Ministers are designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972 ("the 1972 Act") in relation to measures relating to the requirement for an assessment of the impact on the environment of projects likely to have significant effects on the environment by virtue of the European Communities (Designation) (No. 2) Order 2001.

The Regulations are being made by the Welsh Ministers in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the 1972 Act. That Act was repealed by section 1 of the European Union (Withdrawal) Act 2018 ("the 2018 Act") with effect from 31 January 2020. Section 2(2) of the 1972 Act is saved by section 1A of the 2018 Act until the end of the implementation period (31 December 2020), after which that power will no longer be available. The Welsh Ministers are under an obligation to comply with EU law during the implementation period.

The Regulations amend the 2017 Regulations to remove the exemption for applications for restricted works on common land under section 38 of the 2006 Act, to ensure the EIA Directive is sufficiently complied with.

## 5 Purpose & intended effect of the legislation

The 2017 Regulations primarily implement the EIA Directive. They require farmers to apply for screening decisions where they wish to undertake certain agricultural projects on semi-natural areas and/or large scale restructuring projects on rural land holdings. Screening allows any significant environmental effects of a proposal to be identified at an early stage.

Schedule 1 to the 2017 Regulations sets out the following thresholds over which EIA screening is required (thresholds are halved for projects in sensitive areas e.g. National Park, Areas of Outstanding Natural Beauty):

- Boundary restructuring project - 4km
- Area restructuring project - 100 hectares
- Volume restructuring project - 10,000 cubic metres

Applications made under section 38 of the 2006 Act are currently exempt from the requirements of the 2017 Regulations by virtue of regulation 3(2)(f).

The exemption in regulation 3(2)(f) of the 2017 Regulations gives rise to the expectation the section 38 process itself will deliver an EIA-compliant regime. However, the 2006 Act does not require an assessment as to whether the project is likely to have a significant effect on the environment, nor does it require projects which are likely to have such an effect to be subject to an assessment with regard to their effects on the environment. Therefore the consenting regime for certain restricted works on common land under the 2006 Act does not fulfil all the requirements of the EIA Directive.

The changes remove the exemption in regulation 3(2)(f) of the 2017 Regulations, in exercise of the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972. The amendment is of a corrective nature to properly implement the EIA Directive.

As a result, certain restricted works on common land will require an EIA screening decision and EIA consent (where needed) as well as obtaining section 38 consent under the 2006 Act.

## 6 Consultation

Consultation has not been undertaken as the amendment proposed is of a corrective nature to properly implement the EIA Directive.

## Regulatory Impact Assessment

**Summary of Policy Options**

**Option 1 – Do Nothing:**

Not making this change will expose Welsh Government to legal challenge and potential infraction proceedings as the consenting regime for restricted works on common land under the 2006 Act does not fulfil all the requirements of the EIA Directive.

Challenge by way of judicial review could be detrimental, both financially and in terms of staff resources. If the High Court challenge was found in favour of the appellant, Welsh Government would likely have to bring about legislative change in order to comply with the decision.

Infraction proceedings from the European Commission (EC), could result in significant financial penalties for continued non-compliance from the time the 2017 Regulations were implemented to the current day they remain non-compliant with the EIA Directive.

The Welsh Government has no contingency budget in place to deal with infraction penalties. It is UK Government policy that any non-compliance issue which fall under Wales' responsibility would need to be paid by the Welsh Government.

Example of infraction penalties applied:

Case C-304/02, Commission v French Republic. In this judgment of 12 July 2005, the European Court of Justice ordered a Member State to pay both a periodic

penalty payment and a lump sum fine for a serious and persistent failure to comply with Community law.

The case concerned compliance by France with Community measures for fisheries conservation. France had infringed Community law by letting undersized fish be offered for sale. Following inspection at certain French ports in the course of 11 years, the Commission took the view that France was still not yet complying fully with its obligations. Undersized fish were still offered for sale, and the French authorities maintained a lax attitude in enforcing EC rules.

In failing to comply with the pre-litigation procedure, the ECJ ordered France to pay a penalty payment of EUR 57 761 250 for each period of six months, from the 12 July 2005 onwards, taking into account the duration and the seriousness of the infringement and its ability to pay, and a lump sum of EUR 20 000 000. With this amount, the ECJ took into account the persistence of the breach of obligations and the public and private interests at issue.

**Option 2 – Change the Legislation:**

Amending the legislation will give proper effect to the EIA Directive. It will also provide for a consistent approach to rural restructuring projects, whether on enclosed or common land, and ensure any significant environmental effects are identified and mitigated against at an early stage.

The amendment will result in two related, but separate consenting regimes. Those wishing to undertake certain restricted works on common land will have to apply for EIA screening and EIA consent (where needed) as well as obtaining section 38 consent. This will increase the time and effort it takes to obtain consent for such works and may lead to some increased costs.

However, it is anticipated Welsh Government will continue to carry the administrative and financial burden of processing EIA screening applications.

Based on the scale and nature of section 38 applications processed by Planning Inspectorate Wales to date it is expected this will only increase Welsh Government's caseload by two applications per year.

The resource required by Welsh Government to process the additional workload is estimated to be within the region of 0.6 full-time equivalent (FTE) at Higher Executive Officer grade. This equates to an annual cost of approximately £29,200.

Where a screening decision cannot be made based on the information provided by the applicant, Welsh Ministers may request additional information under section 6(2) of the 2017 Regulations.

In such circumstances we anticipate the cost to the applicant to be within the region of £290 - £3,126. Estimates are based on the following assumptions and figures from the Regulatory Impact Assessment accompanying the Environmental Impact

Assessment (Agriculture) (England) (No. 2) (Amendment) Regulations 2017 and adjusted for Wales:

- It will take a land manager / agent 1 day FTE to complete the initial screening application if existing survey data is found.
- If existing survey data is not found it will take a land manager / agent 0.5 day FTE to complete the application
- Average daily wages costs are estimated to be £179 for land managers and £852 for land agents. In both cases, gross wage rates are uplifted by 30% to account for non-wage costs.
- Local Biodiversity Records Centre search fee of £200
- Biodiversity record access fee of £306
- Historic environment record access fee of £129
- In certain circumstances a field survey carried out by a qualified agent or consultant may be required at an estimated cost of £2,500.

There is a risk the requirements may deter those planning to undertake such works from obtaining consent, leading to an increase in permitted works. However, based on the anticipated number of applications, the risk is deemed to be low.

There is also a risk consent could be granted through section 38 but significant environmental impacts identified at EIA screening. In this instance, the applicant would be required to abort the works or amend them and then reapply for EIA screening and EIA consent (if needed) and subsequently section 38 consent.

To prevent the scenario outlined above, existing EIA guidance will be revised, advising those wishing to undertake certain restricted works on common land to first seek an EIA screening decision from Welsh Government and EIA consent (where needed) before applying for consent under section 38 of the Commons Act 2006.

It is estimated it will take up to 90 hours to revise the guidance, at a cost of £3,600 to Welsh Government.

**6. Conclusions**

In conclusion, Option 2 offers more benefits compared to the status quo and reduces the risk of legal challenge. It will create two consenting regimes for certain restricted works on common land. This will increase the time and effort it takes to obtain consent for these works. It may also lead to some increased costs for applicants and additional costs to Welsh Government. This may deter those wanting to carry out restricted works on common land from applying, leading to an increase in unpermitted works. However, this risk is considered to be low given the small number of projects which will be effected.

**7. Sector Impacts**

**Impact on Local Government**

There is no immediate impact identified on Local Government. However each Local Authority will have Commons Officers who will need to familiarise themselves with the legislative changes. The total cost of this across Wales is not expected to

exceed £1,000. This is calculated on the basis of familiarisation taking no more than one hour of an officer's time in each LA.

**Impact on Voluntary Sector**

There is no identified impact on the Voluntary Sector.

**Impact on Small Businesses**

There is likely to be some impact for those wishing to undertake restricted works on common land. It will increase the time and effort it takes to obtain consent for such works and may lead to some increased costs. It is anticipated the change will only effect a small number of section 38 applications.

## 8. Duties

**Equality**

Equality has been considered in relation to this regulatory change. There is no impact identified which may impede on equality issues.

**Welsh Language**

No impact has been identified on the Welsh language in carrying out the Regulatory Impact Assessment.

**Sustainable Development**

The regulatory changes are likely to have a positive impact on the Welsh Government's sustainable development agenda. There is a direct benefit to the outcomes of the Wellbeing of Future Generations Act 2015 and the Environment Act 2016, in that the change will protect the natural environment and landscape of common land for our own and future generations.

## 9. Consultation

The amendment is corrective in nature, therefore consultation has not been undertaken.

## 10. Competition Assessment

Please see Annex A

## 11. Post Implementation Review

The Welsh Government will monitor the impact of the Regulations and will continue to gather data regarding EIA screening and consent on common land. The Welsh Government will also continue to have a dialogue with key stakeholders, including farming organisations and environmental bodies, in order to collate feedback on the

impact of the amending regulations and consider future legislative change. Amendment to the policy and legislation will be considered following the UK's exit from the European Union.

Revised EIA guidance will be issued once the new regulations come into force. Welsh Government officials will continue to advise and assist applicants navigate the EIA process.

**Annex A**

| The competition filter test | |
|---|---|
| **Question** | **Answer**<br><br>**yes or no** |
| **Q1**: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 10% market share? | No |
| **Q2**: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 20% market share? | No |
| **Q3**: In the market(s) affected by the new regulation, do the largest three firms together have at least 50% market share? | No |
| **Q4**: Would the costs of the regulation affect some firms substantially more than others? | No |
| **Q5**: Is the regulation likely to affect the market structure, changing the number or size of businesses/organisation? | No |
| **Q6**: Would the regulation lead to higher set-up costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet? | No |
| **Q7**: Would the regulation lead to higher ongoing costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet? | No |
| **Q8**: Is the sector characterised by rapid technological change? | No |
| **Q9**: Would the regulation restrict the ability of suppliers to choose the price, quality, range or location of their products? | No |

Eitem 5.1

# SL(5)685 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") a hefyd yn gwneud diwygiadau technegol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws)(Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol").

*Diwygiadau i'r Prif Reoliadau*

Gosododd y prif Reoliadau gyfyngiadau a gofynion ar sail Cymru gyfan yn dilyn y "cyfnod atal byr" a oedd ar waith yng Nghymru rhwng 23 Hydref ac 8 Tachwedd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau hynny er mwyn:

- ei gwneud yn ofynnol i fariau, caffis, ffreuturau, bwytai a thafarndai fod ar gau i gwsmeriaid rhwng 6.00 p.m. a 6.00 a.m. (ond mae'r cyfyngiad hwn yn ddarostyngedig i eithriadau penodol yn rheoliad newydd 19B, gan gynnwys mewn perthynas â llety gwyliau neu lety teithio ac ar gyfer gwleddoedd priodasau neu bartneriaethau sifil a archebwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym);
- atal unrhyw alcohol rhag cael ei werthu i'w yfed, neu rhag cael ei yfed, mewn bariau, caffis, ffreuturau, bwytai a thafarndai (ond nid yw hyn yn atal alcohol rhag cael ei werthu i breswylwyr mewn llety gwyliau neu lety teithio fel rhan o wasanaeth ystafell (yn ddarostyngedig i'r gofynion yn rheoliad 20), nac yn atal preswylwyr rhag yfed alcohol yn eu hystafelloedd preifat);
- ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd o dan do mewn lleoliadau adloniant ac atyniadau i ymwelwyr gau;
- gwahardd pobl rhag teithio i Gymru o ardaloedd sy'n ddarostyngedig i'r lefelau uchaf o gyfyngiadau yn Lloegr a'r Alban, a Gogledd Iwerddon hefyd, neu allan o Gymru i'r ardaloedd hynny.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio darpariaethau gorfodi amrywiol (gan gynnwys, er enghraifft, egluro na chaiff pŵer swyddog gorfodi i fynd i mewn i annedd breifat ond ei arfer gan gwnstabl yr heddlu) a darparu ei bod yn drosedd methu, heb esgus rhesymol, â chymryd mesurau a bennir mewn hysbysiad gwella mangre a gyflwynir o dan Atodlen 3 i'r prif Reoliadau.

*Diwygiadau i'r Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol*

Gwnaed Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) 2020 ar 17 Medi 2020 a daethant i rym y diwrnod canlynol. Maent yn cynnwys 'darpariaeth fachlud', fel y bydd y Rheoliadau hynny yn dod i ben ar ddiwedd 8 Ionawr 2021. Bydd y prif Reoliadau y mae'r Rheoliadau hynny'n ymwneud â hwy yn dod i ben ar ddiwedd 19 Chwefror 2021. Y diwygiad

cyntaf a wneir yn y Rheoliadau hyn, felly, yw cysoni'r dyddiadau dod i ben rhwng y ddwy set o Reoliadau, fel bod y ddwy set yn dod i ben ar ddiwedd 19 Chwefror 2021.

Mae Rheoliad 6 o'r Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol gyflwyno cyfarwyddydau ("cyfarwyddydau digwyddiadau") sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddigwyddiad ddod i ben neu beidio â chael ei gynnal, neu osod cyfyngiadau neu ofynion mewn perthynas â chynnal y digwyddiad. Ni allant ond wneud hyn os bodlonir amodau penodol ac ar ôl ystyried a fydd pobl yn ymgynnull yn anghyfreithlon yn y digwyddiad. Gwneir dau fân ddiwygiad i'r rheoliad hwn, sef –

- diwygio croesgyfeiriad;
- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth benderfynu pa un ai i roi cyfarwyddyd digwyddiad, roi sylw hefyd i a oes mwy na 15 o bobl (os yw'r digwyddiad o dan do) neu 30 o bobl yn bresennol (os yw'r digwyddiad yn yr awyr agored).

Er bod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 wedi dod i ben, mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid ystyried hysbysiadau cosb a ddyroddwyd o dan y Rheoliadau hynny wrth bennu swm hysbysiad cosb benodedig i'w ddyroddi o dan reoliad 19 o'r Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol.

Mae rheoliad 46 o'r prif Reoliadau yn caniatáu i awdurdodau lleol ddwyn erlyniadau o dan y Rheoliadau hynny eu hunain, ond ni ddarperir ar gyfer hyn ar hyn o bryd o dan y Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol. Gwneir diwygiad, felly, i reoliad 20 i ddarparu ar gyfer hyn, a hynny er mwyn sicrhau cysondeb o ran pwerau erlyn awdurdodau lleol.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod y diwygiadau sydd yn y Rheoliadau hyn yn parhau'n berthnasol o dan y prif Reoliadau a Rheoliadau Swyddogaethau Awdurdodau Lleol i hawliau unigolion o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu bod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*
> *Wrth benderfynu a oedd angen y cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn y Rheoliadau hyn, a phennu manylion y cyfyngiadau a'r gofynion hynny, rwyf i, ynghyd â Gweinidogion a swyddogion eraill Llywodraeth Cymru, wedi cynnal trafodaethau gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys arweinwyr llywodraeth leol a busnesau ac undebau llafur yng Nghymru ac rydym yn parhau i wneud hynny. Yn fy natganiad i'r Aelodau ar 1 Rhagfyr, cyhoeddais fwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno'r newidiadau a gyflawnir yn y Rheoliadau hyn, sydd wedi'u hadrodd yn eang ers hynny."*

Bu llawer o sôn yn y cyfryngau am y ffaith bod y Rheoliadau hyn wedi cael effaith economaidd uniongyrchol sylweddol ar fusnesau, yn enwedig busnesau yn y sector lletygarwch a busnesau sy'n darparu nwyddau a gwasanaethau i'r sector hwnnw. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ffaith y cafodd y cyhoeddiad ynghylch y newidiadau polisi a chyfreithiol a fyddai'n digwydd yn sgil y Rheoliadau hyn ei wneud ar 1 Rhagfyr, dim ond pedwar diwrnod cyn iddynt ddod i rym. O ystyried y ffaith y byddai llawer o'r busnesau yr effeithir arnynt wedi gwneud buddsoddiadau helaeth ar yr adeg hon o'r flwyddyn, er enghraifft, mewn stoc ddarfodus, pa fesurau cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi ar waith i liniaru'r effaith economaidd, a pha ystyriaeth a roddwyd i ddewisiadau polisi eraill?

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Nodyn Esboniadol i'r rheoliadau hyn yn cynnwys gwallau. Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi: "Mae'r diwygiadau i'r Rheoliadau swyddogaethau awdurdodau lleol (a) yn darparu i'r Rheoliadau ddod i ben ar 19 Chwefror 2020 yn lle 8 Ionawr 2020, er mwyn bod yn gyson â dyddiad dod i ben y prif Reoliadau." Dylai'r dyddiadau machlud newydd sy'n cael eu nodi fod ym mlwyddyn 2021, nid ym mlwyddyn 2020. Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r dyddiadau cywir.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ffaith nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn, a bod y Memorandwm Esboniadol yn egluro bod hyn "oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar frys i fynd i'r afael â'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd." Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod "crynodeb o asesiad effaith integredig wedi'i lunio a bydd yn cael ei gyhoeddi ar

wefan LLYW.cymru: *https://llyw.cymru/asesiadau-o-effaith-coronafeirws*". Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r papur hwn (9 Rhagfyr), nid oedd unrhyw grynodeb wedi'i gyhoeddi. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pryd y disgwylir i unrhyw grynodeb o'r fath gael ei gyhoeddi.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i bwyntiau rhinweddau 2, 3 a 4 uchod.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020**

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2: mesurau i liniaru'r effaith economaidd ac ystyriaeth i ddewisiadau eraill**

Roedd y Rheoliadau yn cryfhau'r cyfyngiadau yng Nghymru er mwyn canolbwyntio ar fannau lle y mae pobl yn cwrdd â'i gilydd a lle y mae'r coronafeirws yn ffynnu. Rydym wedi defnyddio'r dystiolaeth ddiweddar gan Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau y Deyrnas Unedig (SAGE), a ystyriodd pa ymyriadau sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar y feirws. Amlygodd y dystiolaeth effaith gadarnhaol y mesurau yn system lefel tri yr Alban a chyfyngiadau haen tri Lloegr.

Roedd llawer o'r rhain eisoes ar waith yng Nghymru. Ystyriodd y Cabinet amrywiadau ar fesurau pellach a oedd i gyd yn cyfateb yn fras i'r rheini yn Lloegr a'r Alban. Roedd y Rheoliadau a oedd yn cael eu hystyried yn gosod cyfyngiadau newydd ar gyfer y sector lletygarwch, y sector adloniant ac atyniadau o dan do.

I ategu'r cymorth arall sydd ar gael (e.e. Cynllun Cadw Swyddi a Chynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig), mae pecyn cymorth sylweddol gwerth £340m i fusnesau y mae'r cyfyngiadau yn effeithio arnynt yn sylweddol wedi cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru. Cronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau gwerth £160m yw'r elfen gyntaf, a fydd yn rhoi taliadau o £3,000 neu £5,000 i fusnesau yn y sector lletygarwch. Bydd busnesau yn y sectorau twristiaeth, hamdden, manwerthu a'r gadwyn gyflenwi hefyd yn gymwys i gael y cymorth hwn os yw eu trosiant yn gostwng fwy na 40% yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau. Bydd y taliadau hyn yn cael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol.

Mae ail elfen ychwanegol o gymorth yn cael ei rhoi ar gael i fusnesau yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a hamdden neu gwmnïau yn y gadwyn gyflenwi y mae eu trosiant yn gostwng fwy na 60% yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau. Aeth y gwiriwr cymhwysedd ar gyfer y pecyn newydd hwn yn fyw ar 11 Rhagfyr 2020 a bydd y broses ymgeisio yn agor ym mis Ionawr 2021.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3: gwall yn y nodyn esboniadol**

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am gael gwybod am y mater. Fel y mae'r Pwyllgor yn ei nodi, defnyddiwyd y dyddiadau cywir yn y Rheoliadau eu hunain ac yn y Memorandwm Esboniadol.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 4: cyhoeddi crynodeb o asesiad effaith integredig**

Cyhoeddwyd y crynodeb o'r asesiad effaith integredig ar wefan y Llywodraeth ddydd Llun 14 Rhagfyr.

# SL(5)696 – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 45C(1), (2), (3)(c) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Mae'r Rheoliadau'n atal, ac eithrio o dan amgylchiadau penodedig, bod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben gweithredu gwrit neu warant meddiant, gweithredu gwrit neu warant adfer neu ddanfon hysbysiad troi allan.

Yr amgylchiadau penodedig yw pan fo'r llys wedi ei fodloni bod yr hawliad yn un yn erbyn tresmaswyr sy'n bersonau anhysbys neu pan y'i gwnaed yn llwyr neu'n rhannol ar sail trais domestig, troseddau difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans neu, mewn achosion pan fo'r person sy'n bresennol wedi ei fodloni nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannau ar yr adeg pan fo'n bresennol, farwolaeth y meddiannydd.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Rhagfyr 2020 a deuant i ben ar 11 Ionawr 2021.

Gwnaeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ddatganiad ar 10 Rhagfyr 2020 yn ychwanegu mai "diben y Rheoliadau yw sicrhau bod cyn lleied â phosibl o denantiaid yn cael eu troi allan yn ystod cyfnod y Nadolig a chanol y gaeaf. Gyda mynediad at wasanaethau a llety amgen yn aml yn gyfyngedig yn ystod y cyfnod hwn, mae mwy o risg y bydd troi allan yn arwain at ddigartrefedd, sydd yn ei dro yn cynyddu'r risg y bydd y feirws yn cael ei drosglwyddo."

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn 26 Ionawr 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 3(2) yn ddarpariaeth arbed ac mae'n nodi'r canlynol:

> *"(2) Nid yw'r ffaith bod y Rheoliadau hyn wedi dod i ben yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir neu nas gwneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn iddynt ddod i ben."*

Nid yw'n eglur pam y mae angen y ddarpariaeth hon oherwydd gweithredu adran 34 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Ymddengys nad oes diben i'r ddarpariaeth a'i bod yn ddiangen. Bydd cyd-destunau pan fydd yn ystyrlon ac yn ddymunol, neu hyd yn oed yn angenrheidiol, gwneud darpariaeth sy'n dyblygu darpariaeth y Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) ond, yn yr achos hwn, nid yw'n eglur pam y cafodd ei chynnwys a gallai beri dryswch. Gofynnir i'r Llywodraeth esbonio pam y bernir bod y ddarpariaeth hon yn angenrheidiol.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymgysylltu â hawliau landlordiaid o dan Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("A1P1"). Er bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi y gwneir y Rheoliadau hyn mewn ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, nid yw'n cyfeirio'n benodol at y ffaith bod y rheoliadau hyn yn ymgysylltu â hawliau dynol a sut y maent o'r farn bod y darpariaethau'n gyfiawnadwy ac yn gymesur yng nghyd-destun yr hawliau hynny. Gofynnir i'r Llywodraeth roi'r cyfiawnhad hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"O ystyried yr argyfwng iechyd y cyhoedd, ni fu modd cynnal unrhyw ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn ac nid oes gofyniad statuol i wneud hynny."*

Er y derbynnir nad oes gofyniad statudol i ymgynghori wrth wneud y rheoliadau hyn o dan y pwerau uchod, a all y Llywodraeth gadarnhau a oedd yn gallu ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol o gwbl cyn gwneud y rheoliadau hyn?

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn a bod y Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *"Mae'r argyfwng COVID-19 a brys gwneud y Rheoliadau hyn yn golygu [na] fu modd paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i feintioli."*

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod paragraff 6 o'r Memorandwm Esboniadol yn ceisio nodi crynodeb o effaith bosibl y Rheoliadau hyn sy'n darparu rhywfaint o asesiad ansoddol o'u heffaith.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

## Government Response: *Public Health (Protection from Eviction) (Wales) (Coronavirus) Regulations 2020*

**Technical Scrutiny point 1:**

Whilst section 34 of the Legislation (Wales) Act 2019 may have sufficed to ensure that expiry of the Regulations will not render invalid that which was validly done before the Regulations were in force, this statement contains additional wording “or not done” which is intended to avoid any argument that a decision not to enter a property or take other steps towards execution of a writ or warrant on account of the restrictions in the regulations might be able to be impugned as not being something “done”.

We consider that regulation 3(2) of the Regulations is required given the UK Government had already stated that possession orders in England and Wales would not be enforced by bailiffs between 11 December 2020 and 11 January 2021 (there is a similar provision in regulation 4(3) of the Public Health (Coronavirus) (Protection from Eviction and Taking Control of Goods) (England) Regulations 2020). In addition, the Health Protection (Coronavirus Restrictions) (No 4) (Wales) Regulations 2020 also contains a similar provision.

**Merit Scrutiny point 1:** We consider that the Regulations are compatible with the European Convention on Human Rights.

**Merit Scrutiny point 2:** It was not possible, given the urgency to act, to engage with stakeholders on the specific content of the Regulations before they were made. However, stakeholders had been previously informed by Welsh Government officials of the announcement by the UK Government that evictions would not take place over the Christmas period.

Stakeholders were updated by the Welsh Government on the Regulations when they came into force last Friday, and a communication has been issued to landlords through Rent Smart Wales.

**Merit Scrutiny point 3:** The Welsh Government notes the Committee’s comment and has nothing further to add in relation to this point.

## Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020*

**Pwynt Craffu Technegol 1:**

Er y gallai adran 34 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 fod yn ddigonol er mwyn sicrhau na fydd y ffaith bod y Rheoliadau wedi dod i ben yn gwneud unrhyw beth a wneir mewn modd dilys cyn i'r Rheoliadau ddod i rym yn annilys, mae'r datganiad hwn yn cynnwys y geiriau ychwanegol "neu nas gwneir". Bwriad hyn yw osgoi unrhyw ddadl nad yw penderfyniad i beidio â mynd i eiddo neu gymryd camau eraill i weithredu gwrit neu warant o ganlyniad i'r cyfyngiadau yn y Rheoliadau yn rhywbeth "a wneir".

Rydym yn ystyried bod rheoliad 3(2) o'r Rheoliadau yn angenrheidiol o ystyried bod Llywodraeth y DU eisoes wedi datgan na fyddai gorchmynion adennill meddiant yng Nghymru a Lloegr yn cael eu gorfodi gan feilïaid rhwng 11 Rhagfyr 2020 ac 11 Ionawr 2021 (ceir darpariaeth debyg yn rheoliad 4(3) o Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Coronafeirws) (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan a Chymryd Rheolaeth o Nwyddau) (Lloegr) 2020). Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020 hefyd yn cynnwys darpariaeth debyg.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 1:** Rydym yn ystyried bod y Rheoliadau hyn yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:** Gan fod angen gweithredu ar frys, nid oedd yn bosibl ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gynnwys penodol y Rheoliadau cyn iddynt gael eu gwneud. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid wedi eu hysbysu yn flaenorol gan swyddogion Llywodraeth Cymru am gyhoeddiad Llywodraeth y DU na fyddai achosion o droi allan yn digwydd dros gyfnod y Nadolig.

Cafodd rhanddeiliaid ddiweddariad ar y Rheoliadau gan Lywodraeth Cymru pan ddaethant i rym ddydd Gwener diwethaf, ac mae cyfathrebiad wedi ei anfon at landlordiaid drwy Rhentu Doeth Cymru.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi sylw'r Pwyllgor ac nid oes ganddi unrhyw beth arall i'w ychwanegu mewn perthynas â'r pwynt hwn.

Eitem 5.3

# SL(5)699 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Mangre Ysgol a Mangre Sefydliad Addysg Bellach) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfyngu ar yr amgylchiadau y gall ddisgybl neu fyfyriwr fynychu mangre ysgol neu sefydliad addysg bellach yng Nghymru rhwng 14 a 22 Rhagfyr 2020. Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r Coronafeirws, ac maen nhw'n seiliedig ar gyngor a roddwyd gan Brif Swyddog Meddygol Cymru.   Mae'r Rheoliadau yn gwahardd:

(i) perchnogion ysgolion rhag caniatáu i ddisgyblion ym mlwyddyn 7 ac uwch fynychu'r ysgol; a

(ii) perchnogion sefydliadau addysg bellach rhag caniatáu i fyfyrwyr fynychu'r sefydliad.

Mae yna eithriadau ar gyfer (ymhlith eraill) plant gweithwyr hanfodol, disgyblion a myfyrwyr sy'n agored i niwed, a disgyblion ysgolion arbennig.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**

Y pwerau galluogi y dibynnir arnynt yn y testun Cymraeg yw-

> Adran 45C (1) a (3)**(c)**, 45F(2) a 45(P) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (ein pwyslais ni)

Y pwerau galluogi y dibynnir arnynt yn y testun Saesneg yw-

> Adran 45C(1) a (3), 45F(2) a 45(P) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefyd) 1984.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan y Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.*
>
> *Mae'r Rheoliadau hyn yn cyffwrdd ag Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).*
>
> *Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae angen i unrhyw ymyrraeth yn yr hawliau hyn hefyd gael ei gydbwyso yn erbyn rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y Coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i leihau'r cynnydd yng nghyfradd drosglwyddo'r Coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Wrth benderfynu ar yr angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a amlinellir yn y Rheoliadau hyn, a'u manylion, cymerais i, ynghyd â Gweinidogion eraill a swyddogion Llywodraeth Cymru, ran mewn cyfres o drafodaethau brys gyda sectorau a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys llywodraeth leol ac ysgolion. Darparodd y Gweinidog Addysg ddatganiad ysgrifenedig ar y mater hwn ar 10fed Rhagfyr 2020, wedi'i hategu gan ddatganiad i'r wasg."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn cydnabod bod y Rheoliadau hyn wedi'u gwneud mewn ymateb i argyfwng iechyd cyhoeddus. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor i Lywodraeth Cymru roi manylion pellach ynghylch pwy yr ymgynghorodd â hwy a phryd, cyn gwneud y Rheoliadau hyn.

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar hawliau plant ac rydym yn gwahodd Llywodraeth Cymru i egluro pa gamau a gymerodd i asesu effaith benodol y Rheoliadau hyn ar blant.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru (ond nid i bwyntiau 2 a 3).

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**WELSH GOVERNMENT RESPONSE: The Health Protection (Coronavirus Restrictions) (School Premises and Further Education Institution Premises) (Wales) Regulations 2020**

**Technical scrutiny point 1:**

The Welsh Government agrees that there is an inconsistency between the enabling powers cited in the Welsh and English text, in that section 45(3)(c) is cited in the Welsh text and 45(3) in the English text. This is a typographical error in the English text. This does not affect the validity of the Regulations.

**Merits scrutiny point 4:**

Due to this being emergency legislation, formal consultation was not possible. The decision to introduce regulations was informed by advice from the CMO and PHW. In formulating the regulations we were able to draw on feedback and previous discussions with key stakeholders on the operation of schools during the pandemic. This includes feedback from the Children's Commissioner for Wales, parents, learners, local authorities, third sector and education unions. Given the timescales involved, the intention of the regulations was discussed briefly with the Chair of ADEW over the weekend. The Children's Commissioner for Wales has previously raised concerns about provision of education for vulnerable learners and critical workers during such a decision. The legislation addresses these points of concern. We have tested this approach working with the 22 local authorities and the unions during the firebreak, although the context for making the decision has shifted, we understand local authorities working with schools have the ability to offer this.

**Merits scrutiny point 5:**

The Regulations are made in response to the serious and imminent threat to public health which is posed by the incidence and spread of severe acute respiratory syndrome coronavirus 2 (SARS-CoV-2) which causes the disease known as COVID-19 or "coronavirus".

The advice of the Chief Medical Officer for Wales is that action is needed now if we are to mitigate the ongoing transmission of Covid-19 and to prevent NHS capacity in Wales becoming stressed and potentially overwhelmed. These Regulations are intended to help prevent direct Covid-19 deaths and deaths related to the non-availability of NHS services as a consequence of widespread community transmission of the virus.

An IIA was completed and published as part of the firebreak arrangements and as part of the move to providing provision for vulnerable learnings and children of critical workers as part of the HUB provision in April which fully explored the impact of the approach. These are published and, they are available at the following links:

https://gov.wales/provision-education-response-covid-19-impact-assessment

https://llyw.cymru/y-ddarpariaeth-addysg-mewn-ymateb-i-covid-19-asesiad-effaith

https://llyw.cymru/crynodeb-or-cyfyngiadau-ar-ymgynnull-yn-gymdeithasol-theithio-cau-busnesau-phresenoldeb-yn-yr-ysgol

https://gov.wales/summary-restrictions-social-gathering-and-travel-business-closures-and-attendance-school

A Summary Impact Assessment is in the final stages of development for the Covid control plan which the FM announced last week and is to be published this week. The intention is to publish that plan this week along with or shortly after the control plan itself.

In addition, the Impact Assessment made on 26 October covers the impact of extending the half term for years 9 and upwards. This is not directly equivalent to the current situation because years 7 and 8 were able to attend during that week. However in other respects the assessment of impact of the current measures would be similar.

**Merits scrutiny point 6:**

An IIA was completed and published as part of the firebreak arrangements and as part of the move to providing provision for vulnerable learnings and children of critical workers as part of the HUB provision in April which fully explored the impact of the approach. These are published and, they are available at the following links:

https://gov.wales/provision-education-response-covid-19-impact-assessment

https://llyw.cymru/y-ddarpariaeth-addysg-mewn-ymateb-i-covid-19-asesiad-effaith

https://llyw.cymru/crynodeb-or-cyfyngiadau-ar-ymgynnull-yn-gymdeithasol-theithio-cau-busnesau-phresenoldeb-yn-yr-ysgol

https://gov.wales/summary-restrictions-social-gathering-and-travel-business-closures-and-attendance-school

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Mangre Ysgol a Mangre Sefydliad Addysg Bellach) (Cymru) 2020**

**Pwynt craffu technegol 1:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod anghysondeb rhwng y pwerau galluogi a enwir yn y testunau Cymraeg a Saesneg, gan fod adran 45(3)(c) yn cael ei henwi yn y testun Cymraeg a 45(3) yn y testun Saesneg. Gwall teipograffyddol yn y testun Saesneg yw hwn. Nid yw hyn yn effeithio ar ddilysrwydd y Rheoliadau.

**Pwynt craffu ar rinweddau 4:**

Am mai deddfwriaeth frys oedd hon, nid oedd ymgynghori ffurfiol yn bosibl. Roedd y penderfyniad i gyflwyno rheoliadau yn seiliedig ar gyngor gan y Prif Swyddog Meddygol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Wrth lunio'r rheoliadau, roeddem yn gallu defnyddio adborth a thrafodaethau blaenorol â rhanddeiliaid allweddol ar weithrediad ysgolion yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys adborth gan Gomisiynydd Plant Cymru, rhieni, dysgwyr, awdurdodau lleol, y trydydd sector ac undebau addysg. O ystyried yr amserlenni o dan sylw, trafodwyd bwriad y rheoliadau yn fras â Chadeirydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru dros y penwythnos. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi codi pryderon o'r blaen ynghylch darparu addysg i ddysgwyr hyglwyf a gweithwyr hanfodol pan wneir penderfyniad o'r fath. Mae'r ddeddfwriaeth yn ymdrin â'r pwyntiau hyn sy'n peri pryder. Rydym wedi profi'r dull hwn o weithio gyda'r 22 o awdurdodau lleol a'r undebau yn ystod y cyfnod atal byr. Er bod y cyd-destun ar gyfer gwneud y penderfyniad wedi newid, rydym yn deall bod awdurdodau lleol, gan weithio gydag ysgolion, yn gallu cynnig hyn.

**Pwynt craffu ar rinweddau 5:**

Mae'r Rheoliadau wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd o'r enw COVID-19 neu'r "coronafeirws".

Cyngor Prif Swyddog Meddygol Cymru yw bod angen gweithredu yn awr er mwyn inni liniaru trosglwyddiad parhaus Covid-19 ac atal capasiti'r GIG yng Nghymru rhag bod o dan ormod o bwysau a chael ei lethu o bosibl. Bwriad y Rheoliadau hyn yw helpu i atal marwolaethau Covid-19 uniongyrchol a marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r ffaith nad yw gwasanaethau'r GIG ar gael o ganlyniad i drosglwyddo'r feirws yn eang yn y gymuned.

Cafodd Asesiad Effaith Integredig ei gwblhau a'i gyhoeddi fel rhan o drefniadau'r cyfnod atal byr ac fel rhan o'r cam i ddarparu ar gyfer dysgwyr hyglwyf a phlant gweithwyr hanfodol fel rhan o'r ddarpariaeth hyb ym mis Ebrill a archwiliodd effaith y dull gweithredu yn llawn. Mae'r rhain wedi eu cyhoeddi, ac maent ar gael drwy ddilyn y dolenni a ganlyn:

https://llyw.cymru/y-ddarpariaeth-addysg-mewn-ymateb-i-covid-19-asesiad-effaith

https://gov.wales/provision-education-response-covid-19-impact-assessment

https://llyw.cymru/crynodeb-or-cyfyngiadau-ar-ymgynnull-yn-gymdeithasol-theithio-cau-busnesau-phresenoldeb-yn-yr-ysgol

https://gov.wales/summary-restrictions-social-gathering-and-travel-business-closures-and-attendance-school

Mae Asesiad Effaith Cryno yng nghamau olaf ei ddatblygiad ar gyfer y cynllun rheoli Covid y gwnaeth Prif Weinidog Cymru gyhoeddiad yn ei gylch yr wythnos diwethaf ac sydd i'w gyhoeddi yr wythnos hon. Y bwriad yw cyhoeddi'r cynllun hwnnw yr wythnos hon gyda'r cynllun rheoli ei hun neu'n fuan ar ôl hynny.

Yn ogystal, mae'r Asesiad Effaith a wnaed ar 26 Hydref yn cwmpasu effaith estyn yr hanner tymor ar gyfer blynyddoedd 9 ac uwch. Nid yw hyn yn cyfateb yn uniongyrchol i'r sefyllfa bresennol am fod blynyddoedd 7 ac 8 yn gallu bod yn bresennol yn ystod yr wythnos honno. Fodd bynnag, mewn ffyrdd eraill, byddai asesu effaith y mesurau presennol yn debyg.

**Pwynt craffu ar rinweddau 6:**

Cafodd Asesiad Effaith Integredig ei gwblhau a'i gyhoeddi fel rhan o drefniadau'r cyfnod atal byr ac fel rhan o'r cam i ddarparu ar gyfer dysgwyr hyglwyf a phlant gweithwyr hanfodol fel rhan o'r ddarpariaeth hyb ym mis Ebrill a archwiliodd effaith y dull gweithredu yn llawn. Mae'r rhain wedi eu cyhoeddi, ac maent ar gael drwy ddilyn y dolenni a ganlyn:

https://llyw.cymru/y-ddarpariaeth-addysg-mewn-ymateb-i-covid-19-asesiad-effaith

https://gov.wales/provision-education-response-covid-19-impact-assessment

https://llyw.cymru/crynodeb-or-cyfyngiadau-ar-ymgynnull-yn-gymdeithasol-theithio-cau-busnesau-phresenoldeb-yn-yr-ysgol

https://gov.wales/summary-restrictions-social-gathering-and-travel-business-closures-and-attendance-school

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'r Fframweithiau Cyffredin** |
| **DYDDIAD** | **17 Rhagfyr 2020** |
| **GAN** | **Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd** |

Yn unol â Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, mae'n ofynnol i Lywodraeth y DU adrodd yn achlysurol i Senedd y DU ar faterion sy'n ymwneud â'r Fframweithiau Cyffredin a'r defnydd dros dro a wneir gan Lywodraeth y DU, os o gwbl, o bwerau o dan adran 12 o'r Ddeddf (y 'pwerau rhewi' fel y'u gelwir) er mwyn cynnal cyfyngiadau presennol cyfraith yr UE ar gymhwysedd datganoledig. Rwy'n hysbysu'r Aelodau bod y nawfed adroddiad o'r fath wedi'i osod yn Senedd y DU ar 10 Rhagfyr 2020, ar gyfer y cyfnod o 26 Mehefin – 25 Medi 2020.

Mae'r adroddiad yn nodi'r gwaith cadarnhaol parhaus ar y Fframweithiau Cyffredin, ac mae'n cadarnhau nad yw Llywodraeth y DU wedi defnyddio'r 'pwerau rhewi'. Mae'r cynnydd a wnaed ar draws rhaglen y Fframweithiau Cyffredin yn 2020, a hynny er gwaethaf yr anawsterau a achoswyd gan bandemig COVID-19, yn gyflawniad aruthrol. Mae'r rhaglen hon yn cynnig model i'w efelychu mewn prosiectau rhynglywodraethol yn y dyfodol.

Fodd bynnag, mae agwedd Llywodraeth y DU tuag at Farchnad Fewnol y DU yn bygwth ansefydlogi proses y Fframweithiau Cyffredin. Mae'r adroddiad yn cydnabod nad yw'r Gweinyddiaethau Datganoledig yn cytuno â Bil y Farchnad Fewnol sydd eisoes wedi ei basio gan Senedd y DU. Fodd bynnag, gan nad yw'r adroddiad ond yn berthnasol i'r cyfnod hyd at 25 Medi, nid yw'n adlewyrchu'r ffaith i'r Senedd bleidleisio yn erbyn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i Fil Marchnad Fewnol y DU ar 9 Rhagfyr 2020.

Fe gyhoeddwyd hefyd Ddatganiad Ysgrifenedig ar 16 Rhagfyr, yn amlinellu manylion her gyfreithiol bosibl i Fil y Farchnad Fewnol y DU. Rwyf wedi gofyn am ymateb gan Lywodraeth y DU ymhen 14 o ddiwrnodau.

Mae copi o'r adroddiad i'w weld yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/941711/The_European_Union__Withdrawal__Act_and_Common_Frameworks.pdf

Cabinet Office

# The European Union (Withdrawal) Act and Common Frameworks

26 June to 25 September 2020

December 2020

Cabinet Office

# The European Union (Withdrawal) Act and Common Frameworks

**26 June to 25 September 2020**

**Presented to Parliament pursuant to paragraph 4 of Schedule 3 to the European Union (Withdrawal) Act 2018**

**This document is available in large print, audio and braille on request. Please call +44 (0)207 276 1234 or email publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk.**

**© Crown copyright 2020**

**This publication is licensed under the terms of the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated. To view this licence, visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.**

**Where we have identified any third party copyright information you will need to obtain permission from the copyright holders concerned.**

**This publication is available at www.gov.uk/official-documents**

**Any enquiries regarding this publication should be sent to us at publiccorrespondence@cabinetoffice.gov.uk**

**ISBN 978-1-5286-2282-0**

**CCS1120608530 12/20**

# Contents

**Contents** 5

**Foreword** 7

**Implementation of Common Frameworks** 8

- Principles for Common Frameworks 8
- Progress Towards Establishing Future Frameworks 9
- Framework Coordination 11
- Framework Development 12
- Programme Development 13
- UK Internal Market 15

**Legislation Relating to Retained EU Law Restrictions** 16

- Regulations to 'Freeze' Devolved Competence 16
- Regulations to Repeal the 'Freezing' Powers 16



**The Rt Hon Michael Gove MP Chancellor of the Duchy of Lancaster and Minister for the Cabinet Office**



**Chloe Smith MP Minister of State for Constitution and Devolution**



**The Rt Hon Brandon Lewis CBE MP Secretary of State for Northern Ireland**



**The Rt Hon Alister Jack MP Secretary of State for Scotland**



**The Rt Hon Simon Hart MP Secretary of State for Wales**

# Foreword

Since 2017, the UK Government and devolved administrations have been working together to develop agreements covering a range of policy areas which are flowing back from the European Union. This will have a direct bearing on the lives of citizens across the United Kingdom. The development of UK Common Frameworks is guided by principles agreed at the Joint Ministerial Committee (EU Negotiations) (JMC(EN)) in October 2017 between the UK Government and Scottish and Welsh Governments, and later on 15 June 2020, officially endorsed by the Executive Committee of the Northern Ireland Executive.

Under Schedule 3 of the European Union (Withdrawal) Act 2018, the UK Government has a statutory requirement to report to the UK Parliament every three months on the progress made on the development of UK Common Frameworks. This ninth European Union Withdrawal and Common Frameworks report details progress from 26 June - 25 September 2020. In addition to progress made, the report details that the UK Government did not make use of powers under section 12 of the European Union (Withdrawal) Act 2019 to temporarily maintain existing limits on devolved competence in some policy areas.

During this reporting period, the COVID-19 outbreak has continued to exert capacity pressures across the programme. The UK Government and devolved administrations have remained committed to progressing UK Common Frameworks and, as such, two Common Frameworks - Nutrition Labelling, Composition and Standards and Hazardous Substances (Planning) - were provisionally approved by JMC(EN) on 3 September. They became the first Common Frameworks to reach this major milestone.

Significant work was undertaken across the UK Government and devolved administrations to produce the Frameworks Analysis 2020, which was published on 24 September 2020. This report provides a detailed technical update on the implementation arrangements for each individual framework area. In addition to the regular European Union (Withdrawal) Act and Common Framework reports, the Analysis further illustrates the ongoing collaborative work between the UK Government and devolved administrations to deliver UK Common Frameworks.

The UK Government and devolved administrations have continued to engage with technical stakeholders and early engagement with legislatures took place to prepare for upcoming parliamentary scrutiny.

In parallel to developing Common Frameworks, the UK Government has developed a cross-cutting approach to the UK Internal Market. In July the UK Government published a White Paper, launching a four week consultation on the UK Government’s proposals. Following this, the UK Internal Market Bill was introduced to Parliament on 9 September.

# Implementation of Common Frameworks

1.1. Part 2 of Schedule 3 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 requires that a Minister of the Crown report to Parliament at three month intervals on various matters pertaining to Common Frameworks, and the use of the powers in section 12 of, and Schedule 3 to, the 2018 Act to temporarily maintain the existing EU law limits on devolved competence. Reports are shared with the devolved administrations to enable them to maintain a concurrent level of scrutiny. The last report was published on 24 September 2020 and covered the reporting period 26 March 2020 to 25 June 2020.[1]

1.2. The purpose of these reports is to ensure that the process of developing Common Frameworks, in collaboration with the devolved administrations, is transparent and subject to robust parliamentary scrutiny.

## Principles for Common Frameworks

1.3. Under the Withdrawal Agreement, EU law will continue to apply to and in the UK during the Transition Period. Under the devolution settlements, the devolved legislatures and administrations cannot act incompatibly with EU law. The EU laws that are in place create common UK-wide approaches even where those policy areas otherwise fall within devolved competence. The Northern Ireland Executive endorsed the JMC(EN) principles in June 2020, meaning all four administrations across the UK have agreed that common approaches will continue to be required in some areas now the UK has left the EU.

1.4. In October 2017, the Joint Ministerial Committee (EU Negotiations) agreed upon principles to guide the work to create Common Frameworks.[2] These principles are set out below:

1. *Common Frameworks will be established where they are necessary in order to:*
    - *enable the functioning of the UK internal market, while acknowledging policy divergence;*
    - *ensure compliance with international obligations;*
    - *ensure the UK can negotiate, enter into and implement new trade agreements and international treaties;*
    - *enable the management of common resources;*
    - *administer and provide access to justice in cases with a cross-border element;*
    - *safeguard the security of the UK.*
2. *Frameworks will respect the devolution settlements and the democratic accountability of the devolved legislatures, and will therefore:*

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/919783/Eighth_EUWA_and_Common_Frameworks_Report.pdf
[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/652285/Joint_Ministerial_Committee_communique.pdf

- *be based on established conventions and practices, including that the competence of the devolved institutions will not normally be adjusted without their consent;*
